

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Ionawr 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddTai

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddTai@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddLlywLTai](https://twitter.com/SeneddLlywLTai)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Ionawr 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddTai

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
John Griffiths AS**
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sam Rowlands AS
Ceidwadwyr Cymreig



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon wrth graffu ar y Bil:



Adam Price AS
Plaid Cymru



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhellion.....	3
1. Cyflwyniad.....	7
Cylch gorchwyl.....	7
Dull gweithredu'r Pwyllgor.....	8
Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil	9
2. Egwyddorion Cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth	10
Cefndir y Bil.....	10
Trosolwg o'r Bil.....	11
Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael	13
Cymhwysedd deddfwriaethol a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth hawliau dynol	17
Ein barn ni.....	19
3. Rhan 1 – Gweinyddu a chofrestru etholiadol	21
Cydlynu gweinyddu etholiadol.....	21
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.....	21
Y Bwrdd Rheoli Etholiadol.....	22
Ein barn ni.....	33
Cofrestru etholiadol heb gais.....	37
Cyfnod rhybudd o 45 diwrnod	46
Cofrestru'n ddiennw	47
Dileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig	49
Data.....	52

Ein barn ni	55
Peilota a diwygio etholiadau Cymreig	60
Ein barn ni	71
Hygyrchedd ac amrywiaeth: Etholiadau Cymreig	73
Dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol ynghylch cymorth i bleidleiswyr ag anabledau	73
Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol.....	79
Platfform gwybodaeth i bleidleiswyr.....	85
Hyrwyddo amrywiaeth pobl sy'n ceisio cael swyddi etholedig	101
Cynlluniau Cymorth Ariannol.....	106
Cyllid ymgyrchu	113
Ein barn ni	117
4. Rhan 2 – Cyrff etholedig a'u haelodau	118
Trefniadau ar gyfer llywodraeth leol.....	118
Ein barn ni	122
Tâl aelodau etholedig	122
Ein barn ni	129
Anghymhwysu a dylanwad amhriodol.....	130
Anghymhwysu ac aelodaeth ddeuol.....	130
Dylanwad amhriodol.....	134
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.....	136
Ein barn ni	137
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	138
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	140

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Tudalen 19

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ar wyneb y Bil hwn y bydd swyddogion canlyniadau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Tudalen 20

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ganddo ar y Bil ac y dylai fersiynau wedi'u diweddarau gael eu cyhoeddi i ystyried newidiadau a wneir i'r Bil yn ystod y cyfnodau gwella. Tudalen 20

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gryfhau atebolrwydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i'r Senedd. Hoffem weld y Bil hwnnw'n cael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad am i adroddiadau blynyddol y Comisiwn fod yn destun dadl yn y Senedd. Tudalen 35

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i wrandawiadau cyn penodi gan y Senedd i gael eu cynnwys yn y broses benodi ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Tudalen 35

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell, yn ogystal â nodi y dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn gyn-swyddog etholiadau, y dylai'r Bil nodi hefyd fod rhaid i'r cadeirydd fod â phrofiad perthnasol a diweddar, megis fel swyddog etholiadau o fewn cyfnod penodol cyn cael ei benodi. Tudalen 36

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phartïon perthnasol, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, ac ystyried eu barn wrth benderfynu pryd y dylai'r darpariaethau mewn perthynas â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gychwyn. Tudalen 37

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ystyried ble yng Nghymru i gynnal cynlluniau peilot yn ymwneud â chofrestru etholiadol

heb gais, sicrhau bod amrywiaeth o ardaloedd yn cael eu cynnwys. Credwn y dylai'r ardaloedd a ddewisir gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, ardaloedd cefnog a llai cefnog ac ardaloedd lle mae cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf..... Tudalen 56

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai'r broses o wneud cais i gofrestru'n ddienw fod mor syml a hyblyg â phosibl. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried peidio â gosod gofyniad i ddarparu tystiolaeth i gefnogi cais.
..... Tudalen 57

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell, unwaith y bydd person wedi'i gofrestru'n ddienw, na ddylai fod yn ofynnol iddo adnewyddu ei gofrestriad dienw bob blwyddyn. Yn hytrach, dylai'r cofrestriad dienw aros ar waith nes bod person yn mynd ati i ddewis newid y trefniant hwnnw..... Tudalen 57

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r Bil i gynnwys dyletswydd i dynnu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig cyn cynnal peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais..... Tudalen 58

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed yn rhan o'r gwaith o gynllunio peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais. Tudalen 58

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cynnal peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais, nodi sut y bydd y peilotau'n asesu a yw'r cyfnod o 45 diwrnod sydd gan unigolyn i ymateb i'r hysbysiad yn ddigonol..... Tudalen 59

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell, pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu gweithredu'r darpariaethau ar gofrestru etholiadol heb gais, y dylid cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau. Dylai ymgyrch o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch, ar-lein ac ar ffurf copi caled ac mewn ystod eang o ieithoedd.
..... Tudalen 59

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais gynnwys gwerthusiad o gadernid y ffynonellau data a ddefnyddir i adnabod pleidleiswyr cymwys. Os bydd y peilotau'n dangos y byddai ffynonellau data eraill yn fwy effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundebau rhannu data gyda Llywodraeth y DU, yn ôl yr angen.Tudalen 60

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai peilotau'r dyfodol gael eu cynnal ar draws ystod o wahanol ardaloedd daearyddol ac ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Dylai peilotau ystyried hefyd allu gwahanol grwpiau oedran i gymryd rhan.Tudalen 72

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i roi sicrwydd pellach mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai'r pŵer i orfodi peilotau etholiadol yn cael ei ddefnyddio ac y byddai ganddynt adnoddau priodol, yn ariannol ac o ran capasiti staff. Tudalen 73

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai'r Bil gael ei wella i gynnwys gofyniad i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau yn nodi sut y dylai swyddogion canlyniadau ddarparu offer rhesymol at ddibenion galluogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, ac yn unol ag anghenion pleidleiswyr anabl. Dylai'r Bil nodi hefyd y byddai'n ofynnol i swyddogion canlyniadau roi sylw dyladwy i ganllawiau o'r fath..Tudalen 78

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai swyddogion canlyniadau a rhanddeiliaid perthnasol fod yn rhan o'r gwaith o baratoi canllawiau yn ymwneud â darparu offer i alluogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol neu ei gwneud hi'n haws iddynt wneud hynny. Dylai'r canllawiau nodi y dylai swyddogion canlyniadau wneud pob ymdrech i ddeall anghenion pobl anabl ac awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn..... Tudalen 79

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pwysigrwydd cynnwys y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wrth osod ei chwestiynau craidd ar gyfer yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol. Tudalen 84

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol gynnwys cwestiwn yn ymwneud â chyfrifoldebau gofalu ymgeiswyr yn y cwestiynau craidd..... Tudalen 84

Argymhelliad 22. Rydym yn argymell y dylai'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol gynnwys cwestiynau craidd mewn perthynas â phrofiad ymgeiswyr o gamdriniaeth ac aflonyddu..... Tudalen 85

Argymhelliad 23. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei ddefnyddio i ddylunio'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Dylai hyn gynnwys cyfraniad rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn fformatau hygyrch..... Tudalen 98

Argymhelliad 24. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i gyflawni gwaith pellach i ystyried atebolrwydd cyfreithiol y ddau ymgeisydd a gwesteiwr y platfform mewn perthynas â datganiadau a gyhoeddir ar y platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Rhaidegluro hyn cyn lansiad y platfform..... Tudalen 99

Argymhelliad 25. Rydym yn argymell y dylid cynnwys hyfforddiant penodol i gynorthwyo grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddelio â chamdriniaeth ac aflonyddu yn y gwasanaethau a restrir yn adran 28(5). Tudalen 105

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o gynllun cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl a sicrhau bod y cynllun yn dechrau mewn digon o amser cyn etholiad nesaf y Senedd..... Tudalen 113

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddatblygu a pheilota cronfa cymorth ariannol i gefnogi gofaluwr di-dâl i sefyll mewn etholiad. Rydym yn cydnabod y byddai angen i hyn ystyried sut mae diffinio gofaluwr di-dâl a sut y gallai cynllun dargedu'r rhai sydd angen cymorth ariannol fwyaf..... Tudalen 113

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (“y Bil”) ar 2 Hydref 2023 a chafodd ei anfon i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol. Mae pwyllgorau eraill y Senedd hefyd wedi gwneud gwaith craffu ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol ar y Bil.

1. Ar 2 Hydref 2023, cyflwynodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (“Cwnsler Cyffredinol”) y Bil a’r Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd ag ef. Cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil hefyd.
2. Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd i gyfeirio’r Bil i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (“y Pwyllgor”) er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 26 Ionawr 2024.

Cylch gorchwyl

3. Ar 5 Hydref 2023, cytunodd y Pwyllgor ar fframwaith ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a fyddai’n ystyried:
 - Egwyddorion cyffredinol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni’r amcanion polisi a nodir yn y Bil;
 - Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau’r Bil, ac a yw’r Bil a’r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy’n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt.
 - A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o’r Bil;
 - Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y’u nodir yn Rhan 2 o’r Memorandwm Esboniadol.

- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol);
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth;
- Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd deddfwriaeth;
- Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

Dull gweithredu'r Pwyllgor

4. Rhwng 6 Hydref a 10 Tachwedd 2023, cynhaliwyd ymgyngoriad cyhoeddus i lywio ein gwaith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Cafwyd 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac fe'u cyhoeddwyd. Cafwyd sesiwn frifio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 5 Hydref.

5. Gwnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 26 Hydref a 7 Rhagfyr. Hefyd, gwnaethom gynnal cyfres o naw sesiwn tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allanol. Gellir gweld rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad A, ac mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i'w gweld yn Atodiad B.

6. Gwnaethom hefyd gynnal arolwg a oedd yn canolbwyntio ar Ran 1, Penodau 2 a 3 o'r Bil – Cofrestru etholiadol heb geisiadau a Peilota a diwygio etholiadau Cymreig. Roedd yr arolwg ar agor am gyfnod o bum wythnos, rhwng 23 Hydref a 26 Tachwedd 2023, ac roedd ar gael i'w gwblhau ar-lein ac ar ffurf copi caled ar gais.

7. Gofynnwyd 13 o gwestiynau yn yr arolwg am y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb geisiadau a pheilota a diwygio etholiadau Cymreig. Hyrwyddwyd yr arolwg drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Pwyllgor a'r Senedd, rhwydweithiau a sianeli cyfryngau cymdeithasol rhanddeiliaid allweddol, pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn sesiynau allgymorth ac ymgysylltu

â'r Senedd, ac mewn digwyddiadau gan gynnwys Cynhadledd Genedlaethol Ymgysylltu â Thenantiaid TPAS Cymru yn Llandrindod a digwyddiad Diwrnod Plant y Byd yn Wrecsam. Cafodd yr arolwg hefyd ei ddosbarthu i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru. Daeth 86 o ymatebion i law. Mae dadansoddiad o ganfyddiadau'r arolwg ar gael ar wefan y Pwyllgor.

8. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth frifio i lywio ein gwaith craffu.

Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil

9. Clywodd Pwyllgor Cyllid y Senedd dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol am oblygiadau ariannol y Bil ar 15 Tachwedd 2023. Clywodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol am ba mor briodol yw'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar 20 Tachwedd 2023. Mae'r ddau bwyllgor wedi adrodd ar eu casgliadau.

2. Egwyddorion Cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Cefndir y Bil

10. Mae Pennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar sut yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar opsiynau ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru. Yn dilyn pasio Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ym mis Gorffennaf 2021, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol, a roddodd, yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“ymrwymiad i ddylunio diwygiadau mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid yn unol â chwe egwyddor tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, symlrwydd a chywirdeb.”¹

11. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ac ymgynghoriad ar y “cynigion ar gyfer diwygio etholiadol i foderneiddio proses gweinyddu etholiadol yng Nghymru” ym mis Hydref 2022. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2022. Roedd llawer o'r manylion yn y Bil yn destun ymgynghoriad, gan gynnwys creu Bwrdd Rheoli Etholiadol, y darpariaethau ynghylch cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, a darpariaethau ynghylch cynlluniau peilot etholiadol. Nid oedd rhannau eraill o'r Bil yn destun ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darpariaethau ynghylch ymgyrchwyr trydydd parti.

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi er bod “rhanddeiliaid yn gyffredinol gefnogol”², codwyd rhai pryderon hefyd. Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i ddweud:

¹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.3

² Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.5

“mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio i ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid ac ymatebwyr i'r Papur Gwyn.”³

Trosolwg o'r Bil

13. Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Hydref 2023. Wrth gyflwyno'r Bil, eglurodd y Gweinidog:

“Wrth galon y Bil y mae ein chwe egwyddor ni o ran diwygio etholiadol: tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, symlrwydd a chywirdeb. Os caiff ei ddeddfu, bydd y Bil yn moderneiddio ac yn diwygio gweinyddu etholiadol ar gyfer etholiadau Cymreig, cyrff etholedig a'u haelodau. Bydd y Bil a'r pecyn diwygio ehangach yn helpu i gynyddu cyfranogiad yn etholiadau Cymreig. Bydd yn gwella hygyrchedd i bobl anabl ac yn cymryd camau i sicrhau bod pob pleidleisiwr cymwys yn cael ei gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Cymreig, yn cefnogi ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i sefyll mewn etholiad, yn egluro'r drosedd o ddylanwad amhriodol ac yn sefydlu bwrdd rheoli etholiadol i gryfhau gweinyddu etholiadol. Bydd y Bil yn darparu hefyd ar gyfer diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedol ac etholiadol, diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a rhoi'r swyddogaethau o ran taliadau a gynhaliwyd gan y panel yn flaenorol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.”⁴

14. Mae'r Bil yn cynnwys tair rhan, 71 adran ac 1 atodlen. Mae nifer o ddarpariaethau'r Bil yn gwneud newidiadau i ddarnau presennol o ddeddfwriaeth sylfaenol y Senedd a'r DU, gan gynnwys Deddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

³ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.7

⁴ Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2023, paragraff 119

15. Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau, gan gynnwys:

- creu Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd i fod yn gyfrifol am gydlynu'n strategol y gwaith o weinyddu etholiadau Cymreig;
- caniatáu peilota cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig;
- darpariaethau ynghylch peilotau etholiadol yng Nghymru;
- mesurau sydd â'r nod o wella hygyrchedd ac amrywiaeth mewn etholiadau Cymreig, megis darparu cymorth i bleidleiswyr anabl, gwneud newidiadau i'r Arolwg Etholiadau Lleol, darparu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i ymgeiswyr anabl, darparu cymorth ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill a chreu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr;
- darpariaethau ynghylch cyllid ymgyrchu a thrydydd partiön mewn etholiadau.

16. Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chyrff etholedig a'u haelodau, gan gynnwys:

- trefniadau ar gyfer adolygiadau o ffiniau awdurdodau lleol a chynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys newid amllder yr adolygiadau hyn o unwaith bob 10 mlynedd o leiaf i unwaith bob 12 mlynedd o leiaf;
- diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a throsglwyddo ei swyddogaethau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;
- darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac yn gynghorydd cymuned ac â'r drosedd o ddylanwad gormodol; a
- chryfhau rôl y pwyllgor archwilio yng Nghomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

17. Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau cyffredinol.

Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

18. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod cyfraith etholiadol "yn hynafol ac yn gymhleth" ac "nid yw'n darparu ar gyfer system etholiadol sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif". Dywed y Memorandwm Esboniadol:

*"Nod y Bil hwn yw mynd i'r afael â'r materion hynny a symud ein huchelgais yn ei blaen er mwyn galluogi pob dinesydd i chwarae ei ran yn ein system ddemocrataidd yn llawn a gosod y sylfeini ar gyfer arloesi a gwella yn y dyfodol."*⁵

19. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r egwyddorion cyffredinol ar y cyfan, ond codwyd rhai pryderon. Rydym yn ymchwilio'n fanwl i'r materion hyn ym mhenodau diweddarach yr adroddiad hwn.

20. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC") ei chefnogaeth i'r Bil, gyda'r Cyngorydd Huw David yn dweud wrthym fod "yna lawer o bethau yn y Bil sy'n cael ei groesawu a'i gefnogi", er eu bod hefyd yn pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru dalu costau gweithredu meysydd polisi newydd:

*"Mae'r RIA yn rhoi amcangyfrif o'r costau uwch i awdurdodau lleol yn sgil y newidiadau arfaethedig i weinyddu etholiadol. Mae risg bob amser gyda chynigion deddfwriaethol newydd y gallai fod costau nas rhagwelwyd a ddaw i'r amlwg yn ddiweddarach yn y cam gweithredu. Rydym yn dadlau y dylai'r holl newidiadau a gofynion newydd ar awdurdodau lleol gael eu hariannu'n llawn."*⁶

21. Croesawyd yr egwyddorion cyffredinol hefyd gan gynrychiolwyr etholiadol. Nododd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ("WECEB"):

⁵ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2

⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 16 - CLILC

“we welcome modernisation. We welcome anything that helps consolidate and makes sense of what is very complex, fragmented law for elections.”⁷

22. Mae'r egwyddorion a gefnogir gan WECB yn cynnwys y canlynol:

“That any legislation should be passed in sufficient time for advance and safe planning, and no later than six months before the next applicable electoral event according to the Gould principle; That any electoral reform initiated by Governments should be fully funded by the respective Government.”⁸

23. Wrth gadarnhau ei gefnogaeth i'r Bil, nododd y Comisiwn Etholiadol fod y diwygiadau, ochr yn ochr â diwygiadau eraill fel y rhai a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn ogystal â'r rhai sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cyflwyno her sylweddol i weinyddwyr etholiadol. Cyfeiriodd y Comisiwn Etholiadol hefyd at bryderon am gyflymder a graddfa'r diwygio etholiadol, ond daeth i'r casgliad canlynol:

“the reforms are ultimately deliverable as long as they are accompanied by sufficient resources and introduced in sufficient time.”⁹

24. Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (“AEA”) wrthym eu bod yn croesawu agweddau ar y Bil, ond cyfeiriant hefyd at yr angen i bwysu a mesur y rheini yn erbyn y gwahaniaeth sy'n cael ei greu rhwng y systemau ar gyfer etholiadau datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli.¹⁰

25. Cafodd yr egwyddorion cyffredinol eu croesawu hefyd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“LDBCW”), a ddywedodd wrthym eu bod wedi gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddarparu rhywfaint o gynnwys.¹¹

⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 152

⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 153

¹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 155

¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 5

26. Cafodd cefnogaeth hefyd ei lleisio gan sefydliadau'r trydydd sector, gydag Anabledd Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a'r nodau allweddol tuag at sicrhau mwy o amrywiaeth o ran y bobl sy'n cael mynediad at wleidyddiaeth a mynediad i swydd etholedig¹² ac RNIB Cymru yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i wneud pleidleisio'n fwy hygyrch i bobl anabl. Er gwaethaf eu cefnogaeth, cododd RNIB Cymru bryder ynghylch y potensial y gallai canlyniadau anfwriadol ddeillio o'r Bil.¹³ Rydym yn archwilio'r rhain mewn penodau diweddarach.

27. Croesawyd yr egwyddorion cyffredinol hefyd gan academyddion arbenigol. Nododd yr Athro Toby S James, Athro Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol East Anglia a Chyd-Gyfarwyddwr y Prosiect Uniondeb Etholiadol:

"This is a welcome and important piece of legislation which stands to make positive reforms for elections in Wales."¹⁴

28. Dywedodd yr Athro Alistair Clark, Athro Gwyddor Wleidyddol ym Mhrifysgol Newcastle, fod prif egwyddorion, nodau a mesurau y Bil i'w croesawu a'u cefnogi i raddau helaeth yn ei farn ef¹⁵, gyda'r Dr Christine Huebner, Darlithydd mewn Gwyddorau Cymdeithasol Meintiol ym Mhrifysgol Sheffield yn dweud:

"Any kinds of measures that bring elections into the modern era, that make them more responsive, particularly to the needs of younger people, and more inclusive in bringing more younger people into the electorate, are very welcome."¹⁶

29. Clywsom hefyd fod rhanddeiliaid yn gefnogol i'r broses ymgysylltu wrth ddatblygu'r Bil. Dywedodd CLILC wrthym:

"many of the proposed reforms have been developed through extensive engagement between Welsh Government, local authorities and electoral administrators."¹⁷

¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 83

¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 85

¹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 06 – Yr Athro Toby S James

¹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 217

¹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 3

¹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 9

30. Mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu ei swyddogaethau newydd, dywedodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wrthym:

*"We are working closely with officials, as well as colleagues in the Wales Electoral Coordination Board and the Independent Remuneration Panel for Wales, to set up additional staffing structures within the commission to meet this new demand on the Democracy and Boundary Commission Cymru."*¹⁸

31. Roedd tystiolaeth a ddaeth i law gan Comisiynydd y Gymraeg yn mynegi pryder nad oes gofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i swyddogion canlyniadau drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, a nododd:

"ar fwy nag un achlysur rydym wedi derbyn gohebiaeth yn mynegi anfodlonrwydd aelodau'r cyhoedd â'r driniaeth a roddwyd i'r Gymraeg yn nhrefniadau'r etholiadau yn eu hardaloedd hwy."

32. Nododd y Comisiynydd hefyd y cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ar y defnydd o'r Gymraeg, a'i gydnabyddiaeth y bydd darparu mwy o wasanaethau etholiadol yn Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Awgrymodd y Comisiynydd:

*"Un ffordd o wneud hyn fyddai manteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn y Bil hwn i osod gofynion cyfreithiol ar swyddogion canlyniadau er mwyn sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."*¹⁹

33. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod opsiwn ar gael i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i osod gofyniad cyfreithiol ar swyddogion canlyniadau i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod Llywodraeth Cymru yn eithaf awyddus i wneud y canlynol:

¹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 10-12

¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 14 – Comisiynydd y Gymraeg

“engage further with both the commissioner and her office and the electoral committee itself to understand where the most benefit can be given in promoting the use of Welsh through the electoral system.”²⁰

34. Daeth y swyddog i'r casgliad:

“it’s something that’s under live consideration, and the option of secondary legislation to introduce standards remains open to us.”²¹

Cymhwysedd deddfwriaethol a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth hawliau dynol

35. Gwnaethom drafod gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (“CCHD”) p’un a yw'r Bil, yn eu barn nhw, yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru ynghylch hawliau dynol. Dywedwyd wrthym:

“there are some areas of human rights that are likely to be compromised to some extent, but we think that that’s probably proportionate. We know that the Welsh Government cannot contravene the European Convention on Human Rights. We don’t think that it does, the way that the legislation is stated.”²²

36. Fodd bynnag, nododd y CCHD hefyd nad yw'r wybodaeth a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol yn sôn yn fanwl â hawliau dynol a rhwymedigaethau hawliau dynol. Gwnaethant esbonio:

“We know that the Welsh Government, through the UK Government as the state party, has signed up to a number of UN treaties and conventions, and they could be a bit more explicit in that, maybe as an annex or some such matters, particularly things like the United Nations Convention on the Rights of the Child, which would come into play with the voting

²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 29

²¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 30

²² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 214

age of 16 and 17-year-olds. The UNCRC considers children to be children until the age of 18, so there is a definite interface there. There's also the UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities, the UNCRPD, and I'll go into that in a bit more detail when we come to the section on diversity, but that's another consideration. And, also, Welsh Government has a commitment to the UN principles for older people, and so to have more explicit mention of these ones that are a particular focus for the Welsh Government would be helpful, so that people could understand that interplay a bit more clearly.”²³

37. Cododd y CCHD bryder penodol ynghylch yr anhawster wrth asesu a yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi'i hymgorffori yn y Bil gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Bil. Esboniodd y CCHD bod cyhoeddi asesiad yn ofyniad o dan ddyletswyddau penodol dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i Gymru, sy'n rheoliadau Llywodraeth Cymru. Clywsom:

“There is reference that an EIA has been conducted but there is nothing to back that up, so it's very difficult to see how those obligations have been taken into consideration. The PSED has a due regard duty; the specific duties— of which publishing an EIA is one— are designed to support public bodies to meet the general duty to foster good relations, advance equality of opportunity and not to discriminate, and one of the concerns that we have is that, without that published EIA, it's difficult to see whether or not all the three elements of the public sector equality duty have been complied with in the development of the legislation.”²⁴

38. Ychwanegodd y CCHD am yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:

“It should be an iterative document, that, as decisions are taken, and as the Bill progresses through the different stages, that

²³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 217

²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 219

would be revisited and relooked at, and how decisions have been changed as a result of that noted and added in, so you can see how the public sector equality duty is informing the development of the Bill right through its passage. And we would want to see that.”²⁵

39. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn credu bod y darpariaethau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Esboniodd, er mwyn bod o fewn cymhwysedd, fod ystyriaeth wedi'i rhoi i gydymffurfiaeth y Bil â chonfensiynau hawliau dynol, a dywedodd:

“I have given consideration to it. I don't consider that there are any particular issues there. It does engage the human rights convention, but, where it does so, it is appropriate and proportionate in terms of the way it deals with it, and I don't consider that there are any issues on that that in any way challenge the competence of this legislation.”²⁶

Ein barn ni

40. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ar yr ystod o ddarpariaethau yn y Bil hwn, rydym wedi dod i'r casgliad ein bod yn cefnogi ei egwyddorion cyffredinol. Wrth wneud hynny, nodwn y gefnogaeth eang gan randdeiliaid, ond rydym hefyd yn cydnabod bod rhai pryderon wedi'u codi mewn perthynas â rhai agweddau. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein hystyriaeth o bob un o'r darpariaethau ac mae ein hargymhellion yn ceisio gwneud gwelliannau lle credwn fod eu hangen i gryfhau'r ddeddfwriaeth hon.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

41. Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed gan y gymuned etholiadol o ran pwysleisio bod unrhyw ddeddfwriaeth ar waith mewn da bryd cyn etholiadau. Hyderwn y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth, yn cael ei gwneud gyda digon o amser i alluogi

²⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 220

²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 7

swyddogion etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol i baratoi ar gyfer etholiadau sydd i ddod.

42. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y diffyg gofyniad cyfreithiol ar swyddogion canlyniadau i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn cydymdeimlo â'r farn y dylai swyddogion canlyniadau fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Credwn y dylid unioni'r anghysondeb hwn. Er y gellid gwneud swyddogion canlyniadau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth, hoffem i ddarpariaeth i wneud hynny gael ei chynnwys yn y Bil hwn.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ar wyneb y Bil hwn y bydd swyddogion canlyniadau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

43. Nodwn y pryder a godwyd gan y CCHD nad oes asesiad o effaith y Bil ar gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi. Er ein bod yn cydnabod bod asesiad ar gael ar gais, credwn y byddai'n ddefnyddiol ei gyhoeddi a'i ddiweddarau pe bai'r Bil hwn yn symud ymlaen drwy'r camau gwella.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ganddo ar y Bil ac y dylai fersiynau wedi'u diweddarau gael eu cyhoeddi i ystyried newidiadau a wneir i'r Bil yn ystod y cyfnodau gwella.

44. Rydym yn ymwybodol i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gyhoeddi ei adroddiad ar 18 Ionawr 2024. Soniodd un Aelod am berthnasedd posibl yr adroddiad hwnnw i'r darpariaethau yn y Bil. Fodd bynnag, o ystyried amseru cyhoeddi'r adroddiad, nid ydym, fel Pwyllgor, wedi cael cyfle i ystyried canfyddiadau'r Comisiwn nac unrhyw berthnasedd sydd ganddynt neu fel arall i'r darpariaethau yn y Bil.

3. Rhan 1 – Gweinyddu a chofrestru etholiadol

Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch cydlynu gweinyddu etholiadol, cofrestru etholiadol heb geisiadau, treialu a diwygio etholiadau Cymreig, hygyrchedd ac amrywiaeth etholiadau Cymreig a chyllid ymgyrchu.

Cydlynu gweinyddu etholiadol

45. Mae adrannau 1 a 2 yn rhoi'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth gyffredinol o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau a refferenda Cymreig i Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("DBCC"), sef yr enw newydd a roddir ar LDBCW gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Gwneir hyn drwy fewnosod cyfres o adrannau newydd yn Rhan 2A o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (a ailenwyd hefyd gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)) ("Deddf 2013"). Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys dyletswydd i greu Bwrdd Rheoli Etholiadol ("EMB") newydd i fod yn gyfrifol am gydlynu'n strategol y gwaith o weinyddu etholiadau yng Nghymru.

46. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes corff statudol yn gyfrifol ar hyn o bryd am gydlynu'n strategol y gwaith o weinyddu etholiadau yng Nghymru a bod y rôl hon yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru ("WECB"), grŵp gwirfoddol heb unrhyw bwerau statudol, a gefnogir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi hefyd nad yw WECB yn derbyn cyllid Llywodraeth Cymru ac nad oes rheidrwydd ar swyddogion canlyniadau i gymryd rhan mewn trafodaethau nac ystyried argymhellion WECB.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

47. Nodir rôl a chyfrifoldebau newydd DBCC mewn perthynas â gweinyddu etholiadau yn yr adrannau sy'n cael eu mewnosod yn Neddf 2013, gan gynnwys:

- cynorthwyo swyddogion canlyniadau, awdurdodau lleol a phersonau eraill wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda Cymreig;
- hybu arferion gorau o ran gweinyddu etholiadau a refferenda Cymreig, er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu'r etholiadau; a
- darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall i Weinidogion Cymru ynghylch gweinyddu etholiadau a refferenda Cymreig.

Y Bwrdd Rheoli Etholiadol

48. Mae'r ddyletswydd ar DBCC i sefydlu'r EMB wedi'i nodi yn yr adran 20E newydd o Ddeddf 2013. Mae'r adran 20F newydd yn nodi aelodaeth o'r EMB, gan gynnwys amod bod rhaid i'r cadeirydd fod yn aelod o DBCC a bod â phrofiad blaenorol fel swyddog etholiadau. Rhaid i'r EMB hefyd gynnwys un aelod arall o DBCC, ac o leiaf bedwar swyddog etholiadau presennol neu gyn-swyddogion etholiadau. Mae'r adran hon hefyd yn nodi pa swyddi fyddai'n anghydnaws ag aelodaeth o'r EMB, gan gynnwys Aelod o'r Senedd ac Aelod o Dŷ'r Cyffredin.

49. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu mwy o wybodaeth am rôl yr EMB:

“Bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn hybu arferion gorau o ran gweinyddu etholiadol ac yn cynorthwyo'r gymuned etholiadol yng Nghymru i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad rhoi pŵer i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol arfer swyddogaethau presennol Swyddogion Canlyniadau na Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Bydd rôl y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cynnwys cydlynu etholiadau Cymreig a gweithgarwch etholiadol cysylltiedig, gan gynnwys cyflawni'r gwaith o foderneiddio a diwygio gweinyddu etholiadol yng Nghymru. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn hybu arferion gorau, gan gynnwys rhoi gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant. Bydd y Bwrdd Rheoli

Etholiadol yn rhoi gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall i Weinidogion Cymru yn unol â'i swyddogaethau.”²⁷

50. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i DBCC, drwy'r EMB, ddyroddi cyfarwyddydau ysgrifenedig i swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai gan yr EMB y pŵer i:

- ddyroddi cyfarwyddydau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan osod dyletswydd arnynt i gydymffurfio (heb ddisodli eu cyfrifoldebau personol eu hunain i gyflawni eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau), a
- rhoi cyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn perthynas â'u swyddogaethau, yn debyg i adran 10(3) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mewn perthynas â phŵer y Comisiwn Etholiadol i ddyroddi cyngor, ac eto gan osod dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ystyried y cyngor hwnnw.²⁸

51. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r rhesymeg dros roi'r cyfrifoldeb dros yr EMB i DBCC, gan ddweud y byddai'n "rhoi manteision corff cyhoeddus heb greu costau gorbenion newydd sylweddol". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud:

“Mae nodau a swyddogaethau presennol y Comisiwn yn cyd-fynd yn dda â swyddogaethau arfaethedig y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Mae'n gorff cyhoeddus sefydledig sy'n annibynnol ar y llywodraeth gyda chysylltiadau sefydledig â rhanddeiliaid. Caiff comisiynwyr eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus fanwl. Mae'r corff eisoes yn cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion y mae'n credu sydd o fudd ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a hwylus.”²⁹

²⁷ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.17-3.18

²⁸ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.19

²⁹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.21

52. Cafodd y darpariaethau i sefydlu EMB statudol i Gymru eu croesawu'n eang gan randdeiliaid, gyda llawer yn cyfeirio at gyflawniadau WECB gwirfoddol a'r EMB statudol presennol ar gyfer yr Alban i ddangos hyn. Clywsom fod yr EMB ar gyfer yr Alban yn cefnogi swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol, ond nad yw'n eu disodli. Dywedodd Cynullydd yr EMB ar gyfer yr Alban wrthym:

“there’s a reason for having an electoral management board, in Wales I’m sure as well as in Scotland, and it’s a model I commend, because it brings the right people together at the right time. [...] And I’m not saying it’s because of the EMB by any means, but the administration of elections in Scotland since its formation has been externally assessed as being good, and I genuinely think the EMB is a big part of that.”³⁰

53. Dywedodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol (“ERS”) Cymru wrthym eu bod yn falch iawn o weld deddfwriaeth ar gyfer yr EMB wedi'i chynnwys yn y Bil hwn, gan ychwanegu ei bod yn rhywbeth yr oeddent wedi galw amdani ers cryn amser. Ychwanegodd ERS Cymru, yn eu barn nhw:

“it makes sense to link the EMB to the Democracy and Boundary Commission Cymru, if it does have that broader oversight of democracy in Wales.”³¹

54. Nododd yr Athro Toby S. James y byddai Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru yn gam i'w groesawu'n fawr a bod ymchwil yn awgrymu y byddai'n hwyluso dysgu gwersi, cysondeb perfformiad, gwell perfformiad a rheoli cymhlethdod.³²

55. Clywsom fod CLILC yn gefnogol i sefydlu bwrdd statudol am nifer o resymau. Esboniodd y Cynghorydd Huw David:

“whilst we have a set of arrangements currently, they’re operated on a voluntary basis with no funding to help co-ordinate the planning and management of elections in Wales,

³⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 196

³¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 88

³² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 06 – Yr Athro Toby S James

and we think it's critical that there is that planning and management of elections in Wales, particularly as we now see the differences across the UK, and having this function on a statutory footing with appropriate resources to support electoral administration professionals will provide much more resilience and build on that strong collaborative working that's already taken place."³³

56. Lleisiodd CLILC gefnogaeth hefyd i'r EMB fod yn rhan o DBCC. Dywedodd y Cyngorydd Llinos Medi wrthym:

"Dwi'n meddwl ei bod hi'n anodd gweld corff arall sydd efo'r gallu i gynnal y gweithgaredd yna a hefyd yr economy of scale efo'r ffaith eu bod nhw yn ei wneud o ac yn cael consistency ac yn y blaen a sicrhau hynny, felly mae'n anodd iawn gweld pa ffordd arall fuasai'n gallu cyflawni hynny yn gywir ac yn effeithiol."³⁴

57. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan WECB, a nododd:

"We are fully supportive of the proposal, having been a leading advocate for the concept of a statutory board for some time. We are also supportive of the EMB being hosted by the Local Democracy and Boundary Commission as the most appropriate national body."³⁵

Annibyniaeth ac atebolrwydd yr EMB

58. Dywedodd Cynullydd yr EMB ar gyfer yr Alban wrthym fod annibyniaeth Bwrdd yr Alban yn gwbl dyngedfennol, gan ychwanegu:

"It's absolutely fundamental that there is no, obviously, political control, or perceived political control of those who are charged

³³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 19

³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 26

³⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 04 – Bwrdd Cydlynus Etholiadol Cymru

with administering elections. Hence we are, as a board, accountable to the Parliament at Holyrood.”³⁶

59. Ychwanegodd fod atebolrwydd y Bwrdd i Senedd yr Alban yn eithaf anffurfiol o ran ei fod yn cyflwyno adroddiad blynyddol sydd fel arfer yn cael ei dderbyn heb sylw.³⁷ Clywsom hefyd fod yr EMB ar gyfer yr Alban yn cael ei gefnogi gan ysgrifennydd sy'n swyddog canlyniadau ac sy'n cael ei gyflogi gan Gyngor Dinas Caeredin,³⁸ ac nad yw'r Bwrdd yn rhan o'r un strwythur â Boundaries Scotland, sy'n gynghorydd i'r Bwrdd. Dywedodd y Cynullydd wrthym:

“I wouldn't see any particular reason why an electoral management board should be linked with the boundary commission in particular, although they do perform politically neutral functions on a basis of accountability to the Parliament, so there are parallels.”³⁹

60. Ailbwysleisiodd y Cynullydd y pwysigrwydd yr oedd yn ei roi ar atebolrwydd y Bwrdd i Senedd yr Alban:

“critically for us is the accountability to the Parliament and to cross-party committees not unlike your own. We are accountable to the Parliament, and that's a very important safeguard, as it were, for me. I think that is the primary demonstration of independence.”⁴⁰

61. Dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym, yn ei farn ef, ei bod yn llai na delfrydol i'r EMB gael ei sefydlu gan gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru megis DBCC, gan ychwanegu mai ei ffafriaeth fyddai:

“actual independence, not to be a delegated body of some other body, which itself is a Government sponsored body.”

³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 162

³⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 162

³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 165

³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 168

⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 171

62. Esboniodd yr Athro Clark pam ei fod yn credu bod y trefniadau arfaethedig yn broblematic:

“there’s a perception there that government tries to influence these things. What we’ve found from the international research literature is that electoral management bodies that have that independence from government, from other bodies, do actually go on to provide elections with more electoral integrity, they’re more trusted by citizens. In essence, perceptions of how they actually operate and how they run elections tend to be more trustworthy and accepted. So, I would prefer an independent body rather than the delegated model that is currently in the Bill.”⁴¹

63. Aeth yr Athro Clark ymlaen i ddweud:

“we’ve seen from Scotland how such an independent model can work and has worked well under some fairly trying circumstances in things such as the Scottish independence referendum of 2014. So I think there’s a model there to be followed, and I think it works quite well.”⁴²

64. Dywedodd WECB wrthym y byddai’n disgwyl i’r EMB, o fewn DBCC, gael lefel uchel o ddirprwyaeth a rhyddid i feddwl a gweithredu, ac ychwanegodd:

“I’ve got confidence, working with the chair and the chief executive of the commission, that we will make this happen well, so I don’t see a barrier to doing it. But we would expect there to be, probably, a formal memorandum that gives it those things like independence.

There is some anxiety amongst practitioners that it could disappear into a body and not have sufficient expertise. I think we can resolve all those things well, and I think it’s a very workable model. Otherwise, we’d have to create an entirely new

⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 223

⁴² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 224

*body, which I think, on cost and governance, wouldn't be justifiable."*⁴³

65. Clywsom gan y Comisiwn Etholiadol eu bod yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r EMB yn cael ei sefydlu fel rhan o DBCC, ond gwnaethant ychwanegu:

*"It's essential that the EMB remains independent of both Welsh Government and the Democracy and Boundary Commission Cymru to ensure there's confidence in the democratic process, and that's retained.... the Welsh Government should take every opportunity in legislation, guidance and communication with the public to demonstrate that this is separate, and it'll be separate from the Democracy and Boundary Commission Cymru as well."*⁴⁴

66. Esboniodd LDBCW pam eu bod yn credu y byddai DBCC yn sefydliad priodol i fod yn gyfrifol am gydlynu etholiadau, gan gynnwys cynnal yr EMB:

*"We are an independent body. Our appointments are done through the public appointments process. We have experience. Other than the Electoral Commission, we are pretty much the only other body in Wales that has got strong relationship experiences working with electoral administrators."*⁴⁵

67. Ychwanegodd:

*"in terms of independence, our commissioners are former professionals or current professionals working in roles that are politically neutral. In terms of staff, we have senior leadership that's politically restricted as well."*⁴⁶

68. Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol bwysigrwydd bod yn ofalus i sicrhau nad oes ymyrraeth wleidyddol yn y ffordd mae etholiadau'n cael eu rheoli a'r ffordd y mae byrddau'n gweithredu, ac ychwanegodd fod rhaid cael atebolrwydd cyffredinol

⁴³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraffau 159-160

⁴⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 166

⁴⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 26

⁴⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 33

neu graffu ar y gwaith. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym y bydd yr EMB yn dod yn rhan o'r comisiwn newydd sy'n cael ei sefydlu, a hefyd:

*"That commission will report to the Senedd, produce an annual report. That is a report that will then be scrutinised by the Members of the Senedd."*⁴⁷

69. Ar ôl cael ei holi ymhellach, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

*"I think the report will go to the Senedd, so it will be a report that is tabled in Senedd for debate within the Senedd as a whole. I don't know whether that's the practice elsewhere et cetera, but that would be where Members have the direct ability to assess how it is operating, what it is doing, to scrutinise that particular work and then what lessons and issues emerge from that debate."*⁴⁸

70. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"The commission will produce a report. We'd expect the report to actually go to the Senedd for debate, but how the Senedd chooses to manage its own business is, obviously, a matter for the Senedd itself."*⁴⁹

71. Gwnaethom barhau i fynd ar drywydd mater annibyniaeth ac atebolrwydd yr EMB gyda'r Cwnsler Cyffredinol, a ddywedodd wrthym:

"I think the independence is built into the legislation itself. Firstly, it is independent of outside political organisations. It's ultimately accountable to the Senedd, through the report from the Democracy and Boundary Commission Cymru, which will report annually and be scrutinised. So, there is accountability, but there is not actually any political role in terms of political

⁴⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 7

⁴⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 25

⁴⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 34

appointments to the EMB or to the democracy and boundary commission.”⁵⁰

72. Dywedodd y swyddog Llywodraeth Cymru wrthym y bydd dyletswydd ar LDBCW, a fydd yn esblygu i fod yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, i lunio adroddiad blynyddol o dan Ddeddf 2013.⁵¹ Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

“I think the accountability is going to be exactly through that, through those 2013 regulations; it’ll be through the reporting to the Senedd, the annual report that will be presented by the democracy and boundary commission. That will have to contain within it a report of the work of the electoral management board, and that’s where it will be scrutinised.”⁵²

Aelodaeth a staff yr EMB

73. Dywedodd WECB wrthym fod angen cyn lleied â phosibl o ddeddfwriaeth ar aelodaeth yn eu barn nhw er mwyn llunio aelodaeth sy’n gweithio, ac y byddai’n argymhell yn fawr:

“something like the current, because it’s inclusive and collective.... it has got to be a board that’s very practical and expert, and you can see a proposal being that the chair of the board within the commission would have to have experience of elections as a protection, which is a really good idea.”⁵³

74. Croesawodd yr AEA y gofyniad i’r cadeirydd fod â phrofiad fel swyddog etholiadau, ond ychwanegodd, oherwydd maint y newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y byddai’n bwysig bod ganddo:

“up-to-date, practical experience of the challenges and issues that people are experiencing on a day-to-day basis at our own level and at administrator level, to be able to make sure that the

⁵⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 13

⁵¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 16

⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 19

⁵³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 164

issues that are being discussed, and the directions that are potentially being issued, are relevant for everybody as well.”⁵⁴

75. Pwysleisiodd yr AEA hefyd yr angen i'r EMB gael cefnogaeth ysgrifenyddol briodol, gan gynnwys yr arbenigedd a'r wybodaeth ac arbenigedd gweinyddwr ymarferol mewn cyfraith etholiadol, a chyfeiriodd at ysgrifennydd yr EMB ar gyfer yr Alban, sy'n weinyddwr profiadol a chymwysedig iawn sy'n gallu cyfarwyddo lle mae angen y gwaith.⁵⁵

76. Dywedodd LDBCW wrthym eu bod yn:

“working closely with Welsh Government officials as well as WECEB colleagues to help ensure that there is expertise brought into the commission to support us in establishing the board, identifying the kind of person specification that we need, not just from a staffing perspective but also future commissioners.”⁵⁶

77. Aeth LDBCW ymlaen i awgrymu mai un ffordd bosibl o sicrhau bod gan DBCC staff profiadol i gefnogi sefydlu a rhedeg yr EMB fyddai drwy 'botsio' staff o awdurdodau lleol ar sail secondiad. Ychwanegodd:

“We're also working closely with the Association of Electoral Administrators to look at training provision for the existing staff, to upskill and increase our knowledge, and look at some electoral qualifications as well, internally, to support the work. I think there's a general shortage of experts in Wales. However, they are there. There are people in post that could join us on either a permanent or temporary basis to help get things off the ground.”⁵⁷

⁵⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 168

⁵⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 168

⁵⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 17

⁵⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 47

Pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau

78. Nododd WECB mai un o'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y bwrdd gwirfoddol presennol a'r bwrdd statudol newydd yw y bydd yn gallu dyroddi cyfarwyddydau. Clywsom fod rhai swyddogion canlyniadau wedi holi a allai dyroddi cyfarwyddyd ymyrryd â'u hannibyniaeth. Dywedodd WECB wrthym y dylai cyfarwyddydau gael eu defnyddio'n gynnil, ac y dylid dod i gonsensws, lle bynnag y bo modd.⁵⁸

79. Disgrifiodd Cynullydd yr EMB ar gyfer yr Alban y Bwrdd fel:

“a very close and supportive community of returning officers and electoral registration officers ... and there's a balance between what the board does centrally and the independence and the personal accountability of returning officers and electoral registration officers. We're not there to take over; we're there to support and promote best practice.”

80. Clywsom fod gan yr EMB ar gyfer yr Alban bŵer cyfarwyddyd sy'n cael ei ddefnyddio lle mae cysondeb o ran ymarfer yn ddefnyddiol. Dywedodd y Cynullydd wrthym fod y cyfarwyddydau'n gydsyniol dros ben ac:

“The only time I have felt it necessary to say, ‘Look, this is a direction’, was in the COVID environment, where we set a direction of maximum number of electors per polling station.”⁵⁹

81. Dywedwyd wrthym fod ymgynghori â'r gymuned etholiadol ymlaen llaw wedi bod yn allweddol er mwyn osgoi anghytundeb â chyfarwyddydau yn yr Alban.⁶⁰ Dywedodd y Cynullydd wrthym pe bai swyddog canlyniadau yn anghytuno â chyfarwyddyd, y byddai'n defnyddio pob dull posib i'w ddarbwylllo i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, ond y byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol, fel y rheoleiddiwr ar ymarfer etholiadol, ffurfio barn pe bai methiant i gydymffurfio.⁶¹

⁵⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 174

⁵⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 149

⁶⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 151-152

⁶¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 160

Trefniadau cychwyn

82. Clywsom gan WECB fod trafodaethau eisoes wedi dechrau ar bontio o fwrdd gwirfoddol i fwrdd statudol. Gwnaethant esbonio eu rhesymeg dros alw am i'r corff newydd beidio â dod i rym tan ddiwedd chwarter cyntaf 2025:

“if a parliamentary election has to take place by or including January 2025, the last thing we want is a transition of the board during election planning. So, you can see we’ve got quite a long-term plan, still close to a year and a half to work on.”⁶²

83. Dywedodd LDBCW wrthym:

“We have made some recommendations around start dates and commencement dates to make sure that the functions are conferred on the EMB, rather than the commission.”⁶³

84. Gwnaethant esbonio:

“At the moment, the Bill would give some of the functions to the DBCC before the EMB is set up. We feel that the EMB is the right body to be given those functions and the DBCC wouldn’t have necessarily the expertise to deliver those functions.”⁶⁴

Ein barn ni

85. Rydym yn cydnabod bod cefnogaeth eang i sefydlu bwrdd rheoli etholiadol statudol i Gymru i adeiladu ar y gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol gwirfoddol Cymru. Rydym yn deall y gall gweinyddu etholiadau fod yn gymhleth a bod angen arbenigedd, felly credwn fod fforwm sy'n dod ag arbenigedd o'r fath ynghyd i rannu gwybodaeth, arfer da a gwella cysondeb ledled Cymru i'w groesawu.

86. Er bod y bwrdd gwirfoddol presennol wedi gweithio'n dda ers ei ffurfio, credwn mai creu bwrdd statudol yw'r dull cywir o sicrhau bod yr adnoddau a'r

⁶² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 179

⁶³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 18

⁶⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 38

cyfraddau staffio priodol ar waith i sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor. Felly, rydym yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Bil i sefydlu bwrdd rheoli etholiadol statudol i Gymru.

87. Er ein bod yn cefnogi sefydlu'r EMB, rydym yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid mewn perthynas â'i annibyniaeth fel rhan o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd wedi'i ailenwi, a fydd yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod yr EMB yn rhydd o ddylanwad gwleidyddol, ac rydym yn cydnabod bod y Cwnsler Cyffredinol wedi rhoi sicrwydd yn hyn o beth. Er y bydd DBCC yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn cydnabod, ar ei ffurf bresennol fel Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, fod ganddo hanes profedig o weithio'n annibynnol ar y Llywodraeth wrth gyflawni ei adolygiadau o ffiniau. Rydym hefyd yn cydnabod honiad y Comisiwn y bydd ei annibyniaeth yn parhau pan fydd yn caffael cyfrifoldebau newydd.

88. Serch hynny, rydym yn deall sut y gallai bod yn rhan o gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru greu canfyddiad nad yw'r EMB yn wirioneddol annibynnol. Felly, credwn y dylai'r EMB fod yn atebol i'r Senedd ac y dylid pennu llwybr clir i ddangos hyn mewn deddfwriaeth. Nodwn sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol bod DBCC yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Senedd graffu arno, ond credwn nad yw hyn yn ddigonol a hoffem weld mwy o dryloywder.

89. Rydym yn ymwybodol, o dan adran 20 o Ddeddf Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) 2013, ei bod yn ofynnol i'r LDBCW presennol gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru a bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad a gosod copi gerbron y Senedd. Nid yw'r Ddeddf honno'n pennu gofyniad i'r adroddiad blynyddol fod yn destun dadl y Senedd na chael ei ystyried gan bwyllgor dynodedig y Senedd. Nid oes unrhyw ddarpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i newid y trefniant hwn. Ni chredwn fod dyletswydd i ddarparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ac i'r adroddiad hwnnw gael ei osod yn unig yn ddigonol i ddangos annibyniaeth DBCC a'r EMB. At hynny, nid yw hyn yn rhoi digon o gyfle i'r Senedd graffu naill ai ar DBCC neu'r EMB.

90. Rydym yn cydnabod honiad y Cwnsler Cyffredinol y bydd gosod adroddiad blynyddol y DBCC gerbron y Senedd yn gyfle i graffu. Fodd bynnag, ni chredwn

fod hyn yn ddigonol ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddadleuon a gynhaliwyd ar adroddiadau blynyddol blaenorol LDBCW. Credwn y dylai fod llwybr clir ar gyfer craffu ar yr adroddiadau blynyddol gan y Senedd, gan gynnwys gofyniad am ddadl gan y Senedd. Credwn fod Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn rhoi cyfle priodol i gryfhau atebolrwydd DBCC i sicrhau llwybrau clir ar gyfer craffu gan y Senedd.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gryfhau atebolrwydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i'r Senedd. Hoffem weld y Bil hwnnw'n cael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad am i adroddiadau blynyddol y Comisiwn fod yn destun dadl yn y Senedd.

91. Nodwn fod aelodau LDBCW yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw ddarpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i newid y trefniant hwn ar gyfer y DBCC. Rhannwn y farn a fynegwyd gan Bwyllgor Diwygio'r Senedd y byddai galluogi'r Senedd i gynnal gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer swydd Cadeirydd y Comisiwn yn rhoi mwy o dryloywder a hygrededd i'r broses benodi.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i wrandawiadau cyn penodi gan y Senedd i gael eu cynnwys yn y broses benodi ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

92. Er mwyn i'r EMB fod yn effeithiol o ran dod â'r gymuned etholiadol ynghyd i baratoi ar gyfer cynnal etholiadau llwyddiannus, mae'n hanfodol bod y bobl iawn yn cymryd rhan, fel aelodau o'r bwrdd a'r staff sy'n ei gefnogi. Clywsom y gall cynnal etholiadau fod yn gymhleth ac yn heriol, felly mae cael personél profiadol yn rhan o'r gwaith o'r cychwyn yn allweddol.

93. Teimlwn fod y fanyleb yn y Bil sy'n nodi bod rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod o DBCC sy'n gyn-swyddog etholiadau yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ond, gan y bu newidiadau sylweddol eisoes i etholiadau Cymreig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda disgwyl newidiadau pellach, credwn ei bod yn hanfodol bod gan y Cadeirydd brofiad perthnasol. Rydym yn croesawu'r gofyniad bod rhaid i o leiaf bedwar aelod o'r Bwrdd fod yn swyddogion etholiadau neu'n gyn-swyddogion etholiadau ond, unwaith eto, dylai eu profiad fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

94. Yn ogystal â'r aelodaeth, credwn y dylai'r EMB gael ei gefnogi gan staff etholiadol profiadol i sicrhau bod yr arbenigedd yno i gynghori'r Bwrdd ac i gyflawni ei raglen waith. Rydym yn pryderu y gallai trosiant uchel staff gweinyddu etholiadau fod yn broblemus, yn enwedig gan y gallai DBCC ystyried secondio staff o awdurdodau lleol i gynorthwyo i sefydlu'r Bwrdd. Er ein bod yn croesawu'r egwyddor o secondio staff profiadol i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, rydym yn pryderu y gallai hyn arwain at fwy o bwysau ar staff etholiadol awdurdodau lleol eraill gan ein bod yn ymwybodol eu bod yn aml yn gweithio mewn timau bach.

95. Rydym wedi ein sicrhau i ryw raddau bod cynllunio ar gyfer y newid o'r WECB gwirfoddol i'r DBCC statudol eisoes wedi dechrau, a byddem yn disgwyl i hyn ddwysáu yn barod ar gyfer sefydlu'r Bwrdd newydd. Mae'n hanfodol hefyd fod digon o adnoddau ar gael i alluogi'r gwaith cynllunio i gael ei wneud yn effeithiol.

96. Rydym yn croesawu gwahardd deiliaid rhai swyddi, megis deiliaid swyddi gwleidyddol, rhag bod yn aelodau o'r EMB er mwyn osgoi ymyrraeth wleidyddol.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell, yn ogystal â nodi y dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn gyn-swyddog etholiadau, y dylai'r Bil nodi hefyd fod rhaid i'r cadeirydd fod â phrofiad perthnasol a diweddar, megis fel swyddog etholiadau o fewn cyfnod penodol cyn cael ei benodi.

97. Rydym yn deall y rhesymeg dros gynnwys darpariaethau i alluogi'r EMB i ddyroddi cyfarwyddydau i swyddogion canlyniadau, ond credwn y byddai dod i gytundeb drwy gonsensws yn well. Rydym yn nodi profiad yr EMB ar gyfer yr Alban wrth ymgynghori â swyddogion canlyniadau ar unrhyw gyfarwyddyd i alluogi cytundeb ymlaen llaw, a hoffem weld yr EMB newydd i Gymru yn gweithredu yn yr un modd. Rydym yn cydnabod y sylwadau gan WECB y dylid defnyddio unrhyw gyfarwyddydau yn gynnil a byddem yn disgwyl i ddull o'r fath gael ei fabwysiadu gan yr EMB statudol.

98. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd gan WECB lawer o aelodau profiadol a all roi cyngor ar sefydlu'r EMB statudol, ond credwn y bydd hefyd yn ddefnyddiol iddynt weithio'n agos gyda'r EMB ar gyfer yr Alban i ddysgu o'u profiadau o weithredu ar sail statudol. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i'r staff sy'n cefnogi'r Bwrdd ddysgu gan eu cymheiriaid yn yr Alban.

99. Er ein bod yn credu y dylid defnyddio'r pwerau i ddyroddi cyfarwyddydau yn gynnil, rydym yn cytuno ei bod yn briodol cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil pe bai ei hangen o dan amgylchiadau penodol, megis yn ystod y pandemig COVID, sef yr enghraifft a nodwyd gan yr EMB ar gyfer yr Alban.

100. Nodwn y sylwadau a wnaed gan WECB a LDBCW mewn perthynas â chychwyn y darpariaethau sy'n ymwneud â'r EMB. Rydym yn cytuno y bydd hi'n bwysig amseru hyn yn gywir er mwyn sicrhau nad yw'n creu pwysau ychwanegol ar swyddogion etholiadol yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol disgwylidig y DU. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau y bydd gan DBCC y trefniadau a'r arbenigedd angenrheidiol ar waith cyn cychwyn y pwerau hyn. Hyderwn y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â phartion perthnasol ac yn ystyried eu barn wrth benderfynu pryd y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r EMB ddod i rym.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phartion perthnasol, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, ac ystyried eu barn wrth benderfynu pryd y dylai'r darpariaethau mewn perthynas â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol gychwyn.

Cofrestru etholiadol heb gais

101. Mae adrannau 3 a 4 yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu peilota cofrestru awtomatig ar gyfer pleidleiswyr. Dim ond i etholiadau a refferenda Cymreig, a ddiffinnir fel etholiadau Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a refferenda datganoledig, y byddai'r darpariaethau'n gymwys. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru heb fod angen i'r etholwr gyflwyno cais. Byddai angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wirio hunaniaeth person i fodloni cymhwystra. Byddai hefyd yn ofynnol iddynt hysbysu'r bobl y maent yn bwriadu eu cofrestru.

102. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod angen i bleidleiswyr yn y DU, ers 2014, gofrestru i bleidleisio eu hunain, o dan y system Cofrestru Etholiadol Unigol ("IER"). Ar hyn o bryd, mae swyddogion cofrestru etholiadol yn anfon Gwahoddiad i Gofrestru ("ITR") at unigolion y maent yn dod i ddeall nad ydynt wedi cofrestru i bleidleisio. O dan y system IER, mae'n ofynnol i unigolyn ddarparu ei rif Yswiriant Gwladol a'i ddyddiad geni, yn ogystal â'i enw a'i gyfeiriad.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'r dull hwn yn "effeithiol bob amser" ac mae'n mynd ymlaen i ddweud:

*"Nid yw'r system bresennol yn llwyddo i gyrraedd pob etholwr. Er bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cymryd pob cam i sicrhau bod y gofrestr yn gywir ac yn gyflawn, mae nifer o etholwyr cymwys nad ydynt wedi'u cofrestru o hyd. Yn 2022, adroddodd y Comisiwn Etholiadol fod 2,362,964 o etholwyr cymwys ar y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru. Er i'r swm hwn ddangos cynnydd yn nifer yr etholwyr a oedd yn cofrestru, nid oedd oddeutu 260,000 o etholwyr cymwys wedi cofrestru i bleidleisio sydd oddeutu 9.9% o'r rhai hynny sy'n gymwys."*⁶⁵

103. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan ymhellach mai bwriad polisi'r Bil hwn yw:

*"ei gwneud yn haws i unigolion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol gan annog rhannu data a chael gwared ar y gofyniad i unigolion gadarnhau eu data drwy Gofrestru Etholiadol Unigol pan fo cofrestru awtomatig a pharu data wedi digwydd."*⁶⁶

104. Ers datganoli'r cyfrifoldeb dros etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd yn Neddf Cymru 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriadau ar ehangu'r dulliau sydd ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru pleidleiswyr ar gyfer etholiadau Cymreig, gyda'r bwriad o ddisodli'r system IER bresennol.

105. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y bydd yn ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol gofrestru etholwyr yn awtomatig ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol a chyhoeddi Hysbysiad Cofrestru i bob etholwr cymwys, ac mae'n dweud:

"Yna, bydd gan yr etholwyr gyfnod penodol o amser i ymateb i'r hysbysiad os ydynt o'r farn eu bod yn gymwys i gael eu

⁶⁵ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.29

⁶⁶ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.30

*cofrestru'n ddiennw. Unwaith y bydd y cyfnod penodol wedi dod i ben, ac oni bai bod yr etholwr wedi oedi'r cyfnod hysbysu drwy wneud cais am gofrestru'n ddiennw, neu wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol nad yw'n dymuno cael ei gofrestru'n awtomatig, bydd yr etholwr yn cael ei ychwanegu at y gofrestr llywodraeth leol.*⁶⁷

106. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd dau fath gwahanol o gofrestr i bob pwrpas, gan gyfeirio at bobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor cymwys, yn ogystal ag unigolion a fydd yn cael eu hychwanegu at gofrestr Cymru drwy'r darpariaethau cofrestru awtomatig, ond na fyddent yn cael eu cynnwys yn y gofrestr Seneddol ar gyfer etholiadau cyffredinol y DU ac etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

107. Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol y gallai dryswch godi oherwydd y gwahaniaethau rhwng cofrestrau Cymru a'r DU:

"I think what will be important will be the preparations for that, the communications that take place, how it is made clear to people what they have to do in terms of the voting processes. []

*In terms of communication and engagement with people, in terms of clarity of voting, and so on, it's something that always happens before elections, but I think it does become more important."*⁶⁸

108. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i "beilota'r dull mwyaf effeithiol o gofrestru etholwyr yn awtomatig ar y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru". Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y pwerau angenrheidiol i ganiatáu i'r cynlluniau peilot hyn ddigwydd.⁶⁹ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud:

"Bwriad y Llywodraeth yw y bydd peilotau cofrestru awtomatig yng Nghymru yn cael eu cynnal wedi i'r Bil hwn gael y

⁶⁷ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.32

⁶⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraffau 59-60

⁶⁹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.35

Cydsyniad Brenhinol ac y bydd y model llwyddiannus ar gyfer cofrestru awtomatig yn cael ei gyflwyno ledled Cymru gan ddefnyddio'r pwerau angenrheidiol i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn.”⁷⁰

109. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid etholiadol allweddol eraill i ddatblygu cynllun peilot cyn yr is-ddeddfwriaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud y bydd y gweithgor yn datblygu nifer fach o gynlluniau peilot i'w cyflwyno ar draws awdurdodau lleol. Bydd costau'r cynlluniau peilot yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.⁷¹

110. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod ei ymrwymiad i beilota cofrestru awtomatig yn ddigonol, felly nid oes angen cynnwys dyletswydd i beilota trefniadau ar wyneb y Bil. Roedd y llythyr yn nodi fel a ganlyn:

“Er fy mod yn credu y bydd treialu cofrestru awtomatig yn arwain at y system orau bosibl ar gyfer yr etholwr, nid wyf yn credu y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n atal cychwyn adran 3 yn benodol cyn i'r cynlluniau peilot cael eu cwblhau. Rwyf wedi ymrwymo i dreialu cofrestru awtomatig cyn cychwyn adran 3 a byddaf yn sicrhau bod y cynlluniau peilot hyn yn bwrw ymlaen â gwerthusiad llawn a phriodol cyn cyflwyno'r system.”⁷²

111. O ran a yw'r darpariaethau i gofrestru heb gais yn ymwneud â hawliau dynol, dywedodd y CCHD mai eu barn dros dro yw ei bod yn debygol y bydd ymyrraeth gymesur ag Erthygl 8 ac, o bosibl, Erthygl 10, ond gwnaethant ddweud wrthym:

⁷⁰ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.36

⁷¹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 9.40-9.42

⁷² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Ionawr 2024, LJC(6)-01-24 Papur 24.

“we think that the restrictions and those encroachments are likely to be considered proportionate for the purposes of the Bill.”⁷³

112. Mewn ymateb i'n harolwg cyhoeddus ar-lein, roedd 58 y cant o'r ymatebwyr yn cefnogi'n gryf y syniad o gofrestru etholwyr yn awtomatig, gyda 28 y cant yn rhagor yn cefnogi'r syniad ychydig. Roedd 8 y cant yn gwrthwynebu'r syniad ychydig neu'n ei wrthwynebu'n gryf. Nid oedd 6 y cant yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r syniad neu gwnaethant ddewis 'Ddim yn gwybod'. Pan ofynnwyd iddynt roi rheswm dros eu hateb, daeth tair prif thema i'r amlwg:

- cael gwared ar rwystrau i bleidleisio;
- catalydd posibl ar gyfer annog mwy o bobl i bleidleisio; a
- symleiddio'r broses bleidleisio.

113. Roedd 75 y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno'n gryf neu ychydig y dylai Llywodraeth Cymru beilota cofrestru awtomatig cyn cyflwyno model ledled Cymru. Dywedodd 10 y cant eu bod yn anghytuno'n gryf neu ychydig, tra bod 15 y cant arall o'r ymatebwyr ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi dewis 'Ddim yn gwybod.'

114. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol ei fod yn croesawu rhyw fath o gofrestru awtomatig oherwydd:

“there's an urgent need to reform electoral registration in the UK. We recently published research that indicated that there were 400,000 people in Wales who are either not correctly registered or have inaccuracies in their local government register entries. Perhaps they've moved house and that hasn't been reflected in the register. That is a group, obviously, that we want to capture. We know that there's a correlation between demographics and completeness, so the young and those more

⁷³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 228

likely to move home are less likely to be registered. We want things to be done to address that.”

115. Ychwanegodd:

“we continue to recommend to all Governments across the UK to explore this.”⁷⁴

116. Disgrifiodd yr Athro Toby James ganiatáu cofrestru heb gais fel cam hynod gadarnhaol ar gyfer etholiadau a democratiaeth Cymru, gan ychwanegu:

“It stands to improve completeness, accuracy and may save electoral officials money – because they will be able to register citizens directly without needing to chase them with reminders.”⁷⁵

117. Nododd yr Athro Alistair Clark y dylai cofrestru awtomatig helpu gyda chyflawnrwydd a chywirdeb y gofrestr, ond cyfeiriodd hefyd at heriau posibl, megis y posibilrwydd o gofnodion dyblyg os yw person yn symud cartref neu'n berchen ar fwy nag un eiddo. Pwysleisiodd yr Athro Clark yr angen i sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol,⁷⁶ a chwestiynodd pa mor aml y byddai'r broses o fonitro cronfeydd data cymwys yn cael ei chynnal neu a fyddai'n broses barhaus.⁷⁷

118. Dywedodd CLILC y byddent yn hoffi gweld mwy o gyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru, felly roeddent yn gefnogol o fentrau i gynyddu lefelau cofrestru a phleidleisio.⁷⁸ Fodd bynnag, nododd CLILC hefyd eu pryder am gapasiti o fewn timau etholiadol i ddelio â'r cyfrifoldebau cynyddol, a galw am ariannu'r newidiadau yn iawn i gefnogi'r gwaith ychwanegol.⁷⁹

119. Codwyd yr angen am gyllid ac adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol gan yr AEA hefyd, er mwyn codi ymwybyddiaeth a thargedu pobl a allai gamddeall y

⁷⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 201

⁷⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 06 – Yr Athro Toby S James

⁷⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 238

⁷⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 244

⁷⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 33

⁷⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 39

newidiadau.⁸⁰ Er bod yr AEA wedi dweud wrthym eu bod nhw, fel Cymdeithas, yn cefnogi'r egwyddor o gofrestru awtomatig, gwnaethant godi pryderon ynghylch y dryswch a allai godi drwy weithredu dwy system wahanol.⁸¹ Clywsom y byddai'r AEA yn gefnogol i ddull cydweithredol ar y cyd lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer cofrestru awtomatig. Cyfeiriodd yr AEA hefyd at anawsterau i weinyddwyr wrth weithredu proses ddeuol.⁸²

120. Adleisiodd WECB alwadau am ddull ar y cyd a galwasant ar y Senedd a Llywodraeth Cymru i bwysu ar Lywodraeth y DU i wneud rhywbeth tebyg oherwydd:

“when we have divergence, we’ve got practice for the parliamentary and the PCC elections over here, and then devolved for local government and Senedd over here, and we are really concerned about voter confusion, voter fatigue.”⁸³

121. Cyfeiriodd y Comisiwn Etholiadol at yr wybodaeth a'r adnoddau y maent yn eu darparu mewn gwahanol ieithoedd a allai helpu i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys gwaith yr oeddent wedi'i wneud yn flaenorol gyda Cymorth i Fenywod ynghylch cofrestru dienw, a dywedon nhw y byddai'r math hwn o waith yn tyfu, pe bai'r darpariaethau'n cael eu cyflwyno.⁸⁴

122. Gwnaeth ERS Cymru hefyd leisio eu cefnogaeth i gofrestru awtomatig, gan ddweud bod cofrestru i bleidleisio yn gweithredu fel rhwystr i bobl, a nodwyd ganddynt fod nifer o wledydd eisoes yn gweithredu cofrestru awtomatig yn llwyddiannus.⁸⁵

123. Nododd Anabledd Cymru y gallai cofrestru heb gais fod yn gam cadarnhaol iawn i bobl anabl gan fod y gwaith papur sydd ei angen yn gallu ei gwneud hi'n eithaf anodd cofrestru i bleidleisio.⁸⁶

⁸⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 235

⁸¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 198

⁸² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 199

⁸³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 203

⁸⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 230

⁸⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 97

⁸⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 95

124. Dywedodd Dr Christine Huebner wrthym fod ei hymchwil yn dangos mai cofrestru etholiadol oedd un o'r rhwystrau mwyaf i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn etholiad y Senedd yn 2021, gan nodi bod llai na hanner wedi ymuno â'r gofrestr etholiadol mewn pryd. Cyfeiriodd Dr Huebner at amrywiad enfawr rhwng awdurdodau lleol, yn dibynnu ar y mesurau a gymerwyd ganddynt i ymgysylltu â phobl ifanc a hefyd rhwng teuluoedd lle'r oedd rhai wedi cael cymorth teulu i gofrestru a'r rhai nad oeddent wedi cael cymorth. Pwysleisiodd Dr Huebner:

“automatic voter registration takes away one of the biggest barriers to young people becoming part of the electorate, and we think that that is supported by research as a measure that would definitely benefit a number of young people.”⁸⁷

125. Cyfeiriodd Dr Huebner at enghreifftiau o'i hymchwil o bobl ifanc heb dderbyn unrhyw gyfathrebiad ynghylch cofrestru i bleidleisio neu sydd ddim yn ymwybodol o'r ffaith bod angen agor y cyfathrebiadau, a hefyd enghreifftiau lle na chafodd mesurau codi ymwybyddiaeth eu cymryd mewn digon o amser i alluogi pobl ifanc i gofrestru cyn etholiad 2021.

126. Aeth Dr Huebner ymlaen i ddweud ei bod yn rhagweld y bydd dryswch ymhlith pleidleiswyr ifanc yn broblem enfawr, a chyfeiriodd at etholiadau 2021 lle nad oedd pobl ifanc wedi deall y gwahaniaeth rhwng pleidleisiau'r Senedd a phleidleisiau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.⁸⁸ Pwysleisiodd Dr Huebner bwysigrwydd cyfathrebu â phobl ifanc, i beilota mesurau codi ymwybyddiaeth i sicrhau eu bod yn deall y gwahaniaethau.⁸⁹ Aeth ymlaen i awgrymu y byddai cronfa ddata Cymru gyfan a fyddai'n galluogi pobl ifanc i wirio a ydynt wedi cofrestru yn ddefnyddiol.⁹⁰

127. Pwysleisiwyd pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr hefyd gan ERS Cymru, a gwestiynodd sut y bydd pleidleiswyr yn deall eu bod wedi'u cofrestru'n awtomatig ar gyfer etholiadau Cymreig ond y bydd angen iddynt

⁸⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 15

⁸⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 19

⁸⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 20

⁹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 24

fynd ati'n rhagweithiol i gofrestru o dan system wahanol ar gyfer etholiadau'r DU. Roeddent yn croesawu'r cynnig i beilota'r darpariaethau er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.⁹¹ Galwodd ERS Cymru hefyd am ffordd hygyrch o alluogi unigolion i wirio a ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio, gan ychwanegu y byddai swyddogaeth o'r fath yn dod yn bwysicach fyth os yw cofrestru awtomatig ar waith.⁹²

128. Tynnodd RNIB Cymru sylw at bwysigrwydd cyfathrebu'r newidiadau gyda phobl yn eu fformat gofynnol, sy'n golygu mynd ati'n rhagweithiol i ddarganfod sut mae angen cyfathrebu â phobl.⁹³ Ategwyd hyn gan Anabledd Cymru, a ychwanegodd y bydd angen sicrhau bod yr wybodaeth ar gael mewn cynifer o fformatau â phosibl:

"We'll need to see letters going to people's homes, we'll need to see advertisement in key hubs like general practitioners, libraries, key social spaces. We need to see advertisements on the radio, on the television, and just to be very proactive about engaging and promoting this message through as many different channels as possible."⁹⁴

129. Pan ofynnwyd sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu i ddeall y newidiadau, ysgrifennu'n uniongyrchol at yr etholwr i roi gwybod iddo am y newidiadau oedd yr opsiwn a ddewiswyd gyntaf amlaf gan ymatebwyr i'n harolwg (36 y cant), ac yna cyfathrebu â'r etholwr mewn rhyw ffordd arall, er enghraifft, neges destun neu e-bost (19 y cant). Ymgyrch wybodaeth genedlaethol oedd dewis cyntaf 14 y cant o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, gyda 12 y cant o'r ymatebwyr yn dewis ymgyrch cyfryngau cymdeithasol fel eu dewis cyntaf. Ymgyrch deledu a radio oedd dewis cyntaf 9 y cant o'r ymatebwyr, gydag 8 y cant yn dewis gweithio gyda sefydliadau megis y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth fel eu dewis cyntaf.

⁹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 99

⁹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 116

⁹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 107

⁹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 112

Cyfnod rhybudd o 45 diwrnod

130. Mae adran 3 yn nodi bod rhaid cael cyfnod rhybudd o 45 diwrnod rhwng rhoi gwybod i unigolyn am fwriad i gofrestru a'i ychwanegu at y gofrestr. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“the registration officer will identify someone who they believe is entitled to be on the register. They will then send the notice to that person. That person will have 45 days to either say, ‘I don't want to be on the register’ or ‘I think I'm entitled to anonymous registration’. If they don't do anything during that 45-day period or at the end of that 45-day period, then the registration officer then registers that person. So, the registration only happens at the end of the 45-day period, after they've had an opportunity to consider what options they've got available to them.”⁹⁵

131. Cydnabu'r AEA y darpariaethau yn ymwneud â'r cyfnod rhybudd o 45 diwrnod, ond gwnaethant fynegi pryderon ynghylch a yw unrhyw gyfnod o amser yn ddigonol ar gyfer pobl agored i niwed mewn amgylchiadau heriol:

“they've got other issues, other priorities, other concerns beyond responding to correspondence saying they're going to be automatically registered.”⁹⁶

132. Nododd yr AEA y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r cynlluniau i beilota cofrestru awtomatig asesu'n benodol a yw cyfnod rhybudd o 45 diwrnod yn rhoi digon o amser i ymateb.⁹⁷

133. Gwnaeth Anabledd Cymru fynegi pryder hefyd ynghylch a yw cyfnod rhybudd o 45 diwrnod yn ddigonol:

“We are concerned that this may not be enough time for a lot of disabled people to be able to start to understand the quite large change within electoral registration and to be able to fill out

⁹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 75

⁹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 210

⁹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 210

*whatever paperwork is required, or be able to get support to fill out what paperwork will be required either to be able to remove themselves from the electoral register or to become an anonymous voter. Should this be enacted, we would say that this would need to be done in very close consultation with a diverse group of disabled people and their organisations to ensure that the quality of the communications around this rule is adequate.*⁹⁸

134. Dywedodd yr Athro Clark wrthym:

*“there’s always a risk with deadlines in the electoral process that people will miss it, because people tend not to pay attention until very close to the election. So, if there are deadlines, then there’s always the potential that they’re missed. My general view, in thinking about this, is that the vulnerability probably means that it’s harder for them to fit within specifically and fairly narrowly defined election windows. My sense would be to err on the side of permissiveness here, and to flexibility towards deadlines.”*⁹⁹

135. Pan ofynnwyd a yw 45 diwrnod yn gyfnod rhybudd digonol, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod cynnal cynlluniau peilot yn ddymunol i archwilio sut y mae hynny’n gweithredu’n ymarferol mewn gwirionedd.¹⁰⁰

Cofrestru’n ddiennw

136. Mae Adran 3 hefyd yn nodi bod rhaid i swyddogion cofrestru hysbysu person bod ganddo’r hawl i wneud cais i gofrestru’n ddiennw. Pwysleisiodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (“RhCM Cymru”) ei bod yn hanfodol bod pobl yn gallu cofrestru’n ddiennw, ond tynnwyd sylw at bryderon ynghylch y broses, yn enwedig a fyddai’r cyfnod rhybudd o 45 diwrnod yn caniatáu digon o amser i berson gasglu’r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi cais diennw, a’r angen

⁹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 93

⁹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 249

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 82

i ailymgeisio bob blwyddyn.¹⁰¹ Cafwyd awgrym ganddynt i wneud y gofynion yn fwy hyblyg a gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymorth perthnasol:

“Some of these issues, we think, could be mitigated by extending the time frame beyond 45 days, by providing clear guidance and accessible formats in different languages, and by working very closely with specialist services who can support people in filing that request. But, I think, ideally, a really important thing to take action on would be on simplifying the process for registering anonymously, for instance, by allowing survivors to self-disclose and to change it so that once they're registered as anonymous, it will remain so until they actively opt out of anonymous registration. I think those are steps that could be taken to make the process safer.”¹⁰²

137. Awgrymodd RhCM Cymru hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol i bobl gael ffordd syml o wirio a ydynt wedi'u cofrestru'n ddiennw, a gwnaethant bwysleisio'r angen am ymchwil bellach ac ymgysylltiad â gwasanaethau cymorth:

“because the stakes of getting this wrong are so incredibly high, we would really strongly recommend further research and close engagement with the specialist support sector, potentially including as part of a pilot an automatic voter registration.”¹⁰³

138. Dywedodd yr AEA wrthym y byddent yn disgwyl i'r broses o wneud cais am gofrestrriad diennw gynnwys llenwi datganiad a ffurflen gais etholwr diennw, ac y byddai'n rhaid i'r person, o dan y trefniadau presennol, ailymgeisio bob blwyddyn i adnewyddu'r datganiad hwnnw.

139. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai angen i unrhyw un sy'n gwneud cais i gofrestru'n ddiennw ddarparu rheswm dros y cais ac adnewyddu'r datganiad yn flynyddol. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y byddai'r

¹⁰¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 326

¹⁰² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 327

¹⁰³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 329

cyfnod rhybudd o 45 diwrnod yn cael ei atal unwaith y bydd unigolyn yn hysbysu swyddog cofrestru o'i fwriad i wneud cais yn ddiennw.¹⁰⁴

140. Gwnaethom drafod gyda'r Cwnsler Cyffredinol a oedd y broses o ddarparu gwybodaeth ac ailymgeisio am gofrestriad diennw yn flynyddol yn angenrheidiol, o gofio y gallai fod yn brofiad trawmatig i bobl agored i niwed. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol y rhesymeg dros y dull hwn:

“People are used to it already, of course; they’re used to existing systems, so we’re not introducing something new. This isn’t some innovation, it’s just that it will happen as part of the automatic registration process. In some ways, it’ll probably be more efficient, but the same data will be required; the sort of information at the moment is either if there’s a sort of court order and injunction, general practitioner letter, police inspectors’ letters and so on. Those are the basis on which people already can go onto the register but remain anonymous. So, in many ways, we’re just importing that into the new system.”¹⁰⁵

Dileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig

141. Er nad yw wedi'i nodi ar wyneb y Bil, dywed y Memorandwm Esboniadol, er mwyn “ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac etholwyr sy'n agored i niwed”, y byddai'n cael gwared ar y gofrestr etholiadol agored yng Nghymru ar gyfer etholiadau Cymreig. Dywed:

“Mae hyn yn golygu mai dim ond ar y gofrestr gaeedig o etholwyr llywodraeth leol, nad yw'n cael ei dosbarthu'n eang o gwbl, y bydd yr etholwr cofrestredig yn ymddangos. Er y bydd sefydliadau yn parhau i allu cael gafael ar y gofrestr hon, ni fyddant yn gallu gwneud hynny oni bai bod ganddynt hawl

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 46

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 49

*gyfreithiol i'r wybodaeth a gedwir ar y gofrestr etholiadol gaeedig.*¹⁰⁶

142. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai'r gofrestr agored yn parhau ar gyfer etholiadau Senedd y DU. Mewn llythyr ar 15 Tachwedd, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y trefniadau ar gyfer dileu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig:

*"Mae'r darpariaethau sy'n gofyn am gofrestr agored yn rhan o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001. Gan mai is-ddeddfwriaeth yw hon, byddwn yn defnyddio is-ddeddfwriaeth i ddileu ei gweithrediad ar gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru. Gwneir hyn yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Bil. I wneud y newid hwn bydd Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau o dan Adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd."*¹⁰⁷

143. Dywedodd yr Athro Toby James nad yw'r gofrestr agored yn cyflawni unrhyw ddiben etholiadol a galwodd am ei diddymu i ddiogelu rhag y bygythiad iddi gael ei chamddefnyddio. Cyfeiriodd yr Athro James at ddiddymu'r gofrestr agored fel mater o frys ac, o bosibl, mater o ddiogelwch gwladol.¹⁰⁸

144. Nododd WECEB y gallai cofrestru awtomatig ddod o hyd i bleidleiswyr posibl y byddai angen eu diogelu, ac y byddai tynnu'r gofrestr agored yn darparu rhywfaint o amddiffyniad.¹⁰⁹ Croesawodd RhCM Cymru yr egwyddor o gofrestru awtomatig fel modd o ddileu rhwystr i gyfranogiad democrataidd, ond gwnaethant hefyd dynnu sylw at y risgiau sylweddol cysylltiedig, megis y rhai i oroeswyr cam-drin domestig, stelcian neu aflonyddu, a gwnaethant bwysleisio bod angen rheoli'r rhain yn ofalus iawn.¹¹⁰ Ychwanegasant fod risgiau gwirioneddol, hyd yn oed gyda'r gofrestr gaeedig, gan esbonio:

¹⁰⁶ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.33

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, [papur 3](#).

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 06 – Yr Athro Toby S James

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 219

¹¹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 324

“even when the open register is removed and we only have the closed register, there are still risks, even though that register can only be shared with a limited number of people in organisations. Given issues like police-perpetrated abuse, being on a closed register can pose a significant danger to survivors, if their personal information ends up in the wrong hands.”¹¹¹

145. Pwysleisiodd RhCM Cymru:

“there must not be the slightest chance of automatic registration being introduced without the removal of the open register.”¹¹²

146. Cwestiynodd WECB ymhellach pam ei bod yn gofrestr agored yn y lle cyntaf, gan holi pam y byddai angen i gofrestr at ddibenion pleidleisio a chyfranogi fod yn gyhoeddus.¹¹³ Cytunodd yr AEA y dylid diddymu'r gofrestr agored, a dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym:

“We’ve long recommended that the open register should be for electoral purposes only and a limited range of security and crime prevention purposes.”¹¹⁴

147. Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â thynnu'r gofrestr etholiadol agored ar gyfer etholiadau yng Nghymru, roedd 71 y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ychydig, tra bod 12 y cant yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno ychydig. Roedd 17 y cant ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi dewis 'Ddim yn gwybod'.

148. Diogelu pleidleiswyr ifanc a phleidleiswyr agored i niwed a'r posibilrwydd y byddai data personol yn cael ei gamddefnyddio oedd y ddwy brif thema a nodwyd fel rhesymau dros ddileu'r gofrestr agored. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid dileu'r gofrestr agored, cyfeiriodd rhai ymatebion at anfanteision posibl sy'n gysylltiedig â dileu'r gofrestr agored.

¹¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 325

¹¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 332

¹¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 223

¹¹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 225

149. Pan ofynnwyd iddynt a allai dryswch arwain at etholwyr cymwys yn cael eu hamddifadu, o bosibl, o'r hawl i bleidleisio mewn rhai etholiadau, roedd 73 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ychydig y gallai tynnu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig arwain at ddryswch. Roedd 10 y cant yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno ychydig â'r pryderon a godwyd, gyda 17% ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi dewis 'Ddim yn gwybod'.

150. Mewn ymateb i gwestiwn ar sut y gellid osgoi dryswch ymhlith pleidleiswyr, roedd y brif thema a ddaeth i'r amlwg yn canolbwyntio ar yr angen am gyfathrebu clir a ddarperir drwy wahanol gyfryngau:

"Ymgyrch gyfathrebu gryf iawn. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn glir iawn mewn gorsafoedd pleidleisio."

"Negeseuon clir drwy lythyr/e-bost/cyfryngau cymdeithasol/addysg."

"Ei gwneud yn glir mewn gohebiaeth, dylai awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol atgoffa pleidleiswyr cyn etholiadau'r DU."

"Ymgyrch gyfathrebu gydlynol, heb jargon, yn defnyddio sianeli cyfathrebu gwahanol (cyfryngau cymdeithasol, teledu, llythyr ac ati) i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r gwahaniaethau (gan fod pobl yn dirnad gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol)."

Data

151. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y gofyniad ar awdurdodau lleol i ymgymryd ag ymarferion cloddio data yn gost ychwanegol. Mae'n amcangyfrif y bydd y dasg hon yn gofyn am swyddog llawn amser yn gweithio tridiau'r wythnos am y ddwy flynedd gyntaf o weithredu a dau ddiwrnod yr wythnos ar ôl hynny. Yr amcangyfrif o gostau blynyddol fesul awdurdod yw £22,542 rhwng 2026 a 2028 a £15,028 yn y blynyddoedd canlynol.

152. Dywedwyd wrthym am bwysigrwydd sicrhau bod y data a ddefnyddir i adnabod unigolion cymwys yn gadarn. Pwysleisiodd y Comisiwn Etholiadol mai'r peth allweddol yw bod angen iddo fod yn gadarn, yn gywir ac yn gyfredol. Cyfeiriodd y Comisiwn at gofnodion y dreth gyngor a data derbyniadau ysgolion

fel enghreifftiau o setiau data lleol y gellid eu defnyddio, ac aeth ymlaen i ddweud:

“The commission has been doing some feasibility studies about registration, and that explores how national data sets could be used as well. So, that’s the kind of data that’s coming through from the Driver and Vehicle Licensing Agency and His Majesty’s Passport Office, but whether the electoral registration officers would have access to that is another issue.”¹¹⁵

153. Cyfeiriodd academyddion at y posibilrwydd o ddefnyddio data a gedwir ar lefel y DU. Nododd yr Athro Toby James:

“Providing citizens with an option to register to vote/update their registration details when accessing other government services would enable millions of citizens to register more easily. For example:

a. 6.5 million per year could register when applying for a passport

b. 4 million people could register when they update their driving licence address with the DVLA

c. 2 million a year could register when applying for Universal Credit

d. 2.5 million students could be registered through annual student enrolment

e. 800,000 could register when they apply for child benefit for the first time

f. 500,000 could register when they provide the Student Loans Company with a new address

¹¹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 240

g. 450,000 could register when they apply for disability benefits.”

154. Felly, awgrymodd yr Athro James:

“The Welsh government should approach key UK government departments to request access to the key data sources which would enable the policy to be effective.”¹¹⁶

155. Cyfeiriodd yr Athro Alistair Clarke hefyd at ffynonellau data ar lefel y DU a'r angen i gael cytundebau ar waith er mwyn cael mynediad at y ffynonellau hynny:

“The Department for Work and Pensions database is one that often comes up in this regard. So, I think making sure that all the data-sharing agreements and things of that sort that are likely to be necessary are in place, I think, will probably be important.”¹¹⁷

156. Pan ofynnwyd iddo am y ffynonellau data a fyddai'n cael eu defnyddio gan swyddogion cofrestru i wirio hunaniaeth etholwr, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, ond y byddai'n cynnwys nodi ffynonellau data penodol o Gymru, a'r ffynonellau data hynny sydd o fewn awdurdodaeth Cymru.¹¹⁸

157. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“electoral registration officers have already got quite a lot of power in relation to the data they can access for purposes of validating applications to be on the electoral register. What we're proposing is that they can add people to the electoral register by using pretty much the same data sources they'd already be using to validate for those purposes. Clear examples are things like council tax. Schools data would be particularly

¹¹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 06 – Yr Athro Toby S James

¹¹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 240

¹¹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 40

relevant in this instance, given the under-registration of younger people in particular.”¹¹⁹

158. Pan wnaethom archwilio'r mater hwn ymhellach gyda'r Cwnsler Cyffredinol, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“We've been working with local authorities and we will be working with local authority data protection officers to ensure that anybody, particularly in the piloting period, will have access to any useful local data. So, while we are looking at main data sets around council tax or schools data, we'll be looking to broaden that out as much as we possibly can so that we've got as much access as possible to as wide a variety of data as possible, but keeping it within the local authority.”¹²⁰

159. Pan ofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio ffynonellau data'r DU, a fyddai angen cytundebau rhannu data gydag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

“We've looked at that, but we don't consider it's necessary. We don't want to go down the road of Minister of the Crown consents if we have sufficient data that is available. At the moment, all the indications are that we have considerable areas of databases within Wales, and that should be sufficient in order to populate an automatic register. I think it's one of those areas where there's still work in progress. The pilot will tell us quite a bit, I think, and, of course, the legislation provides for a review post the 2026 elections as well.”¹²¹

Ein barn ni

160. Rydym yn cydnabod bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn dangos bod mwyafrif llethol yn cefnogi'r egwyddor o gyflwyno cofrestru etholiadol heb gais fel modd o gynyddu nifer y pleidleiswyr cymwys cofrestredig. Rydym yn cytuno

¹¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 41

¹²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 96

¹²¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 98

â'r syniad hwnnw ac, ar y cyfan, rydym yn cefnogi mentrau i gynyddu cyfranogiad democrataidd. Fodd bynnag, rydym yn teimlo'n gryf mai dim ond os gellir gwarantu diogelwch etholwyr sy'n agored i niwed y dylid gweithredu cofrestru awtomatig. Credwn fod angen newidiadau i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol i bobl agored i niwed.

161. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i beilota cofrestru awtomatig a gwerthuso'r cynlluniau peilot hynny cyn cyflwyno'r darpariaethau ledled Cymru. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad hwn ac yn credu bod dysgu o brofiad cynlluniau peilot yn hanfodol cyn gweithredu newid mor sylweddol. Nodwn sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad nad oes angen cynnwys dyletswydd i beilota'r darpariaethau cofrestru awtomatig ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd y gallai dyletswydd gyfreithiol roi sicrwydd ychwanegol i bobl agored i niwed.

162. Wrth ystyried ym mha ardaloedd o Gymru y dylid cynnal y cynlluniau peilot, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymysgedd o nodweddion yn cael eu hystyried. Credwn y dylid cynnwys cymysgedd o ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd trefol a gwledig, ardaloedd cefnog a llai cefnog ac ardaloedd lle mae cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Dylid hefyd ystyried gallu gwahanol grwpiau oedran i gymryd rhan yn y cynlluniau peilot.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ystyried ble yng Nghymru i gynnal cynlluniau peilot yn ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais, sicrhau bod amrywiaeth o ardaloedd yn cael eu cynnwys. Credwn y dylai'r ardaloedd a ddewisir gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, ardaloedd cefnog a llai cefnog ac ardaloedd lle mae cyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

163. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth i alluogi pobl i gofrestru'n ddiennw a chredwn fod hyn yn elfen hanfodol o gofrestru awtomatig, ond rydym yn cytuno â rhai o'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch y broses. Rydym yn arbennig o bryderus y bydd angen i bobl sy'n dymuno cofrestru'n ddiennw

ddarparu tystiolaeth i gefnogi cais ac y bydd angen iddynt adnewyddu eu cais yn flynyddol. Teimlwn y gallai darparu tystiolaeth o'r fath fod yn anodd i bobl agored i niwed gan y gallai olygu cael eu hatgoffa o brofiadau trawmatig, yn enwedig os byddai angen iddynt wneud hynny eto wrth ailymgeisio yn y blynyddoedd dilynol.

164. Rydym yn cydnabod honiad y Cwnsler Cyffredinol y byddai'r gofynion yn adlewyrchu'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer person sy'n ceisio cofrestru'n ddiennw, ond credwn y bydd y sefyllfa'n wahanol pe bai cofrestru awtomatig yn cael ei weithredu. Ar hyn o bryd, byddai unrhyw un sy'n cofrestru'n ddiennw yn gwneud hynny'n rhagweithiol ond, o dan gofrestru awtomatig, credwn y gallai fod mwy o le ar gyfer camgymeriadau os nad yw unigolion yn deall y broses.

165. Credwn y dylai'r broses o wneud cais i gofrestru'n ddiennw fod mor hyblyg â phosibl er mwyn atal y gofynion rhag bod yn rhwystr i wneud cais. Rydym yn poeni, os yw'r gofynion yn rhy feichus neu'n profi i fod yn rhy drawmatig, y gallai pobl ddewis peidio â chael eu cofrestru, gan arwain at eu difreinio, a fyddai'n mynd yn groes i amcan y darpariaethau.

166. Ymhellach, rydym yn ansicr o hyd ynghylch y rhesymeg dros y gofyniad i ddarparu tystiolaeth ar gyfer cofrestru'n ddiennw neu ar gyfer adnewyddu blynyddol. Nid ydym yn argyhoeddedig bod honiad y Cwnsler Cyffredinol y byddai'r gofynion yn adlewyrchu trefniadau presennol yn ddigonol, o gofio y byddai symud i gofrestru awtomatig yn dra gwahanol i'r system bresennol. Felly, credwn na ddylai fod gofyniad i ddarparu tystiolaeth i gefnogi cais diennw, ac rydym yn credu'n gryf, unwaith y bydd person wedi cofrestru'n ddiennw, na ddylai fod yn ofynnol iddo adnewyddu'r cofrestriad hwnnw bob blwyddyn. Credwn y dylai cofrestriad diennw aros ar waith hyd nes bod person yn mynd ati i optio allan o'r trefniant hwnnw.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai'r broses o wneud cais i gofrestru'n ddiennw fod mor syml a hyblyg â phosibl. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried peidio â gosod gofyniad i ddarparu tystiolaeth i gefnogi cais.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell, unwaith y bydd person wedi'i gofrestru'n ddiennw, na ddylai fod yn ofynnol iddo adnewyddu ei gofrestriad diennw bob

blwyddyn. Yn hytrach, dylai'r cofrestriad dienw aros ar waith nes bod person yn mynd ati i ddewis newid y trefniant hwnnw.

167. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dynnu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig. Nodwn y farn a fynegwyd gan rai nad oes diben etholiadol i'r gofrestr agored ac, yn bwysicach fyth, am resymau diogelwch y cyhoedd, rhaid tynnu'r gofrestr agored wrth gyflwyno'r broses gofrestru awtomatig. Yn benodol, rydym yn cefnogi'r alwad gan RhCM Cymru na ddylid gweithredu'r darpariaethau cofrestru awtomatig heb dynnu'r gofrestr agored.

168. Nodwn nad oes dyletswydd i dynnu'r gofrestr agored ar wyneb y Bil, a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu arfer pwerau o dan Adran 53 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i gyflwyno rheoliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd. Rydym yn cydnabod y gallai cynnwys dyletswydd ar wyneb y Bil roi sicrwydd ychwanegol i rai rhanddeiliaid.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r Bil i gynnwys dyletswydd i dynnu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig cyn cynnal peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais.

169. Rydym yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd ynghylch a yw cyfnod rhybudd o 45 diwrnod yn rhoi digon o amser i bobl nodi eu dewis i beidio â chael eu cofrestru neu i wneud cais i gofrestru'n ddiennw. Rydym yn cydnabod cadarnhad y Cwnsler Cyffredinol y byddai'r cyfnod rhybudd yn cael ei atal pan wneir cais i gofrestru'n ddiennw ac, er bod hynny'n rhoi rhywfaint o sicrwydd, rydym yn pryderu o hyd efallai na fydd yr amserlen hon yn ddigonol ar gyfer rhai pobl agored i niwed. Bydd yn hanfodol monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth benodol hon yn ofalus drwy'r cynlluniau peilot ac ymestyn yr amserlen os oes angen. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sefydliadau rhanddeiliaid priodol sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r peilotau i sicrhau bod trefniadau'n cael eu teilwra a'u gwerthuso i gynnwys diwallu eu hanghenion.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed yn rhan o'r gwaith o gynllunio peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cynnal peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais, nodi sut y bydd y peilotau'n asesu a yw'r cyfnod o 45 diwrnod sydd gan unigolyn i ymateb i'r hysbysiad yn ddigonol.

170. Bydd gweithredu newid mor sylweddol i'r broses gofrestru yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y Comisiwn Etholiadol ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r newid hwn. Gan y byddai hyn yn arwain at fwy o wahaniaeth rhwng cofrestr Senedd Cymru a chofrestr Senedd y DU, rydym yn pryderu bod dryswch ymhlith pleidleiswyr yn anochel. Rydym yn cydnabod bod dryswch ymhlith pleidleiswyr wedi cael ei gydnabod gan y Cwnsler Cyffredinol ac eraill a bod yr angen i liniaru'r risg hon wedi'i dderbyn. Rydym yn croesawu sefydlu gweithgor i ddatblygu cynlluniau peilot. Bydd yn hanfodol bod y peilotau'n ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau.

171. Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau agored i niwed a bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rydym yn cefnogi'r alwad gan randdeiliaid y dylid darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys hawdd ei ddeall, print bras a braille. Dylai gwybodaeth hefyd fod ar gael ar-lein a dylai copïau caled gael eu dosbarthu i ganolfannau lle mae pobl yn ymgynnull, gan gynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn ogystal ag mewn gwahanol ieithoedd.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell, pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu gweithredu'r darpariaethau ar gofrestru etholiadol heb gais, y dylid cyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau. Dylai ymgyrch o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hygyrch, ar-lein ac ar ffurf copi caled ac mewn ystod eang o ieithoedd.

172. Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o weithredu cofrestru awtomatig, rydym yn cydnabod y bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar gywirdeb y data a ddefnyddir i adnabod pleidleiswyr cymwys. Clywsom gan randdeiliaid y dylai'r data fod yn gadarn, felly rydym yn pryderu a fydd yr enghreifftiau o ddata a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ddigonol. Rydym yn sylweddoli y bydd defnyddio data a gedwir eisoes gan awdurdodau lleol yng Nghymru, megis yr

enghreifftiau a nodwyd o gofnodion y dreth gyngor a ffigurau derbyn i ysgolion, yn fwy syml, ond rydym yn pryderu y gallai ffynonellau o'r fath fod yn rhy gyfyngedig.

173. Rydym yn cydnabod y byddai cael mynediad at ddata a gedwir gan Lywodraeth y DU yn gofyn am gytundebau rhannu data rhwng Llywodraeth Cymru ac adrannau perthnasol y DU, ond byddai cael mynediad at ddata o'r fath yn cynyddu'n fawr yr wybodaeth sydd ar gael i awdurdodau lleol, a allai eu galluogi i gyrraedd nifer uwch o bleidleiswyr cymwys. Rydym yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r bwriad i ddefnyddio data Cymru, ond ni ddylid diystyru cael mynediad at ddata'r DU ar hyn o bryd. Credwn fod hwn yn fater y dylid ei werthuso fel rhan o'r peilotau arfaethedig ac, os bydd y peilotau'n dangos bod angen cael mynediad at ystod ehangach o ddata, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundebau rhannu data gyda Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r darpariaethau cofrestru awtomatig ledled Cymru.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai peilotau'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais gynnwys gwerthusiad o gadernid y ffynonellau data a ddefnyddir i adnabod pleidleiswyr cymwys. Os bydd y peilotau'n dangos y byddai ffynonellau data eraill yn fwy effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundebau rhannu data gyda Llywodraeth y DU, yn ôl yr angen.

Peilota a diwygio etholiadau Cymreig

174. Mae Adrannau 5 - 24 yn creu darpariaethau ynghylch peilotau etholiadol yng Nghymru. Maent yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a chyrff eraill gynnig peilotau etholiadol, i'r peilotau hyn gael eu gwerthuso gan y Comisiwn Etholiadol ac i Weinidogion Cymru gyflwyno drwy reoliad newidiadau parhaol i faterion etholiadol perthnasol mewn etholiadau Cymreig.

175. Cafodd y pwerau i gynnal peilotau etholiadol ar gyfer etholiadau Cymreig eu datganoli i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018. Cyn hynny, roedd y pwerau hyn wedi'u cynnwys yn Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Mae'r pwerau hyn yn galluogi awdurdod lleol i gyflwyno cynigion ar gyfer cynllun peilot mewn un neu bob un o'r meysydd canlynol:

- pryd, ble a sut y mae pleidleisio yn yr etholiadau i ddigwydd;

- sut y mae'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn yr etholiadau i'w cyfrif; neu
- ymgeiswyr yn anfon cyfathrebiadau etholiadol yn rhad ac am ddim drwy'r post.

176. Yn 2022, cafodd rhaglen beilot yn canolbwyntio ar bleidleisio cynnar a hyblyg ei chynnal mewn pedwar awdurdod lleol - Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thorfaen.¹²²

177. Mae'r Bil yn darparu pwerau newydd ar gyfer cynnal peilotau etholiadol ar gyfer etholiadau Cymreig. Mae'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau i gynnal peilotau ar y 'materion etholiadol perthnasol' canlynol:

- cofrestru pobl sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau Cymreig;
- pryd, ble a sut y mae pleidleisio mewn etholiadau Cymreig i ddigwydd (er enghraifft, pleidleisio ymlaen llaw, gorsafoedd pleidleisio amgen neu bleidleisio electronig);
- sut y mae'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw mewn etholiadau Cymreig i'w cyfrif;
- cyfathrebu â phleidleiswyr ynghylch etholiadau Cymreig; ac
- y prosesau a'r gweithdrefnau cyn, wrth neu ar ôl pleidleisio mewn etholiadau Cymreig.

178. Mae'r darpariaethau'n nodi y gallai peilotau gwmpasu un neu fwy o 'faterion etholiadol', y byddai angen iddynt fod ar waith am gyfnod penodol o amser ac y gallent fod yn gymwys i un neu fwy o ardaloedd etholiadol. Maent yn nodi hefyd y byddai cyrff penodol a Gweinidogion Cymru yn cael pwerau i wneud cynigion ar gyfer cynnal peilotau. Mae adran 5(5) yn dweud y gallai Gweinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau ar beilotau, eu gweithredu fel y'u cynigiwyd neu gydag addasiadau. Ni fyddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru nodi beth yw'r addasiadau hynny wrth wneud rheoliadau.

¹²² Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.42

179. Mae Adrannau 5(6) a 5(7) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoliadau peilot i greu, dileu neu addasu troseddau, cyn belled nad yw'r drosedd i'w chosbi gan gyfnod o fwy na blwyddyn yn y carchar, neu'r 'terfyn cymwys' ar euogfarnau diannod.

180. Mae Adran 6 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dilyn wrth wneud rheoliadau peilot. Mae'r rhain yn cynnwys pennu amcan y cynllun peilot a phennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno adroddiad yn gwerthuso ei lwyddiant.

181. Mae Adran 6(2) yn datgan na ddylid gwneud darpariaethau peilot sy'n gymwys i awdurdodau lleol heb gydsyniad yr awdurdod. Os nad yw'r awdurdod yn cydsynio, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw argymhellion a wnaed gan DBCC ynghylch a ddylid gwneud rheoliadau peilot heb gydsyniad yr awdurdod. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r rhesymeg dros gynnwys darpariaethau yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdodau lleol i gynnal cynlluniau peilot:

*"Dim ond pan fo awdurdod lleol yn dechrau'r cynigion yn ffurfiol y mae'r trefniadau presennol yn caniatáu peilotau. Un o ystyriaethau peilotau 2022 oedd na chawsant eu cynnal mewn set ddaearyddol amrywiol o ardaloedd awdurdodau lleol. Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi peilotau mewn mannau lle y maent o'r farn bod hyn yn angenrheidiol. Mae hyn yn golygu y gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal peilotau, gan helpu i sicrhau y gellid peilota mathau addas o arloesiadau mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Gallai hyn sicrhau tystiolaeth werthfawr er mwyn llywio diwygio etholiadol yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a nodi'r rhesymau dros orfodi'r peilot cyn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth angenrheidiol."*¹²³

¹²³ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.51

182. Ni fyddai'r gofyniad i ofyn am gydsyniad awdurdodau lleol neu fel arall i roi sylw i argymhellion gan y Comisiwn yn berthnasol i reoliadau peilot a wneir o fewn 12 mis i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol sy'n ymwneud â chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig.

183. Dywed y Memorandwm Esboniadol y byddai rheoliadau peilot, 'yn gyffredinol', yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd. Byddai peilotau'n ymwneud â chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, ynghyd ag unrhyw beilotau nad oes ganddynt gydsyniad yr awdurdod lleol, neu sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ehangu cwmpas trosedd, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

184. Mae adran 8 yn gwneud darpariaethau i Weinidogion Cymru ychwanegu materion pellach at y rhestr o 'faterion etholiadol perthnasol' a nodir yn adran 5(3). Mae'n nodi y byddai materion yn ymwneud â system bleidleisio'r Senedd, neu system bleidleisio prif gyngor a chyngor cymuned, yn cael eu heithrio. Byddai unrhyw reoliadau sy'n ychwanegu materion at y rhestr yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

185. Mae'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru a nifer o gyrff wneud cynigion ar gyfer peilotau etholiadol. Byddai'n ofynnol i DBCC werthuso cynigion a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid gweithredu peilotau ac, os felly, sut.

186. Byddai adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud cynnig peilot, ymgynghori â Swyddog Canlyniadau'r ardaloedd a gwmpesir gan beilot arfaethedig. Byddai hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno cynigion peilot i DBCC eu hadolygu, a rhoi sylw i unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiwn mewn adroddiad ar y cynigion.

187. Byddai adran 10 yn galluogi prif gynghorau i gynnig rheoliadau peilot i Weinidogion Cymru. Byddai angen i gynghorau ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud cynnig. Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, byddai'n ofynnol i gynghorau gyflwyno cynigion peilot i DBCC, a rhoi sylw i'w adroddiad ar y cynigion.

188. Byddai adran 11 yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i wneud cynigion ar y cyd â phrif gynghorau, yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau a nodir yn adran 10.

Byddai adran 12 yn galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i wneud cynigion ar gyfer peilotau etholiadol. Fodd bynnag, byddai'r cynigion hyn yn gyfyngedig i gynlluniau peilot sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr. Byddai'r rhain hefyd yn ddarostyngedig i'r un gofynion a nodir yn adran 10.

189. Mae adran 15 yn nodi meini prawf y byddai angen i DBCC eu hystyried wrth gwblhau ei adroddiad ar beilot arfaethedig. O dan adran 16, byddai'n ofynnol i DBCC sefydlu fforwm ar gyfer trafod peilotau etholiadol, a fyddai'n cynnwys Swyddogion Canlyniadau pob cyngor sy'n cymryd rhan, gweinyddwyr etholiadol o'r cynghorau sy'n cymryd rhan ac o leiaf un aelod o'r Comisiwn ei hun.

190. Mae adran 18 yn nodi y byddai'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gynnal gwerthusiad o'r peilot ar ôl iddo gael ei gwblhau. Byddai angen i'r adroddiad gwerthuso gwmpasu'r canlynol:

- sut roedd y peilot yn wahanol i'r ddarpariaeth a fyddai wedi bod yn gymwys fel arall;
- asesiad o lwyddiant y rhaglen beilot o ran cyflawni ei hamcanion cychwynnol;
- asesiad o ran a ddylai darpariaethau tebyg i'r rhai a wnaed gan y peilot fod yn gymwys yn gyffredinol ac ar sail barhaol ar gyfer etholiadau Cymreig.

191. Byddai darpariaethau yn adran 19 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau diwygio etholiadol. Bydd yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau parhaol i'r modd y gweinyddir etholiadau 'sy'n debyg' i'r rhai a dreialwyd mewn cynllun peilot. Dim ond os yw'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell yn ei adroddiad adolygu fod y cynllun peilot wedi llwyddo i gyflawni'r 'canlyniad diwygio' etholiadol arfaethedig ac y dylai fod yn gymwys yn fwy cyffredinol ac ar sail barhaol y gall Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau hyn.

192. Mae adran 20 yn nodi gweithdrefn graffu uwch i'r Senedd gymeradwyo rheoliadau diwygio etholiadol o dan adran 19. Mae'r weithdrefn uwch yn nodi, pe bai rheoliadau diwygio etholiadol yn addasu deddfwriaeth sylfaenol, yn creu trosedd neu'n ehangu cwmpas trosedd, neu'n creu neu'n diwygio pŵer i

ddeddfu, byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys. Fodd bynnag, gallai'r Senedd neu Bwyllgor y Senedd argymhell o fewn 30 diwrnod i'r rheoliadau gael eu gosod y dylai uwch-weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys i'r rheoliadau. Yn yr achos hwn, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a wnaed iddo, unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Senedd neu argymhellion a wnaed gan Bwyllgor y Senedd o fewn cyfnod o 60 diwrnod i'r rheoliadau gael eu gosod. Gallai Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i'r rheoliadau drafft pe bai angen i ystyried unrhyw argymhellion neu sylwadau, ond byddai angen iddynt osod y drafft diwygiedig gyda datganiad yn esbonio unrhyw newidiadau i'r Senedd cyn y gellir eu cymeradwyo.

193. Bydd rheoliadau eraill a wneir o dan adran 19 yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefn negyddol. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud y rheoliadau, i osod datganiad ochr yn ochr â'r rheoliadau yn esbonio pam eu bod yn credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol. Yna, byddai gan Bwyllgor y Senedd 14 diwrnod i ystyried a yw'n cytuno â'r defnydd o'r weithdrefn negyddol. Os nad yw'n cytuno, rhaid i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

194. Wrth osod unrhyw reoliadau o dan adran 19, byddai angen i Weinidogion Cymru hefyd osod copi o adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar y peilot.

195. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn credu y byddai'r cyfnod o 6 wythnos a bennir yn adran 15(6) yn ddigon o amser i DBCC werthuso cynigion peilot.¹²⁴ O ran cynigion peilot a gyflwynir ar y cyd gan y Comisiwn Etholiadol a phrif gynghorau, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod ganddo bob hyder y byddai gan y Comisiwn Etholiadol:

“their internal structures to allow objective evaluation of something that they had initiated, because we found them to be good at doing that kind of objective thinking.”¹²⁵

¹²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 92

¹²⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 95

196. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym eu bod yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwerthuso gan eu bod wedi gwneud gwaith o'r fath o'r blaen ac y byddai ganddynt y capasiti i wneud hynny yn y dyfodol.¹²⁶

197. Dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym, o ran gwerthuso peilotau, fod perygl y byddai llywodraethau'n marcio eu gwaith cartref eu hunain, a allai gyfrannu at sinigiaeth ac amheuaeth. Ychwanegodd y byddai'n bwysig cynnal gwerthusiadau ac y dylent fod yn annibynnol ar y llywodraeth.¹²⁷

198. Nododd ERS Cymru y byddai'n bwysig dysgu o wersi peilotau 2022, yn enwedig o ran cyfathrebu ag awdurdodau lleol i alluogi cynllunio gwell a chodi ymwybyddiaeth ymhlith yr etholwyr.

199. Er eu bod yn cefnogi'r egwyddor o gynnal peilotau pellach, cododd cynrychiolwyr CLILC bryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i gynnal peilotau. Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi wrthym y gallai'r capasiti i gynnal peilotau fod yn rhwystr i rai awdurdodau, felly efallai y bydd angen cyllid gan na ddylai unrhyw ardal gael ei gadael ar ôl oherwydd diffyg capasiti. Dywedodd y Cynghorydd Medi wrthym:

*"rhaid inni hefyd beidio â chael gorfodaeth ar ardaloedd i wneud pethau, achos mae'n bwysig iawn bod y returning officer yna efo'r hawl i wneud y penderfyniadau achos eu bod nhw'n adnabod yr ardal ac yn adnabod yr heriau maen nhw'n eu hwynebu. Y peth diwethaf dŷn ni eisiau ydy gweld methiant yn y broses hefyd."*¹²⁸

200. Roedd y Cynghorydd Andrew Parkhurst yn cytuno:

*"compelling returning officers to undertake pilots when it's not within, perhaps, their capacity to do so is problematical. I think there should be a large degree of agreement by the returning officers to participate, rather than being forced."*¹²⁹

¹²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraffau 282 a 286

¹²⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 282

¹²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 51

¹²⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 54

201. Dywedodd y Cyngorydd Huw David wrthym y byddai'n well gan CLILC i'r pŵer i orfodi beidio â bod yn y ddeddfwriaeth, gan ychwanegu:

“For pilots to be successful, we would want there to be that discretion and that capacity for authorities to participate. Otherwise, the risk is those pilots won't be successful.”¹³⁰

202. Dywedodd WECB wrthym eu bod yn gefnogol i'r dull o ymdrin â diwygio peilotau a'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer goruchwyllo a gwerthuso, ond y dylai unrhyw beilot arfaethedig gael ei gefnogi gan achos busnes, gael ei ariannu'n llawn a rhoi gwerth am arian. Fodd bynnag, lleisiodd WECB ei wrthwynebiad cryf i'r cynigion sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru yn gorfodi awdurdod lleol i gynnal peilot:

“We cannot support the proposal for Ministers to be vested with powers to compel participation in pilots as set out in paragraph 3.51. This would be counter-intuitive to the very notion of a pilot exercise where any participating local authority must have the compulsion, confidence and capacity to make it succeed. We have a strong track record of co-operative partnership working in Wales and particularly so in the field of electoral registration, electoral reform and elections management. The concept of mandating is alien to our style of working, and should be withdrawn from the Bill.”¹³¹

203. Dywedodd WECB wrthym y byddent yn argymhell yn gryf peidio â chael pwerau i orfodi, gan esbonio:

“It's on two levels: we could compel somebody who isn't ready or has the capacity to do it, and it fails, but secondly, on principle, why would we compel? A pilot is meant to be something that somebody takes on enthusiastically, and, in my honest experience of local government, [] we've piloted lots of

¹³⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 56

¹³¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

things, as have other councils, but you've got to have capacity, enthusiasm, belief.

*I couldn't speak strongly enough against the principle, even if it's an absolutely reserved power that no Minister would want to draw on. It's completely counterintuitive, and I think, for me, it doesn't recognise the relationship of partnership that local government and Welsh Government should have.*¹³²

204. Cytunodd yr AEA, gan esbonio'r materion capasiti y credant a allai effeithio ar natur gyflawnadwy peilotau a orfodir, gan gynnwys nifer uchel o staff gwasanaethau etholiadol newydd a dibrofiad yng Nghymru, ynghyd â chyfraddau swyddi gwag uchel:

“The number of vacancies we are experiencing across the board in the UK in terms of electoral administrators is probably at an all-time high at the moment, with people leaving the profession in quite high numbers, because the pressure and the responsibilities are increasing and getting too much for some people. So, I think the powers to compel just worry us that you're putting people who are already almost at breaking point potentially in a more difficult position than they need to be. And adding to that, you've still got relatively new returning officers in quite a lot of authorities in Wales as well, and putting that additional pressure on them, when they haven't actually asked for it, would just concern us, as to the deliverability of those pilots and whether then they'd be effective as a result anyway.”¹³³

205. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried effeithiau andwyol gorfodi awdurdod lleol, gan ychwanegu y

¹³² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraffau 275-276

¹³³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 278

gallai cyfathrebu cynnar cyn ac yn ystod y broses o gynllunio peilot roi sicrwydd a chynnyddu capasiti.¹³⁴

206. Croesawodd ERS Cymru y darpariaethau yn ymwneud â pheilotau etholiadol, gan gynnwys y pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi:

“A power direction that would enable Welsh Ministers to compel a local authority to pilot electoral innovations would be a good tool in widening the areas involved and ensuring a balance across the geographies and demographics of the 22 Welsh local authorities.”

207. Fodd bynnag, ychwanegodd ERS Cymru:

“It is also key that compelling a pilot is not the first port of call in terms of working with a local authority to ensure a pilot is held.”¹³⁵

208. Pwysleisiodd ERS Cymru wrthym mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r pŵer i orfodi ac y dylid sicrhau adnoddau effeithiol i beilotau o ran cyllid a'r capasiti i gyflawni.¹³⁶

209. Dywedodd yr Athro Alistair Clark wrthym ei fod yn deall pam fod pŵer i orfodi wedi'i gynnwys yn y Bil ond, yn ei farn ef:

“any form of compulsion of that sort should be really used sparingly and really as a clear last resort, and, importantly—[] with a clear rationale about what’s to be achieved by that pilot.

It’s important that []the electoral reforms are seen as being free from government bias. It’s right that governments have policies and it’s right that Parliament enacts them, but compelling pilots on unwilling local authorities, I think, is really something that should not be used that often, even if the power does go

¹³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 277

¹³⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 09 – ERS Cymru

¹³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 147

through, because it risks that perception of bias in what's trying to be achieved."¹³⁷

210. Gwnaeth rhanddeiliaid awgrymiadau ynghylch y math o beilotau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnal. Dywedodd ERS Cymru wrthym y byddent yn argymhell peilotau megis pleidleisio ar wahanol ddiwrnodau ac mewn gwahanol lefydd, gan gynnwys llefydd lle mae pobl yn mynd yn rheolaidd, megis ysgolion neu archfarchnadoedd. Gwnaethant hefyd bwysleisio'r angen i gynnal peilotau mewn gwahanol ardaloedd daearyddol ledled Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd trefol iawn a gwledig iawn.¹³⁸ Awgrymodd RNIB Cymru y gellid treialu system pleidleisio dros y ffôn oherwydd y manteision y gallai eu cynnig i bobl ddall a rhannol ddall ac i bobl sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.¹³⁹ Cyfeiriodd yr Athro Clark at beilotau posibl a allai fod y tu ôl i'r llenni yn hytrach nag yn canolbwyntio ar bleidleiswyr, megis prosesau gweinyddu etholiadol, gan gynnwys prosesau enwebu ymgeiswyr, cofrestr etholiadol electronig i'w defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio. Awgrymodd hefyd y gallai peilota cyhoeddi canlyniadau yn gyflymach neu eu cyhoeddi mewn ffordd fwy hygyrch helpu gydag ymddiriedaeth yn y broses a dealltwriaeth ohoni.¹⁴⁰

211. O ran y darpariaethau sy'n ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i orfodi, esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

“the point of this isn't to force and to strongarm against their will, because, ultimately, we wouldn't want to undermine the integrity of the election; the point is to allow us to be a bit more encouraging, perhaps, of a pilot, but we wouldn't hope to actually be in a position of Ministers imposing their wishes on a local authority if it was at risk of the election.”¹⁴¹

¹³⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 279-280

¹³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraffau 136-137

¹³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 131

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 270, 275-276

¹⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 98

212. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn rhagweld y byddai Gweinidogion Cymru sy'n defnyddio'r pŵer i orfodi yn rhywbeth eithriadol iawn, megis pe bai peilot yn croesi mwy nag un ffin awdurdod lleol, Dywedodd:

“it is only in exceptional circumstances that would happen, and even if it did, it would be necessary for those proposals to be laid before the Senedd and the Senedd would have to vote on those. There would be an affirmative resolution required. So, I think there are checks and balances in that. But the intention isn't to have powers that force local authorities to do things they won't or can't do, but just to ensure that a pilot that is considered necessary for the robustness of your testing systems and so on is actually able to properly take place.”¹⁴²

213. Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol y byddai angen i beilotau gael adnoddau priodol er mwyn bod yn effeithiol, a chadarnhaodd, yn debyg i beilotau 2022, mai'r bwriad fyddai i beilotau'r dyfodol gael eu hariannu'n iawn. Ychwanegodd:

“I don't think pilots could or should take place unless they are properly resourced, because then they wouldn't be proper pilots.”¹⁴³

Ein barn ni

214. Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r darpariaethau sy'n ymwneud â pheilotau etholiadol ac rydym yn cefnogi dod o hyd i ffyrdd arloesol o alluogi pobl i ymgysylltu â'r system bleidleisio a gwneud y broses yn fwy hygyrch. Nid yw'r broses bleidleisio wedi cadw i fyny â bywyd modern ac rydym yn croesawu ffyrdd o wella'r system. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r pwysau sy'n wynebu staff gwasanaethau etholiadol wrth baratoi ar gyfer etholiadau, felly ni fyddem am i'r llwyth gwaith ychwanegol o redeg peilotau fod yn rhy feichus ar dimau sydd eisoes dan bwysau. Credwn felly fod cynllunio ac amseru peilotau yn ofalus yn hollbwysig.

¹⁴² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 101

¹⁴³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 103

215. Clywsom am yr angen i ddysgu o brofiadau blaenorol ac mae peilotau 2022 yn sylfaen dda i ddysgu ohoni. Er mwyn bod yn effeithiol, credwn fod rhaid i bleidleiswyr fod yn ymwybodol bod peilotau'n cael eu cynnal a sut y gallant gymryd rhan. Dywedwyd wrthym y gallai peilotau 2022 fod wedi cael eu cyfathrebu'n well, felly bydd yn hanfodol cywiro hynny ar gyfer peilotau'r dyfodol drwy weithredu cynllun cyfathrebu clir.

216. Clywsom nifer o awgrymiadau ynghylch y math o beilotau a allai gael eu cynnal ac, er nad ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ar beilotau penodol, credwn y dylai peilotau'r dyfodol gael eu cynnal ar draws ystod o wahanol ardaloedd daearyddol ac ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Credwn hefyd y byddai'n ddefnyddiol ystyried a yw gwahanol beilotau'n cynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio ar draws gwahanol ystodau oedran.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell y dylai peilotau'r dyfodol gael eu cynnal ar draws ystod o wahanol ardaloedd daearyddol ac ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Dylai peilotau ystyried hefyd allu gwahanol grwpiau oedran i gymryd rhan.

217. Rydym yn cydnabod y gwrthwynebiad cryf a leisiwyd gan rai rhanddeiliaid i'r pŵer a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn cynllun peilot, a bod hyd yn oed rhanddeiliaid a oedd yn cefnogi'r ddarpariaeth yn pwysleisio y byddai dull cydsyniol yn well ac mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio'r pŵer. Rydym yn deall y pryderon a godwyd yn erbyn y pŵer, yn enwedig y gallai awdurdodau lleol gael eu gorfodi i gymryd rhan mewn peilot nad oes ganddynt y capasiti i'w gyflawni. Rydym yn derbyn, o dan amgylchiadau o'r fath, y gallai peilot fod yn wrthgynhyrchiol. Felly, rydym yn croesawu'r ymrwymiad gan y Cwnsler Cyffredinol y bydd gan beilotau'r adnoddau priodol.

218. Er gwaethaf ein pryderon, rydym yn deall pam mae'r pŵer i orfodi wedi'i gynnwys yn y Bil, ond rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd y byddai peilotau cydsyniol yn fwy effeithiol ac mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai'r pŵer gael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru. Rydym yn cydnabod bod y Cwnsler Cyffredinol wedi rhoi sicrwydd o'r fath i ni. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod awdurdodau lleol yn bryderus iawn ynghylch y posibilrwydd o gael eu gorfodi, felly dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda llywodraeth leol i

roi sicrwydd pellach mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai'r pŵer i orfodi yn cael ei ddefnyddio ac y byddai gan beilotau adnoddau priodol, yn ariannol ac o ran capasiti staff.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i roi sicrwydd pellach mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai'r pŵer i orfodi peilotau etholiadol yn cael ei ddefnyddio ac y byddai ganddynt adnoddau priodol, yn ariannol ac o ran capasiti staff.

Hygyrchedd ac amrywiaeth: Etholiadau Cymreig

219. Mae adrannau 25 – 31 yn gwneud darpariaethau ynghylch hygyrchedd ac amrywiaeth, a chreu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr.

Dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol ynghylch cymorth i bleidleiswyr ag anableddau

220. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Deddf Etholiadau'r DU 2022 wedi gwneud nifer o newidiadau ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl i'w gwneud hi'n haws i bobl anabl bleidleisio. Er enghraifft, ehangodd y gofyniad i ddarparu offer sy'n rhesymol at ddibenion galluogi pobl anabl, neu ei gwneud yn haws iddynt, bleidleisio'n annibynnol, gan gynnwys eu gallu i farcio'r papur pleidleisio yn gyfrinachol. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud y byddai darpariaethau yn y Bil yn "cysoni rheolau hygyrchedd ar gyfer etholiadau yng Nghymru gyda deddfwriaeth y DU".¹⁴⁴

221. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn rhoi manylion sylweddol am fwriad Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau tebyg ar gyfer etholiadau Cymreig, nid yw'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn y Bil hwn. Yn hytrach, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y rhain yn cael eu gwneud gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth. Nid yw'n nodi pa bwerau y bydd yn eu defnyddio i wneud hyn, pryd y bydd yn gwneud hyn na pham nad yw'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud ar wyneb y Bil hwn.

¹⁴⁴ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.52

222. Mae'r pwerau yn y Bil ei hun yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i ddyletswyddau adrodd a roddir ar y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ychwanegol ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar gamau a gymerwyd i gynorthwyo pobl anabl mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Senedd.

223. Mae adran 25 yn diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Mae'n mewnosod adran 5A newydd, sy'n gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi adroddiad ar weinyddiaeth pob un o etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru y mae'n rhaid iddo gynnwys manylion y camau a gymerwyd gan Swyddogion Canlyniadau i gynorthwyo pobl ag anableddau i bleidleisio. Mae adran 25(4) yn diffinio 'anabledd' fel "in relation to doing a thing, includes a short term inability to do it".

224. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno, drwy is-ddeddfwriaeth:

*"gofyniad newydd, ehangach i ddarparu cyfarpar o'r fath sy'n rhesymol at ddibenion galluogi, neu ei gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio yn annibynnol ac yn unol ag anghenion pleidleiswyr anabl a nodwyd. Bydd darpariaeth hefyd mewn is-ddeddfwriaeth i'r Comisiwn Etholiadol ddyroddi canllawiau ar sut y dylai Swyddogion Canlyniadau gyflawni'r ddyletswydd honno. Yn yr un modd, bydd gofynion yn cael eu gosod ar Swyddogion Canlyniadau i roi sylw dyledus i ganllawiau perthnasol yn y rheolau etholiadau ar gyfer etholiadau Cymreig yng Nghymru."*¹⁴⁵

225. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

"What our Bill does is it requires the Electoral Commission to report on what ROs did in respect of making the elections accessible for disabled voters. The requirement for them to observe the Electoral Commission guidance will follow in the conduct Order for the Senedd elections and local government

¹⁴⁵ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.57

*rules for local government elections. So, because they can be carried out through secondary legislation in our context, they're not on the Bill, but the requirement for the Electoral Commission to report on the actions taken by returning officers is."*¹⁴⁶

226. Dywedodd RNIB Cymru wrthym am eu pryder y gallai newid o'r fath wanhau hawliau cyfreithiol pobl ddall a rhannol ddall gan mai cyfrifoldeb Swyddogion Canlyniadau fydd penderfynu beth y maent yn ei ystyried yn rhesymol i helpu rhywun i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol.¹⁴⁷ Aethant ymlaen i esbonio pam eu bod yn pryderu y gallai'r newid arwain at loteri cod post o ran darpariaeth, yn dibynnu ar farn Swyddogion Canlyniadau ynghylch y mesurau sy'n cael eu hystyried yn rhesymol:

*"the change in the legislation will require a returning officer to decide how they meet the need of their electorate, so they will have to decide what equipment is reasonable to put in a polling station in order to help someone vote independently and in secret. They will be looking to the Electoral Commission's guidance to help them make this decision and unless that guidance is very comprehensive and in our view includes an audio piece of equipment and a tactile piece of equipment as a minimum standard, so an absolute minimum requirement, we do think there'll be a postcode lottery because, of course, every returning officer might have a different opinion on what's reasonable."*¹⁴⁸

227. Ychwanegodd RSPB Cymru:

"We also worry a little bit about the dialogue between returning officers and their electorate. So, we don't know how they'll be communicating with blind and partially sighted people, whether that'll be proactive, and how they'll find out what is

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 150

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 86

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 178

needed in order to ensure that they are able to vote independently and in secret.

Also, we'd want the guidance by the Electoral Commission to give plenty of detail on what pieces of equipment do help blind and partially sighted people vote independently and in secret. We don't expect returning officers to be accessibility experts. So, again, that guidance would need to be comprehensive."¹⁴⁹

228. Nododd CLILC rai o'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran sicrhau adeiladau hygyrch i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio, yn enwedig adeiladau hŷn nad oes ganddynt fynediad heb risiau neu ddrysau llydan, a'r costau cysylltiedig o'u gwneud yn hygyrch. Dywedodd y Cyngorydd David fod angen meddwl am gost a gwerth rhai o'r gwelliannau hynny, ond roedd yn cydnabod y gall gwelliannau fod yn barhaol, a fyddai'n fuddiol i gyfleusterau ac adeiladau cymunedol sy'n cael eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn.¹⁵⁰

229. Ychwanegodd y Cyngorydd Medi fod y sefyllfa yn gallu bod yn fwy heriol mewn ardaloedd gwledig lle mae llai o gyfleusterau,¹⁵¹ tra cyfeiriodd y Cyngorydd Andrew Parkhurst hefyd at y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â gwella'r hygyrchedd, ac awgrymodd y dylai unrhyw newidiadau gael eu hariannu'n llawn.¹⁵²

230. Cydnabu'r Comisiwn Etholiadol y dylai pawb allu cofrestru a bwrw eu pleidlais heb unrhyw rwystrau, ac roeddent yn cefnogi alinio darpariaethau â Deddf Etholiadau 2022, gan ddweud:

"making a system that is available to all disabled voters that they understand is going to be the same for every election is really important."

231. Croesawodd y Comisiwn Etholiadol yr hyblygrwydd y byddai gan swyddogion canlyniadau i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar eu hetholwyr, ac

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraffau 179-180

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 75

¹⁵¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 79

¹⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 77

awgrymodd y gallai'r EMB newydd fod â rôl o ran sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru.¹⁵³

232. Cytunodd WECB ag egwyddor y ddarpariaeth ond cyfeiriodd at yr heriau logistaidd o ran darparu peth o'r offer a awgrymwyd gan RNIB Cymru:

*"If you have more kit, you have to get it there, and it's a lot of things for people to administrate on a complex day. And polling stations don't often lend themselves well because they're not very big or they're not very modern, and then there's cost for usage."*¹⁵⁴

233. Ychwanegodd WECB:

*"trying to find out what that minimum set of standards is is going to be quite a task, where we meet the principle, but, equally, we have something that works."*¹⁵⁵

234. Dywedodd yr AEA wrthym am yr angen i gydbwysu defnyddio gorsafoedd pleidleisio a allai fod yn llai hygyrch yn erbyn yr angen posibl i bleidleiswyr deithio ymhellach i gyrraedd lleoliadau mwy hygyrch.¹⁵⁶

235. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a allai'r darpariaethau arwain at 'loteri cod post' o wasanaethau i bleidleiswyr anabl, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym y bydd gan yr EMB newydd rôl o ran sicrhau cysondeb arferion ledled Cymru a chydlynu arfer gorau.¹⁵⁷ Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai darparu gwasanaethau i gynorthwyo pleidleiswyr anabl yn cael ei adolygu yn dilyn etholiadau.¹⁵⁸

Ein barn ni

236. Mae'r gallu i bleidleisio yn hawl ddemocrataidd a dylai pleidleiswyr allu arfer yr hawl honno, waeth pa anabled neu amhariad sydd ganddynt. Rydym yn

¹⁵³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 294

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 295

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 296

¹⁵⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 298

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 108

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 109

cydnabod bod y system pleidleisio drwy'r post yn fodd effeithiol i unrhyw bleidleisiwr fwrw pleidlais heb orfod mynd i orsaf bleidleisio, ac rydym yn croesawu'r gwasanaeth hwnnw, ond nid yw hyn yn negyddu'r ddyletswydd ar swyddogion canlyniadau i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb. Rydym yn sylweddoli bod yn well gan rai pobl bleidleisio yn y cnawd yn eu gorsaf bleidleisio yn hytrach na thrwy'r post, a dylai'r opsiwn hwn fod ar gael iddynt. Felly, rydym yn croesawu'r gofyniad ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerir gan swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pobl ag anableddau i bleidleisio'n annibynnol, gan y dylai hyn weithredu fel catalydd iddynt roi ystyriaeth ofalus a manwl i hyn wrth baratoi ar gyfer etholiad.

237. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan RNIB Cymru sef, pe bai'n cael ei adael i swyddogion canlyniadau unigol i benderfynu pa gamau y maent yn eu hystyried yn rhesymol, y gallai fod anghysondebau mewn darpariaethau ledled Cymru. Gobeithiwn na fydd hyn yn wir. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu i fynnu bod y Comisiwn Etholiadol yn darparu canllawiau i swyddogion canlyniadau ac i swyddogion canlyniadau roi sylw dyladwy i'r canllawiau hynny. Rydym yn credu y bydd y canllawiau hyn yn allweddol. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth i weithredu'r gofynion, ond credwn y dylid cynnwys hyn ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 18. Rydym yn argymhell y dylai'r Bil gael ei wella i gynnwys gofyniad i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau yn nodi sut y dylai swyddogion canlyniadau ddarparu offer rhesymol at ddibenion galluogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol neu ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny, ac yn unol ag anghenion pleidleiswyr anabl. Dylai'r Bil nodi hefyd y byddai'n ofynnol i swyddogion canlyniadau roi sylw dyladwy i ganllawiau o'r fath.

238. Credwn, wrth baratoi canllawiau ar gyfer swyddogion canlyniadau, y dylai'r Comisiwn Etholiadol weithio ar y cyd â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl ag anableddau i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu clywed a bod y canllawiau'n darparu ar gyfer gwahanol anghenion. Dylai mai nod y canllawiau yw sicrhau bod pobl ag anableddau yn gallu pleidleisio'n annibynnol a bod dull cyson o gyflawni hyn ledled Cymru. Credwn y dylai swyddogion canlyniadau hefyd fod yn rhan o gynhyrchu'r canllawiau gan y bydd eu hymrwymiad yn hanfodol wrth gyflawni'r darpariaethau.

239. Wrth wneud darpariaethau, bydd yn hanfodol i swyddogion canlyniadau ddeall anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym yn deall y byddai'n amhosibl deall anghenion pob pleidleisiwr unigol, ond teimlwn y dylai swyddogion canlyniadau wneud pob ymdrech i estyn allan at bleidleiswyr i'w hannog i wneud eu gofynion yn hysbys.

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai swyddogion canlyniadau a rhanddeiliaid perthnasol fod yn rhan o'r gwaith o baratoi canllawiau yn ymwneud â darparu offer i alluogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol neu ei gwneud hi'n haws iddynt wneud hynny. Dylai'r canllawiau nodi y dylai swyddogion canlyniadau wneud pob ymdrech i ddeall anghenion pobl anabl ac awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn.

240. Rydym yn cydnabod yr heriau o ran sicrhau lleoliadau hygyrch addas i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio ac yn derbyn y bydd costau ynghlwm wrth addasu lleoliadau i wella eu hygyrchedd. Fodd bynnag, nid yw hwn yn fater newydd; mae hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio wedi cael sylw mewn adroddiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn deall y mater ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, ond rydym yn pryderu bod diffyg hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn parhau i fod yn rhwystr i rai wrth arfer eu hawl i bleidleisio yn bersonol.

Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

241. Ers 2011, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol yng Nghymru fonitro amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Mae cwestiynau a ffurf yr arolwg wedi'u nodi yn [Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol \(Cymru\) 2012](#), fel y'u diwygiwyd gan reoliadau pellach yn [2016](#) a [2022](#). Cynhaliwyd arolygon yn 2012, 2017 a 2022. Ar hyn o bryd, dim ond trwy reoliadau y gellir newid yr arolwg.

242. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y gall cwestiynau gael eu gofyn am rywedd, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, hil, oedran, anabled, crefydd neu gred, iechyd, addysg neu gymwysterau, cyflogaeth a gwaith fel cynghorydd, ymlyniad wrth blaid, unrhyw gysylltiad â'r trydydd sector a hyd gweithgarwch gwleidyddol.

Mae'n nodi bod "cymryd rhan yn ddewisol ac mae'r cyfraddau ymateb yn is nag yr hoffem".¹⁵⁹ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai diben yr arolwg yw:

*"deall nodweddion yr ystod eang o bobl sy'n mynd ati i geisio cael eu hethol yn gynghorwyr yn ogystal â deall sut y mae proffil y grŵp hwn yn newid dros amser. Mae'r wybodaeth a gesglir o'r arolygon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddeall effaith polisiau sydd â'r nod o ehangu cyfranogiad ym maes llywodraeth leol a chefnogi datblygu polisiau yn y dyfodol."*¹⁶⁰

243. Mae adran 26 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac yn dileu'r gofyniad am i gwestiynau a ffurf yr arolwg gael eu nodi mewn rheoliadau. Mae'n disodli hyn gyda'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar gwestiynau a ffurf yr arolwg. Mae adran 26(2)(d) yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnwys eu cwestiynau eu hunain yn yr arolwg, yn ogystal â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

244. Fel yr esbonia'r Memorandwm Esboniadol:

"Bydd yr arolwg yn cynnwys set o gwestiynau craidd a fydd yn berthnasol i gyfranogwyr ym mhob cwr o Gymru. Bydd hyn yn darparu ar gyfer cysondeb ledled Cymru ac yn galluogi cymharu ar draws y set lawn o arolygon a gynhaliwyd ers cyflwyno arolygon yn 2012. Bydd darpariaeth hefyd i awdurdodau lleol ychwanegu cwestiynau a fydd yn ceisio gwylbodaeth ynghylch mentrau lleol.

*Mae'r dull hwn yn darparu ar gyfer cysondeb ledled Cymru, parhad cyfres amser y set ddata yn ogystal â galluogi hyblygrwydd lleol."*¹⁶¹

245. Croesawodd ERS Cymru y darpariaethau, gan nodi eu cred gref nad yw'r arolwg ymgeiswyr presennol yn addas i'r diben. Mynegodd ERS Cymru bryder

¹⁵⁹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.65

¹⁶⁰ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.66

¹⁶¹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.69-3.70

am y gyfradd ymateb isel i'r arolwg, a oedd tua 12 y cant ar y cyfan yn yr etholiadau lleol yn 2022, sy'n amlwg ddim yn rhoi:

“an accurate picture of where diversity is at a local government level, and it’s a self-selecting survey. Those responses could quite likely be skewed.”¹⁶²

246. Aeth ERS Cymru ymlaen i ddweud:

“we welcome provisions in the Bill around removing those questions of the candidate survey from primary legislation. I think it’s been, frankly, quite crazy that the questions have been put in primary legislation because it makes it so difficult to amend the survey ahead of an election. [] That has led to specific delays, so amending the legislation every time has led to the survey going out late, which has then led to a low response rate.”¹⁶³

247. Clywsom y gallai newid y weithdrefn ar gyfer diwygio'r cwestiynau olygu bod yr arolwg ar gael yn gynharach, o bosibl mewn pryd i'w gynnwys mewn pecynnau ymgeiswyr. Dywedodd ERS Cymru wrthym:

“That would be the No. 1 thing for increasing take-up in that.”¹⁶⁴

248. Ychwanegodd ERS Cymru y byddai'n hoffi i ystyriaeth gael ei rhoi i annog ymgeiswyr yn rhagweithiol neu roi dyletswydd arnynt i gwblhau'r arolwg ar lefel llywodraeth leol ac ar lefel y Senedd.¹⁶⁵

249. Dywedodd y CCHD wrthym y byddai'n argymhell adolygu geiriad a fformat yr arolwg, yn enwedig ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau cydraddoldeb, gan esbonio:

“we’re concerned that removal of the requirement to set out specific wording and format could have the potential impact that not all protected characteristics would be captured by the

¹⁶² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 174

¹⁶³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 175

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 175

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 176

new format, which would actually, then, make it more difficult for you to measure the increase or decrease in diversity.”¹⁶⁶

250. Aeth y CCHD ymlaen i argymhell:

“as a minimum, the protected characteristics set out in the Equality Act 2010 are included in the survey, because we wouldn’t want to see data gaps for some protected characteristic groups.”¹⁶⁷

251. Croesawyd y darpariaethau gan CLILC, gyda’r Cynghorydd David yn dweud wrthym:

“We welcome that greater flexibility, so that we can add to some of those questions. Of course, there’ll be a set of core questions for candidates across Wales, so that will help with the consistency of data, to explore trends over time, and identify ways that we can try and improve what we do.”¹⁶⁸

252. Dywedodd RhCM Cymru wrthym y byddent yn croesawu’r hyblygrwydd o gael gwared ar union eiriad yr arolwg o ddeddfwriaeth sylfaenol, ond eu bod yn cydnabod cydbwysedd gyda’r angen i gasglu data craidd. Roeddent yn croesawu’r ymrwymiad yn y Memorandwm Esboniadol y byddai newidiadau i’r arolwg yn y dyfodol yn cael eu hadolygu gan grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cydraddoldeb.¹⁶⁹

253. Mynegodd RhCM Cymru bryder nad yw geiriad adran 26 na’r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at holi ymgeiswyr am eu profiadau o aflonyddu a chamdriniaeth, er i gefnogaeth i gynnig o’r fath gael ei lleisio mewn ymatebion i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru. Gwnaethant nodi:

“We are concerned that this presents a missed opportunity to establish a sorely needed evidence base on candidates experience of harassment and abuse, which is a major barrier to

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 253

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 254

¹⁶⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 82

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 293

elected office. It is also a missed opportunity to signal the importance and seriousness with which harassment and abuse of candidates are considered.”¹⁷⁰

254. Awgrymodd RhCM Cymru y gallai cwestiynau'r arolwg gael eu teilwra, yn dibynnu ar a oedd ymgeisydd wedi sefyll ar gyfer etholiad yn flaenorol:

“If they have, the survey could ask about their past experiences, any incidents that they have reported and if these have been resolved to their satisfaction, if they have been able to find support, and if they haven't, what support they would have liked to have had. If candidates are standing for the first time, I think some of the questions should be framed slightly differently. They could ask, for instance, if concerns about candidate abuse and harassment have featured in their deliberations about whether to stand for election or not, and also if they know what support is available if they would experience it.”¹⁷¹

255. Roeddent yn cydnabod y byddai angen i fesurau diogelu fod ar waith, gan gynnwys anhysbysrwydd llawn er mwyn diogelu gwybodaeth sensitif.¹⁷²

256. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“Whilst there isn't going to be an exclusive list of questions put forward by Ministers, it does mean that that core will allow the really important matters to not have disparity or discrepancies across the country.”¹⁷³

Ein barn ni

257. Gwnaethom ystyried Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn fanwl yn ein hymchwiliad diweddar i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol a mynegi ein pryder ynghylch y gyfradd ymateb isel. Gwnaethom gydnabod yn yr adroddiad hwnnw fod cyfraddau ymateb yn amrywio rhwng awdurdodau lleol a galw am

¹⁷⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 07 – RhCM Cymru

¹⁷¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 297

¹⁷² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 298

¹⁷³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 114

fwy o gysondeb. Argymhellwyd gennym y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda CLILC i wella'r gyfradd ymateb. Dywedon ni y dylai hyn gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r arolwg a'i hyrwyddo ymhlith ymgeiswyr a chynghorwyr, a rhannu arfer gorau rhwng awdurdodau lleol.

258. Clywsom gan randdeiliaid, drwy'r ymchwiliad hwnnw a'n gwaith craffu ar y Bil hwn, fod y weithdrefn bresennol ar gyfer diwygio cwestiynau'r arolwg yn feichus ac yn cymryd llawer o amser oherwydd yr angen i newid deddfwriaeth sylfaenol, sy'n arwain at ddsbarthu'r arolwg i ymgeiswyr yn hwyr yn y broses. Felly, rydym yn croesawu'r ddarpariaeth i ddiweddarau'r gweithdrefnau presennol fel y gellir newid y cwestiynau mewn ffordd fwy amserol.

259. Rydym hefyd yn croesawu'r newid yn y dull o gynnwys cwestiynau craidd a osodir gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r hyblygrwydd o allu cynnwys cwestiynau sy'n berthnasol i awdurdodau unigol. Dangosodd ein hymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol yr angen am ddata cenedlaethol cadarn ar amrywiaeth ymgeiswyr, felly rydym yn cytuno y bydd yn bwysig cadw'r cwestiynau craidd er mwyn asesu amrywiaeth ledled Cymru. Clywsom fod y CCHD yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn yr arolwg ac argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn wrth osod ei chwestiynau craidd. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a fynegir yn y Memorandwm Esboniadol i gynnwys grwpiau rhanddeiliaid wrth adolygu geiriad yr arolwg.

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pwysigrwydd cynnwys y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wrth osod ei chwestiynau craidd ar gyfer yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol gynnwys cwestiwn yn ymwneud â chyfrifoldebau gofalu ymgeiswyr yn y cwestiynau craidd.

260. Rydym yn cefnogi'r alwad a wnaed gan RhCM Cymru i gynnwys cwestiynau yn ymwneud â phrofiad ymgeiswyr o aflonyddu a chamdriniaeth yn yr arolwg. Roedd pwysigrwydd mynd i'r afael ag aflonyddu o'r fath yn elfen annatod arall o'n gwaith ar amrywiaeth ym maes llywodraeth leol. Mae effaith profi camdriniaeth neu aflonyddu wedi cael ei nodi ers amser maith fel rhwystr i fynd i

mewn i wleidyddiaeth, yn enwedig i fenywod a phobl â nodweddion gwarchoddedig, felly mae'n siomedig nad oes darpariaethau yn y Bil hwn yn ymwneud ag aflonyddu a chamdriniaeth. Er bod ymgeiswyr ac aelodau etholedig yn aml wedi cyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd o gamdriniaeth ac aflonyddu tuag atynt hwy eu hunain neu gydweithwyr, byddai'n ddefnyddiol cael data ansoddol i werthuso maint y broblem. Credwn y byddai cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chamdriniaeth ac aflonyddu yn yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn gyfle i ddechrau casglu'r dystiolaeth honno y mae mawr ei hangen.

Argymhelliad 22. Rydym yn argymhell y dylai'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol gynnwys cwestiynau craidd mewn perthynas â phrofiad ymgeiswyr o gamdriniaeth ac aflonyddu.

Platfform gwybodaeth i bleidleiswyr

261. Mae adran 27 yn gwneud darpariaeth ynghylch creu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

*“Un o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2020 oedd bod “diffyg gwybodaeth, meddwl bod gwleidyddiaeth yn ddryslyd ac yn anneniadol a dadrithiad cyffredinol yn rhwystrau allweddol i ymgysylltu”.*¹⁷⁴

262. Mae adran 27 yn datgan bod rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer sefydlu a gweithredu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig, a ddiffinnir fel cyfleuster electronig i roi gwybodaeth gyfredol i etholwyr am etholiadau'r Senedd, ac etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru.

263. Mae adran 27(4) yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth a ddylai fod ar gael ar y platfform, gan gynnwys “cyhoeddi datganiadau gan ymgeiswyr a gwybodaeth arall am ymgeiswyr”. Gallai rheoliadau hefyd gynnwys darpariaeth i sicrhau bod yr wybodaeth ar y platfform ar gael drwy ddulliau ac eithrio rhai electronig.

¹⁷⁴ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.71

264. Mae adran 27(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar y platfform a'i osod gerbron y Senedd, heb fod yn fwy na 12 mis ar ôl yr etholiad perthnasol.

265. Dywed y Memorandwm Esboniadol y byddai'r platfform yn gallu cynnwys gwybodaeth syml am bwerau, rôl a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth, cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o etholiadau, gan gynnwys gwybodaeth ymarferol, a darparu un pwynt mynediad i bleidleiswyr sy'n chwilio am wybodaeth.

266. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol ddiben creu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr:

"It's about making information available, giving easier access, and better information, I think, in terms of people's understanding of how to vote."¹⁷⁵

267. Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

"the key point around the elections information platform is to be this one-stop shop, where people can access information about where can they vote, when and who are the candidates before them. I think there is a growing concern about possible disinformation as people gather more of their news online. [] So I think the purpose of the elections information platform is to ensure that people know where they can go to get information that is reliable and accurate about when, where and who they can vote for."¹⁷⁶

268. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym y byddai angen paramedrau ynghylch faint o wybodaeth y gellir ei chyhoeddi ar y platfform, gan ddweud na all fod yn broses agored i bobl gyhoeddi cymaint ag y dymunant ac y byddai angen arweiniad i ymgeiswyr o ran yr hyn y gallent neu na ddylent ei gynnwys.¹⁷⁷

¹⁷⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 117

¹⁷⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 119

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 123

269. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol mai'r ymgeiswyr eu hunain a'u hasiantau fyddai'n gyfrifol am yr wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi ar y platfform gan ymgeiswyr, ond roedd yn cydnabod bod angen rhyw fath o oruchwyliaeth ac y byddai Llywodraeth Cymru am sicrhau bod yr hyn sydd yno yn gydnaws â'r canllawiau.¹⁷⁸ Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol y byddai angen dysgu'n gyflym, megis:

“how to achieve it; how to review how it is operated; and potentially how you might have to deal with circumstances that might arise where there might be those who want to abuse the system and so on. So, that, again, is the work in progress and the regulations will need to have some sort of provision for that.”¹⁷⁹

270. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym, pe bai rheoliadau'n cael eu cyflwyno, y byddent yn debygol o gynnwys disgwyliadau iaith, gan gynnwys a fyddai cyfrifoldeb ar ymgeiswyr i gyfieithu eu datganiadau.¹⁸⁰

271. Nododd Reform Political Advertising:

“The ‘voter information platform’ should carry the requirement that parties and candidates’ and third parties’ paid and unpaid publicity material is included and authenticated under a separate but connected ‘Register of Political Advertising.’¹⁸¹

272. Cafwyd galwad am gofrestr o hysbysebu gwleidyddol gan Ian Lucas hefyd, a argymhellodd hefyd y dylai fod yn ofynnol i bleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol cofrestredig adneuo copïau o hysbysebion ar gyfer cofrestr hysbysebu yn ogystal â sefydlu panel adolygu hysbysebion, fel y peilotwyd gan Reform Political Advertising. Argymhellodd Ian Lucas hefyd y dylid llunio gweithdrefn yn ymwneud â'r defnydd o hysbysebion gwleidyddol trydydd parti, a ddylai bwysu

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 135

¹⁷⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 136

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraffau 130-133

¹⁸¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 12 – Reform Political Advertising

ar gynseiliau rhyngwladol a rheoleiddio gallu ymgyrchoedd i dargedu pleidleiswyr ar sail data personol unigol.¹⁸²

273. Roedd creu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr yn cael ei gefnogi gan rai rhanddeiliaid. Dywedodd ERS Cymru eu bod yn falch iawn o weld darpariaethau ynghylch platfform gwybodaeth i bleidleiswyr o fewn y Bil. Gwnaethant nodi meysydd gwybodaeth penodol y dylai platfform eu cynnwys yn eu barn nhw:

“Registration- how to register to vote, or in the case of a rollout of automated registration, signposting on how to check if you are registered

What the election is about- e.g. what the Senedd does, how it relates to Welsh Government and the role of Members of the Senedd

Who the candidates are- linking to personal statements

The process of casting a vote- polling station locator, different voting options and what to expect in each (e.g. what to expect in a polling station and how to cast a vote there)

Where to seek advice and support- this would be particularly useful for questions about accessibility.”

274. Dywedodd ERS Cymru wrthym, er bod llawer o'r wybodaeth hon ar gael mewn mannau eraill, dylai platfform gwybodaeth i bleidleiswyr ddod â'r wybodaeth hon i gyd at ei gilydd mewn un lle.¹⁸³ Nid oedd ganddynt farn benodol am ba sefydliad ddylai fod yn gyfrifol am gynnal y platfform, ond nodasant y gallai fod yn addas i DBCC ei gynnal. Gwnaethant bwysleisio'r angen am arweiniad cryf i ymgeiswyr ar yr hyn y gallent ac na allent ei gynnwys yn eu datganiadau personol.¹⁸⁴

275. Croesawodd yr Athro Clark y ddarpariaeth i sefydlu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr, ond ychwanegodd fod angen iddo fod yn ddiddorol ac yn hawdd ei

¹⁸² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 05 – Ian Lucas

¹⁸³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 09 – ERS Cymru

¹⁸⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 144

ddefnyddio. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol i blatfform gynnwys gwybodaeth ymarferol megis dyddiadau cau cyn etholiad, sut i ddod o hyd i orsafoedd pleidleisio, gwybodaeth am y system etholiadol a chanlyniadau ar ôl yr etholiad.¹⁸⁵ O ran a ddylai platfform gynnwys datganiadau gan ymgeiswyr, dywedodd yr Athro Clark wrthym y byddai'n dibynnu ar y system etholiadol ar gyfer etholiad penodol, er enghraifft, cwestiynodd pa mor ddefnyddiol y byddent ar gyfer etholiad sy'n defnyddio system cynrychiolaeth gyfannol â rhestrau caeedig, megis y system a gynigir ar gyfer etholiadau'r Senedd ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau):

“then it’s less clear to me what those individual candidates may actually be saying in such a statement, because their ranking would be quite simply down to party nomination processes, party candidate selection processes. Voters would actually have very little role in which candidates get elected. Voters’ choice in that regard would revolve around which party they preferred, and that would effectively be it.”¹⁸⁶

276. Pwysleisiodd yr Athro Clark bwysigrwydd cadw'r wybodaeth ar blatfform yn gyfredol:

“in the run-up to an election period, this is going to be needing to be an almost live, updated quickly resource for voters. The worst thing I think that it would be is something that’s slow to be updated, and that implies a lack of responsiveness. So, voters need something that’s accessible and is going to draw them in. It could have a lot of information on it that’s useful to them, but it needs to be carefully handled in how it’s published.”¹⁸⁷

277. Mae'r Athro Toby S. James yn disgrifio'r ddarpariaeth i sefydlu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr fel cam enfawr ymlaen o ran gwella ansawdd yr wybodaeth y gellir ei darparu i ddinasyddion. Nododd:

¹⁸⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 258-259

¹⁸⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 260

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 261

“It is vital that citizens in Wales have a single website that includes:

- a. Information on candidates*
- b. Information on polling locations*
- c. Information on how to vote*
- d. Information on how to apply for postal and proxy votes*
- e. Past results of elections.”*

278. Dywedodd yr Athro James, yn ei farn ef:

“one of the main logistical barriers to the provision of such a website is that there are currently insufficient carrots and sticks for EROs and ROs to provide the necessary data to a central organisation.”

279. Argymhellodd yr Athro James y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau wneud y canlynol:

“provide the necessary information to the new Electoral Management Board including:

- a. Information on candidates*
- b. Information on polling locations*
- c. Election results immediately after the RO announcement of results, including the numbers of votes per candidate and party, the number of postal votes, and the number of rejected ballots.”*

280. Tynnodd yr Athro James sylw at rwystr logistaidd o ran nad oes unrhyw fformatau adrodd safonol ar hyn o bryd ar gyfer darparu'r data, ac awgrymodd y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i'r EMB newydd nodi'r fformatau data y mae'n ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau eu defnyddio i gyflwyno'r wybodaeth.

281. Daeth yr Athro James i'r casgliad:

“A legislative requirement is vitally important mechanism for ensuring that this project is delivered.”¹⁸⁸

282. Dywedodd RNIB Cymru wrthym y byddent yn croesawu platfform digidol ac y byddai'n ddefnyddiol i bobl ddall a rhannol ddall sy'n dibynnu ar ffynonellau gwybodaeth digidol. Gwnaethant bwysleisio y dylai'r wybodaeth fod ar gael mewn fformatau sain ac y dylai'r platfform gydymffurfio â safonau hygyrchedd y we a darllenwyr sgrin. Awgrymodd RNIB hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r platfform yn cynnwys gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl mewn gorsaf bleidleisio a pha gymorth ac offer sydd ar gael.¹⁸⁹

283. Dywedodd Anabledd Cymru wrthym y gallai platfform gwybodaeth fod yn adnodd defnyddiol iawn, ond pwysleisio nhw hefyd yr angen i fformatau hygyrch fod ar gael, gan gynnwys fideo Iaith Arwyddion Prydain, fersiwn hawdd ei deall a chopi caled. Roeddent yn galw am i'r platfform gael ei ddatblygu'n agos gyda phobl anabl.¹⁹⁰

284. Dywedodd Dr Christine Huebner wrthym fod pobl ifanc yn gwerthfawrogi cael edrych ar wybodaeth am eu hymgeiswyr lleol a rhaglenni'r pleidiau, ac awgrymodd y byddai platfform yn ddefnyddiol iawn iddynt.¹⁹¹ Ychwanegodd Dr Huebner fod rhai o wledydd Ewrop yn gweld defnydd enfawr o blatfformau gwybodaeth i bleidleiswyr a dywedodd:

“one of the key principles is that the voter information platform should be hosted by a trustworthy source, that voters know that that information is the kind of information they're looking for and that they can trust.”¹⁹²

285. Cwestiynodd CLILC yr angen am blatfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Dywedodd y Cyngorydd Medi wrthym:

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 06 – Yr Athro Toby S James

¹⁸⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraffau 185-186

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 188

¹⁹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 28

¹⁹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraffau 31-33

“dydyn ni ddim yn gweld pa werth ychwanegol mae o’n mynd i roi oherwydd ein bod ni’n gweld rŵan fod y candidates eu hunain yn gallu ymgysylltu llawer gwell efo’r etholwyr nag ydy’r broses yna o’i roi o ar y wefan. Ac mae o’n broses reit lafurus hefyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sy’n cael ei rhoi i fyny yn gwbl gywir a bod y prosesau’n iawn, ac mae yna bosibilrwydd yna— mae yna rhyw room for error posib yna hefyd.”¹⁹³

286. Aeth y Cynghorydd Medi ymlaen i ddweud:

“os ydy’r bobl efo wir ddiddordeb maen nhw’n ffeindio’r wybodaeth beth bynnag, oherwydd mae cyfryngau cymdeithasol wedi mynd mor accessible ac mae ymgeiswyr wedi mynd yn andros o accessible. Dwi’n meddwl y peth pwysicaf i ni ydy codi ymwybyddiaeth bod yna etholiad ymlaen a bod angen iddyn nhw fod wedi cofrestru a’u bod nhw’n barod i bleidleisio ac yn y blaen, a hyrwyddo yr elfen o fynd allan i bleidleisio yn ddemocrataidd ddylen ni fod yn ei wneud, a dylai’r ymgeiswyr, wedyn, eu hunain sicrhau— .”¹⁹⁴

287. Gwnaeth y Cynghorwyr Medi a David hefyd godi pryderon ynghylch sicrhau cywirdeb yr wybodaeth sy’n cael ei chyhoeddi ar blatfform.¹⁹⁵

288. Cafodd yr angen am blatfform gwybodaeth i bleidleiswyr ei gwestiynu hefyd gan WECB a pham mae angen deddfu ar gyfer ei greu. Dywedon nhw wrthym:

“we would question the need for this. And again, unless people know it’s there, even if they want it, how are they going to access it? So, it’s the same challenge as any other website. So, we would question its benefit cost per person.”¹⁹⁶

¹⁹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 62

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 66

¹⁹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraffau 64 a 66

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 310

289. Cyfeiriodd WECB at blatfform a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, ond gwnaethant nodi ei fod yn ymdrin â niferoedd is o ymgeiswyr. Dywedon nhw wrthym na ellid ei ddyblygu ar raddfa fawr. Gwnaethant nodi hefyd fod y defnydd o'r wefan honno a cheisiadau am fersiynau printiedig o'r wybodaeth yn isel iawn.¹⁹⁷ Cefnogwyd y safbwyntiau a fynegwyd gan WECB gan yr AEA.¹⁹⁸

290. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym:

*"if there were to be an online platform, it would need to be developed in a way that doesn't duplicate the commission's existing statutory duties around voter awareness and information."*¹⁹⁹

291. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn credu bod angen darpariaeth ddeddfwriaethol i sefydlu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr gan ei fod yn ei gwneud hi'n glir iawn bod angen platfform o'r fath ac yn nodi sut y bydd yn gweithredu ei hun mewn gwirionedd.²⁰⁰ Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o blatfform:

*"it has to be publicised, people need to know— that there's the awareness of it, that it actually contains what is actually wanted within it."*²⁰¹

292. Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru, oherwydd rhesymau capasiti a'r nifer uchel o ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau cynghorau tref a chymuned, na fyddai platfform gwybodaeth i bleidleiswyr ond yn cadw datganiadau ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau prif gynghorau yn y lle cyntaf. Byddai'r Bil yn caniatáu ehangu'r platfform i gynnwys datganiadau yn ymwneud ag ymgeiswyr cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol.²⁰²

¹⁹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 315

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 318

¹⁹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 321

²⁰⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 143

²⁰¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 145

²⁰² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 153

Cynnal platfform gwybodaeth

293. Er nad yw wedi'i nodi ar wyneb y Bil, dywedwyd wrthym mai bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r platfform gael ei gynnal gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol.²⁰³ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

*"bydd y rheoliadau'n nodi'n fanwl yr hyn y bydd gofyn iddynt ei gyflawni."*²⁰⁴

294. Mewn llythyr i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"Rydym o'r farn bod yr EMB yn debygol o fod yn westeiwr naturiol ar gyfer y platfform, fodd bynnag, nid yw'r EMB wedi'i sefydlu eto ac felly dylem gadw mewn cof y posibilrwydd na fydd yr EMB yn gallu cynnal y platfform, neu o well dewis arall yn cael ei nodi. O ystyried y bydd y gwesteiwr yn cael ei nodi yn y rheoliadau a wneir o dan adran 27, mae'n anochel y bydd y Senedd yn ystyried y gwesteiwr pan fydd yn ystyried y rheoliadau hynny.

*Mae'r Bil wedi'i ddrافتio i'w gwneud yn glir y byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am sicrhau cynaliadwyedd unrhyw blatfform. Mae lle i westeiwr y platfform gael ei ailystyried yn y dyfodol, gan ystyried yr amgylchedd technolegol sy'n symud yn gyflym, y cyfle i ddysgu gwersi o brofiad, a barn yr EMB ei hun unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Mae'r darpariaethau felly'n darparu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gwersi o werthusiadau etholiadau, tra'n sicrhau bod platfform yn cael ei ddarparu."*²⁰⁵

295. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu amcangyfrif o ofynion capasiti ac adnoddau'r EMB i gynnal platfform:

²⁰³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 122

²⁰⁴ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.122

²⁰⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Ionawr 2024, LJC(6)-01-24 [Papur.24](#).

“Bydd angen cynnal ymarfer i nodi'r capasiti priodol yn y Bwrdd Rheoli Etholiadol i reoli'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r llwyfan gwybodaeth. Fodd bynnag, credwn y byddai angen i adnoddau yn y Comisiwn ddarparu ar gyfer rheolwr contract/cynnwys (SEO cyfwerth ag amser llawn ar £66,364 cost gros cyfartalog blynyddol), a dadansoddwr busnes (G7 cyfwerth ag amser llawn yn £86,731 cost gros cyfartalog blynyddol). Rhagwelir y byddai'r staff hyn hefyd yn darparu cymorth caffael. Mae'n debygol y bydd yr adnoddau a ddefnyddir gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith yn ogystal â'r llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr. Byddai hyn yn cydbwysu yn erbyn capasiti staff eraill sydd ei angen i ddarparu'r llwyfan, fel gweinyddu a chyfathrebu.”²⁰⁶

296. O ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynnal plattform, dywedodd WECB wrthym y gallai EMB ffurfiol o bosibl gynnal plattform ymwybyddiaeth y cyhoedd, ond roedd yn gwrthwynebu'n gryf yr EMB yn cynnal datganiadau ymgeiswyr. Dywedodd wrthym:

“It would be impossible, and I'm not dramatising this, for electoral administrators to be able to receive, check for compliance— there would have to be checking for compliance on the size of the statement, its truthfulness and particularly that it didn't breach any law for rules, for defamation for example, because some candidates like to talk openly about others. It would be impossible, particularly in a local election, when you have such a tight timescale, with lots of nominations coming in quite close to the wire, when you're fielding hundreds of community and principal council candidates. It's impossible; we'd say 'no', we couldn't do it. And if this goes ahead, it will need, in our view, to be a self-posting system, hosted probably nationally by a.n.other, and not a requirement. Because, if it's a requirement, theoretically, somebody not

²⁰⁶ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.126

producing a statement in good time that is compliant, would then have to have their nomination disqualified.”²⁰⁷

297. Dywedodd LDBCW eu bod yn credu y byddai'r EMB yn sefydliad synhwyrol i gynnal platform. Dywedon nhw wrthym:

“We would have the resources, the staffing structure, to do the updates, to carry out the work that’s needed to maintain that platform. We’ve already got links as an organisation to electoral registration officers, so, when they’re dealing with candidates, there’s already a pathway that’s there. I’m not sure where else or which other body would hold it and provide that level of support, because I think it would make sense for it to go along with the electoral management board.”²⁰⁸

298. Roeddent yn cydnabod y byddai angen llawer o waith cynllunio, ond dywedon nhw:

“As an organisation, we’re used to bumping up operations and then slowing down, when we’ve had to do peaks and troughs of work. I think the challenge with holding that much information is that it will always be a challenge, regardless of who holds that information. We’re used to dealing with electoral data, so there is an element of integrity and strength in terms of how we manage our data. [] Whoever ends up with the voter information platform, they will have to work very closely with the EMB, with electoral administrators, on how that is managed. You’ll have very busy periods, obviously, in the run-up to elections, so we could scale up operations then in order to support the information that’s going to be put on the voter information platform.”²⁰⁹

²⁰⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 313

²⁰⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 136

²⁰⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 141

299. Cydnabu un o swyddogion Llywodraeth Cymru, wrth ystyried pwy ddylai gynnal plattform:

“independence is really important, which is why the EMB is our first choice of host for this platform, and we’ve worked through the process of understanding the amount of resource required when we were doing the policy development around the EMB. The intention then, of course, would be to supply guidance to any candidates and agents around how to complete a candidate statement.”

300. Cadarnhaodd y swyddog hefyd:

“the candidates will be responsible for the content of those statements themselves. Support would be given through the EMB, around managing the process of the statements, but, ultimately, that responsibility would sit with the candidate.”²¹⁰

Ein barn ni

301. Nodwn y cafwyd ymateb cymysg gan randdeiliaid ar y darpariaethau i sefydlu plattform gwybodaeth i bleidleiswyr - mae wedi cael croeso cynnes gan rai tra bod eraill wedi cwestiynu'r angen amdano. Mae'n hanfodol bod gan bleidleiswyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn etholiadau, nid yn unig am yr ymgeiswyr y gallant bleidleisio drostynt, ond hefyd am y broses bleidleisio. Rydym yn cydnabod nad yw'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau Cymreig wedi bod mor uchel ag yr hoffem ei weld, felly os bydd creu plattform lle gall pobl gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn eu grymuso i bleidleisio, byddai hyn yn ganlyniad i'w groesawu. Mae llawer o'r wybodaeth a argymhellir i'w chynnwys ar blatfform eisoes ar gael, ond rydym ar ddeall y gallai dod â'r wybodaeth hon at ei gilydd ar un plattform fod yn ddefnyddiol. At hynny, gan y dylai'r darpariaethau yn y Bil hwn ynghylch cofrestru awtomatig arwain at bobl yn pleidleisio am y tro cyntaf, byddai creu plattform lle gallant gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ddefnyddiol.

²¹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 156

302. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael ar y platfform yn gyfredol ac yn gyflawn yn hanfodol, gan na fydd darparu gwybodaeth sydd wedi dyddio neu wybodaeth anghyflawn o unrhyw fudd, a gallai arwain at ddiffyg ymddiriedaeth. Bydd sicrhau bod y platfform yn cael ei ddiweddarau yn her, yn enwedig yn y cyfnod cyn etholiad pan allai gwybodaeth newydd gael ei derbyn yn ddyddiol, a gallai fod yn swydd lawn amser.

303. Rydym wedi clywed llawer o awgrymiadau ynghylch y mathau o wybodaeth a ddylai fod ar gael ar blatfform gwybodaeth. Rydym yn sylweddoli y bydd y manylion hyn yn cael eu nodi mewn rheoliadau maes o law ond, er mwyn bod yn effeithiol, credwn y dylai platfform gynnwys yr holl wybodaeth ymarferol y mae angen i bleidleiswyr ei gwybod cyn etholiad. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y broses gofrestru, sut i wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy a'r dyddiadau cau ar gyfer gwneud hynny, y math o etholiad sy'n cael ei gynnal a'r system bleidleisio, sut i ddod o hyd i'ch gorsaf bleidleisio a sut i gael cymorth i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Credwn y dylai canlyniadau etholiadau gael eu cyhoeddi ar y platfform gwybodaeth cyn gynted ag y byddant ar gael.

304. Credwn fod sicrhau hygyrchedd platfform yn un o'r ffactorau pwysicaf i ganolbwyntio arno; mae'n hanfodol bod yr wybodaeth ar gael i bawb sydd ei hangen. Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau hyn yw cynnwys amrywiaeth o sefydliadau yn y gwaith o ddatblygu'r platfform. Dylai hyn fod yn ddull cydweithredol i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ym mhob fformat hygyrch. Rydym yn falch bod y Bil yn darparu copïau caled o wybodaeth, yn ogystal â phlatfform ar-lein; credwn fod hon yn ddarpariaeth bwysig i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

305. Clywsom y byddai'r gofynion iaith ar gyfer platfform yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Rydym yn deall y byddai'n well gan lawer o bobl dderbyn gwybodaeth o'r fath yn y Gymraeg, felly bydd yn bwysig bod hyn yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau.

Argymhelliad 23. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei ddefnyddio i ddylunio'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Dylai hyn gynnwys cyfraniad rhanddeiliaid perthnasol

i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn fformatau hygyrch.

306. Credwn hefyd y bydd codi ymwybyddiaeth o blatfform o'r fath yn hanfodol, a chydabuwyd hynny gan y Cwnsler Cyffredinol. Ni fydd dylunio platfform newydd a chyhoeddi'r wybodaeth yn fawr o fudd, os o gwbl, os nad yw'r etholwyr yn ymwybodol o'i fodolaeth. Os deddfir y darpariaethau, bydd ymgyrch eang i godi ymwybyddiaeth o'r platfform yn hanfodol. Os mai un o amcanion y platfform yw grymuso pobl i bleidleisio, yn enwedig pleidleiswyr tro cyntaf, bydd angen adnoddau sylweddol i ariannu ymgyrch o'r fath. Nid ydym yn glir a yw costau codi ymwybyddiaeth wedi'u cynnwys yn y costau cysylltiedig a gyhoeddwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol; bydd angen gwneud y rhain yn glir pe bai rheoliadau'n cael eu cyflwyno. Rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Bil, ac rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwnnw.

307. Rydym yn cydnabod bod y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â chyhoeddi datganiadau ymgeiswyr yn gymysg. Rydym yn deall egwyddor ymgeiswyr yn cyhoeddi datganiadau i hysbysu pleidleiswyr am eu blaenoriaethau, a chredwn y gallai hyn fod yn ychwanegiad buddiol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd ynghylch sicrhau cywirdeb yn yr wybodaeth a gyhoeddir. Rydym yn croesawu cadarnhad y Cwnsler Cyffredinol mai cyfrifoldeb yr ymgeiswyr eu hunain a'u hasiantau fydd sicrhau cywirdeb, ond rydym yn pryderu y gallai rhywfaint o atebolrwydd hefyd ddisgyn ar westeiwr y platfform pe bai unrhyw ddeunyddiau difenwol neu enllibus yn cael eu cyhoeddi. Mae'n amlwg bod hwn yn faes lle mae angen rhagor o waith, a chydabuwyd hynny gan y Cwnsler Cyffredinol.

Argymhelliad 24. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i gyflawni gwaith pellach i ystyried atebolrwydd cyfreithiol y ddau ymgeisydd a gwesteiwr y platfform mewn perthynas â datganiadau a gyhoeddir ar y platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Rhaid egluro hyn cyn lansiad y platfform.

308. Credwn y bydd angen canllawiau cadarn ar gyfer ymgeiswyr a gwesteiwr y platfform. Byddai bod yn gyfrifol am wirio nad yw datganiadau'n enllibus nac yn

ddifenwol yn rôl heriol i westeiwr y platfform, ond yn enwedig yn y cyfnod cyn etholiad pan fyddai o dan bwysau i gyhoeddi llawer iawn o wybodaeth cyn gynted â phosibl. Felly, rhaid i ganllawiau fod yn gadarn ac yn glir er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gyhoeddi yn gallu gwneud penderfyniadau cytbwys, heb effeithio ar hawliau dynol ymgeisydd i gynnwys y manylion y mae'n dymuno eu cynnwys.

309. Rydym yn croesawu'r eglurder ar yr amod na fyddai'r gofyniad i gyhoeddi datganiad, i gychwyn o leiaf, yn cynnwys ymgeiswyr mewn etholiadau cynghorau tref a chymuned. O ystyried y nifer uchel o ymgeiswyr yn yr etholiadau hynny, rydym yn cydnabod y byddai'r dasg o gyhoeddi datganiad ar gyfer pob un yn her sylweddol i'r gwesteiwr. Rydym yn cydnabod bod y ddarpariaeth yno i ymestyn y gofyniad yn y dyfodol.

310. Er ein bod yn deall y gallai gwybodaeth am ymgeiswyr unigol sy'n sefyll mewn etholiadau i brif gynghorau fod o fudd i bleidleiswyr, nodwn yr awgrym y gallai datganiadau personol fod yn llai defnyddiol mewn etholiadau sy'n defnyddio rhestr gaeedig o ymgeiswyr. Byddai darpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), pe bai'n cael ei basio, yn newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd i system o'r fath mewn pryd ar gyfer etholiad 2026. Felly credwn, ar gyfer etholiadau o'r fath, dylai datganiadau a gyhoeddir gan bleidiau gwleidyddol gael eu cynnwys ar y platfform gwybodaeth. Rydym yn cydnabod y gallai datganiadau ymgeiswyr fod yn fuddiol mewn etholiadau rhestrau caeedig o hyd, ac y gallent helpu i lywio penderfyniadau pobl ar ba bleidiau gwleidyddol i bleidleisio drostynt.

311. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd cynnal platfform gwybodaeth i bleidleiswyr yn gyfrifoldeb sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ei bod yn credu mai'r bwrdd rheoli etholiadol statudol newydd ddylai fod yn gyfrifol am hyn, ond y byddai'n bosibl symud y cyfrifoldeb pe bai gwesteiwr arall yn cael ei nodi. Er gwaethaf nodi ffafriaeth i'r EMB gynnal y platfform, nid yw hyn wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil, ac rydym yn deall rhesymeg y Cwnsler Cyffredinol dros hyn.

312. Rydym wedi clywed dadleuon o blaid ac yn erbyn platfform yn cael ei gynnal gan yr EMB. Ar ôl clywed y ddwy ochr, nid ydym wedi dod i gasgliad ai'r EMB fyddai'r gwesteiwr mwyaf priodol, ond credwn y dylai'r gwesteiwr fod yn

gorff annibynnol er mwyn cynnal uniondeb y platfform. Bydd pwysigrwydd dangos annibyniaeth yn hanfodol, yn enwedig os bydd y corff yn gyfrifol am blismona'r platfform a'r math o wybodaeth y gellir ei chynnwys mewn datganiadau ymgeiswyr. Ein pryder yw, os yw'r platfform i gael ei gynnal gan gorff a noddir gan y llywodraeth, y gallai'r cyhoedd ystyried nad yw'n annibynnol yng ngwir ystyr y gair, yn enwedig pe bai angen iddo gymryd camau i ddileu datganiad ymgeisydd a gyhoeddwyd gan un o'r gwrthbleidiau neu un o'u gwleidyddion. Hyd yn oed os yw'r corff yn gweithredu gydag uniondeb a'r bwriadau gorau, gallai'r canfyddiad posibl o ragfarn a diffyg annibyniaeth olygu bod hyder y cyhoedd yn y corff yn cael ei danseilio o'r cychwyn cyntaf.

313. Nid ydym yn tanamcangyfrif yr heriau y gallai'r corff cynnal eu hwynebu yn y cyfnod cyn cyfnod etholiad. Byddai hon yn rôl heriol lle gall staff fod o dan bwysau sylweddol i gyhoeddi gwybodaeth yn gywir. Clywsom gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ar eu newydd wedd fel Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, eu bod yn credu y bydd ganddynt yr adnoddau a'r capasiti i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Fodd bynnag, clywsom hefyd apêl gref gan Fwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru y dylid rhoi'r cyfrifoldeb ar gorff arall. Mae hwn yn amlwg yn fater sydd angen ystyriaeth bellach a manwl. Pwy bynnag sy'n cymryd cyfrifoldeb am blatfform, bydd yn hanfodol eu bod yn derbyn yr adnoddau, y gefnogaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau hyn.

Hyrwyddo amrywiaeth pobl sy'n ceisio cael swyddi etholedig

314. Mae adran 28 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwasanaethau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth o ran nodweddion gwarchoddedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pobl sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd ac i lywodraeth leol. Mae'r ddyletswydd yn nodi bod rhaid i Weinidogion ystyried a oes grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn y Senedd neu mewn cynghorau yng Nghymru. Rhaid iddynt hefyd ystyried dymunoldeb lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

315. Mae adran 28(3) yn datgan, at ddibenion y Bil, fod rhaid ystyried grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy gyfeirio at y boblogaeth a wasanaethir gan y corff dan sylw.

316. Mae adran 28(5) yn darparu enghreifftiau o'r gwasanaethau y mae'n rhaid i Weinidogion wneud trefniadau ar eu cyfer o ran hyrwyddo amrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, coetsio a hyfforddiant, profiad gwaith, offer a chymorth gyda thasgau.

317. Gall darparu gwasanaethau gynnwys cymorth ariannol i unigolion yn uniongyrchol neu gymorth ariannol i bobl sy'n darparu gwasanaethau perthnasol i eraill.

318. Mae adran 28(6) yn sicrhau na all Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynghylch mynediad unigolion penodol at wasanaethau. Dywed y Memorandwm Esboniadol y bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau'n gweithredu mewn ffordd wleidyddol niwtral.

319. Mae adran 28(11) yn datgan bod gan nodweddion gwarchoddedig yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

320. Croesawodd Anabledd Cymru y darpariaethau yn adran 28, yn enwedig bod dyletswydd benodol ar waith. Roeddent hefyd yn croesawu cynnwys y ddarpariaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol ar gyfer cefnogaeth. Gwnaethant awgrymu mai cynllun addas fyddai rhwydwaith o wleidyddion anabl a darpar wleidyddion anabl yn ymgysylltu â'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd.²¹¹

321. Roedd y CCHD yn croesawu cynnwys lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol:

"Socioeconomic circumstances can often be a barrier, so the fact that it's reflecting those new obligations under the socioeconomic duty is welcomed."²¹²

322. Pwysleisiodd y CCHD bwysigrwydd bod trefniadau'n dryloyw ac yn wleidyddol niwtral, a dywedon nhw fod angen eglurder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth.²¹³ Roeddent yn cydnabod yr heriau wrth

²¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 159

²¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 233

²¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 234

asesu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, ond yn awgrymu defnyddio data'r boblogaeth fel sail.²¹⁴ Dywedodd y CCHD wrthym:

*"We know people from socioeconomically disadvantaged backgrounds are less likely to be digitally connected, they're less likely to have disposable income, so, when we're looking at how much it costs to run a campaign, for example, there might need to be those financial considerations put into it. I think that having some practical sessions to encourage people from socioeconomically disadvantaged backgrounds to stand would be good."*²¹⁵

323. Soniodd RhCM Cymru am yr angen am ymrwymïadau clir ac amserlenni clir ar gyfer darparu'r cymorth, a dywedon nhw wrthym:

*"many of these measures will really take time to make a difference, but we do need them to make a difference before the next election. If we do not get this right, in time before the Senedd is expanded, when those additional seats are coming up for the first time, it might be a lot harder to correct it in the future."*²¹⁶

324. Roeddent yn croesawu cynnwys y gwasanaethau a restrir o dan adran 28(5), ond roeddent yn mynegi pryder nad oedd y rhestr yn cynnwys cymorth i ddelio ag aflonyddu a chamdriniaeth a chymorth gyda chyfrifoldebau gofalu, gan nodi mai dyma ddau o'r prif rwystrau y mae menywod yn arbennig yn eu hwynebu. Cafwyd galwad ganddynt i gynnwys hyfforddiant i ymgeiswyr ar faterion megis sut i gadw eu hunain yn ddiogel, hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol a hyfforddiant gwyliwr gweithredol, y dywedon nhw y byddai'n anfon:

*"a powerful message that the Welsh Government recognises it and is committed to doing something about it."*²¹⁷

²¹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 237

²¹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 244

²¹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 315

²¹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 317-318

325. Nododd ERS Cymru y byddai angen data cadarn i gyflwyno'r darpariaethau'n effeithiol:

“one of the big things that's going to contribute to the effective delivery of section 28 of the legislation is having effective data, and there is a question, I think, about socioeconomic circumstances, and what data you can actually gather around that. But, I think, more broadly, having more effective data in place will allow Ministers to understand where particular gaps lie, and whether the interventions they are making are actually effective or not.”²¹⁸

Ein barn ni

326. Rydym yn croesawu'r darpariaethau yn adran 28 i hyrwyddo amrywiaeth pobl sy'n ceisio swydd etholedig. Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad diweddar ar amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, credwn fod cynlluniau megis cynlluniau mentora yn darparu cyfleoedd i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fagu hyder, cael hyfforddiant a chysylltu â modelau rôl. Rydym yn sylweddoli na fydd pob unigolyn sy'n cael ei fentora yn dymuno sefyll mewn etholiad, ond bydd cynlluniau o'r fath yn helpu i hysbysu, cefnogi a, gobeithio, ysbrydoli llawer i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Felly, rydym yn falch o weld bod y rhestr o wasanaethau y gellir eu darparu i gynyddu amrywiaeth yn cynnwys pob math o gymorth, gan gynnwys cynnig gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, coetsio a mentora, profiad gwaith, offer a chymorth gyda thasgau.

327. Fel y nodwyd gennym hefyd yn yr adroddiad hwnnw, trist oedd clywed bod Chwarae Teg wedi cau. Gwnaeth Chwarae Teg gyfraniad sylweddol dros nifer o flynyddoedd wrth ddatblygu a rhedeg cynlluniau mentora a hyfforddi, a gwnaethom nodi ein pryder am yr effaith y mae cau'r sefydliad hwn yn debygol o'i chael ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau yn y dyfodol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru asesu'r capasiti ar draws sectorau i gyflwyno cynlluniau

²¹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 163

mentora a chymryd camau i sicrhau bod bylchau sy'n deillio o gau Chwarae Teg yn cael eu llenwi'n gyflym.

328. Rydym yn falch bod yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru a nodwn o ymateb y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal i asesu effaith Chwarae Teg yn rhoi'r gorau i weithredu. Rydym hefyd yn nodi o'r ymateb hwnnw bod Llywodraeth Cymru, drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, yn darparu cyllid i'r rhaglen fentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal. O ystyried y darpariaethau yn y Bil hwn, credwn y bydd yn bwysicach fyth gweithio gyda sefydliadau sy'n gallu darparu'r gwasanaethau a amlinellir ac i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau priodol i wneud hynny. Mae cau Chwarae Teg wedi dangos yr angen am gyllid digonol i sicrhau cynaliadwyedd sefydliadau o'r fath.

329. Rydym yn cefnogi cynnwys y gwasanaethau a restrir yn adran 28(5) ac yn cydnabod y gall pob elfen wneud cyfraniad pwysig at gynorthwyo pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll etholiad. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan RhCM Cymru nad yw darpariaethau i gefnogi pobl sy'n delio ag aflonyddu a chamdriniaeth wedi'u cynnwys.

330. Yn ein hadroddiad ar amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, roeddem yn falch o glywed am ragor o gymorth ac arweiniad i gynghorwyr ar fynd i'r afael â chamdriniaeth ac aflonyddu ar-lein, yn ogystal â modiwlau e-ddysgu megis ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom nodi nad oeddem yn glir ynghylch a yw cymorth ac arweiniad o'r fath yn cael eu darparu i ymgeiswyr yn ogystal ag i gynghorwyr etholedig. Credwn fod hyfforddiant o'r fath yn hanfodol i rymuso mwy o bobl o grwpiau amrywiol i sefyll mewn etholiad. Gwyddom fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater o gamdriniaeth ac aflonyddu mewn gwleidyddiaeth, a chredwn y byddai cynnwys hyfforddiant penodol fel gwasanaeth ar wyneb y Bil hwn yn dangos yr ymrwymiad hwn.

Argymhelliad 25. Rydym yn argymhell y dylid cynnwys hyfforddiant penodol i gynorthwyo grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddelio â chamdriniaeth ac aflonyddu yn y gwasanaethau a restrir yn adran 28(5).

331. Rydym yn croesawu cynnwys amgylchiadau economaidd-gymdeithasol unigolyn yn ogystal â'r nodweddion gwarchoddedig yn yr adran hon. Credwn ei

bod yn hanfodol bod mwy o bobl o gefndiroedd difreintiedig yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a chymdeithas ddinesig ehangach.

332. Rydym yn cydnabod, er mwyn deall yn iawn yr amrywiaeth o bobl sy'n sefyll mewn etholiad yng Nghymru, fod angen data gwell. Heb ddata gwell, bydd yn anodd i Weinidogion Cymru asesu'n gywir pa grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ymhlith Aelodau o'r Senedd a chynghorau Cymru. Roedd y diffyg data hwn yn amlwg yn ystod ein hymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol. Gobeithiwn y bydd y newidiadau arfaethedig i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn arwain at gyfraddau ymateb uwch gan fod yr wybodaeth hon yn hanfodol os yw gwasanaethau i gynyddu amrywiaeth am gael eu targedu'n effeithiol.

Cynlluniau Cymorth Ariannol

333. Byddai adrannau 29-31 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr mewn etholiadau Cymreig sydd â nodweddion penodedig i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan.

334. Cafodd peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru [ei gyflwyno ar 15 Chwefror 2021](#), i ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Agorodd yr ail gam ym mis Hydref 2021, ac roedd wedi'i dargedu'n benodol i gefnogi ymgeiswyr anabl yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Cafodd y gronfa ei darparu gan Anabledd Cymru a'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y peilot 21 o ymgeiswyr, gyda chwech wedi'u hethol i gynghorau cymuned.

335. Roedd ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig bresennol wedi'i gynnwys yn [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru](#). Cyhoeddwyd [Adolygiad o Beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru](#) ym mis Gorffennaf 2023.

336. Daeth yr Adolygiad o'r gronfa i'r casgliad ei bod wedi'i gweithredu'n llwyddiannus. Dywedodd yr Adolygiad:

“rhoddodd y peilot ddarpariaeth galluogi i'r rhai a ymgeisiodd, gan olygu y byddent wedi gallu canfasio'n fwy effeithiol nag y

byddent fel arall. [...] Dywedwyd bod y broses ymgeisio yn un syml a chanmolwyd y ddarpariaeth gan Anabledd Cymru pan oedd ei angen yn fawr.”

337. Argymhellodd yr Adolygiad y dylid sicrhau bod darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n sefyll mewn etholiad yng Nghymru ar gael yn y dyfodol. Argymhellodd na ddylai'r gronfa fod yn rhywbeth ar wahân, ac y dylid ymestyn y pecyn ehangach i unigolion â nodweddion gwarchoddedig eraill.

338. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

“bod yr amcan polisi ehangach yn golygu bod angen dull gwahanol drwy greu dyletswydd statudol drosfwaol a roddir ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith sydd â'r nod o wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a Llywodraeth Leol gan ddarparu cymorth i gael gwared â'r rhwystrau i gymryd rhan.”²¹⁹

339. Mae'r Bil yn cynnwys gwahanol ddarpariaethau ar gyfer cynllun ariannol sy'n cefnogi ymgeiswyr anabl, ac ar gyfer cynllun ariannol i roi cymorth i ymgeiswyr sydd â nodweddion penodedig neu amgylchiadau penodedig. Mae adran 29(2) yn datgan bod rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliad, sefydlu cynllun ar gyfer ymgeiswyr anabl ond mae adran 29(1) yn dweud y caiff Gweinidogion gyflwyno cynllun ar gyfer ymgeiswyr eraill. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod rhai pryderon wedi'u codi yn y Papur Gwyn ynghylch sut y byddai meini prawf yn cael eu ffurfio ar gyfer grwpiau â nodweddion penodedig, heblaw'r rhai sy'n anabl. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi amserlen ar gyfer cyflwyno'r naill fath o gynllun neu'r llall.

340. Mae adran 29(13) yn diffinio anabledd fel:

“bod ag amhariad corfforol, meddyliol neu ddeallusol neu amhariad ar y synhwyrau (gan gynnwys amhariad dros dro) a all, mewn rhyngweithiad ag unrhyw rwystr, atal y person rhag

²¹⁹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.86

cymryd rhan lawn ac effeithiol mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill.”

341. Mae adran 30 yn darparu rhestr o bobl sydd wedi'u heithrio o'r gronfa, gan gynnwys Aelod o'r Senedd a swyddogion llywodraeth leol etholedig.

342. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod rhaid i gynlluniau ariannu fod â ffocws a bod â'r nod o hyrwyddo hygyrchedd; dywedodd fod y darpariaethau yn adran 29 yn canolbwyntio'n fawr ar anabled. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol:

“There is scope within the regulations there to broaden that out, but it does need to be very specific.”²²⁰

343. Mewn llythyr i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

“Mae adran 29(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cynlluniau eraill o'r fath ar waith pan fo tystiolaeth yn nodi rhwystrau rhag costau ychwanegol a brofir gan unigolion o grŵp penodol o bersonau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n eu hatal rhag sefyll am swydd etholedig.

Mae adran 29(8) yn darparu i Weinidogion Cymru nodi'r trefniadau manwl ar gyfer pob cynllun cymorth ariannol ar wahân gan gynnwys y rhai sydd i weinyddu'r cynllun, cydrannau'r cynllun a'r trefniadau adrodd sy'n ofynnol at ddibenion archwilio. Gan y bydd cynlluniau unigol yn targedu rhwystrau gwahanol rhag cymryd rhan, mae'n briodol bod y manylion wedi'u nodi mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Bydd hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod manylion pob cynllun yn sail

²²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 159

*i'w ddiben ac yn galluogi
cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd.”²²¹*

344. Cydnabu un o swyddogion Llywodraeth Cymru bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ar yr adeg gywir:

“I think that the point of it isn't so that people who are already thinking about standing for election who are disabled get the support, it's that people who are disabled are more likely to think about standing for election. So, I think a big piece of work that would accompany the detail that would be in the regulation will be raising awareness through our networks.”²²²

345. Dywedodd Anabledd Cymru eu bod yn falch iawn o weld y darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl yn y Bil. Gwnaethant gyfeirio at adborth a dderbyniwyd gan ymgeiswyr a fu'n rhan o'r cynllun a beilotwyd cyn etholiadau'r Senedd yn 2021 a'r etholiadau llywodraeth leol yn 2022:

“In terms of some of the feedback that we've had on the access to elected office fund, after it was launched in February 2021, of the two candidates the funding was made available to for the Senedd elections, one told us that the availability of the fund played a significant role in their decision to stand. That kind of feedback was also reiterated in the subsequent Welsh local government elections, in which 90 per cent of the candidates approved of the scheme, and told us that the access to elected office fund was a key part in their decision to stand and that they would be willing to re-stand for elected office with the knowledge that this fund was in place.”²²³

346. Er bod y CCHD yn croesawu'r ddarpariaeth i osod Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar sail statudol, clywsom eu bod yn teimlo bod iaith yr adran honno fel

²²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Ionawr 2024, LJC(6)-01-24 Papur.24.

²²² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 167

²²³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 150

y mae wedi'i hysgrifennu ar hyn o bryd yn eithaf di-fudd ac yn annelwig. Maent yn nodi bod eu pryder yn ymwneud â'r cyfeiriad yn adran 29 at ymgeiswyr â 'nodweddion penodedig neu amgylchiadau penodedig', ond:

"it's not clearly defined what groups have specified characteristics, it doesn't set out what 'specified circumstances' would include "

347. Nododd y CCHD fod hyn yn gwbl groes i adran 28, sy'n nodi'r nodweddion gwarchodedig yn glir. Gwnaethant argymhell y dylid defnyddio geiriad tebyg yn adran 29, ond y dylai hefyd gael ei ehangu, fel yr ymddengys yw'r bwriad, i gynnwys pobl o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.²²⁴

348. Ychwanegodd y CCHD y byddai'n hoffi gweld manylion am oruchwyliaeth y cynllun gan berson neu gorff i sicrhau niwtraliaeth wleidyddol a thryloywder, gan nodi:

*"Section 30 sets out which bodies would be excluded from that role, but we think there should be a bit more clarity on who would oversee the schemes."*²²⁵

349. Lleisiodd RhCM Cymru eu cefnogaeth i roi cynlluniau cymorth ariannol i bobl anabl ar sail statudol, gan nodi ei fod yn rhoi sicrwydd i ymgeiswyr anabl.²²⁶ Galwodd RhCM Cymru am ehangu'r darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau cymorth ariannol i gynnwys gofalwyr di-dâl, gan nodi bod y diffyg cymorth gyda chyfrifoldebau gofalu yn amlwg yn rhwystr mawr i gael swydd etholedig, yn enwedig i fenywod. Maent yn pwysleisio:

"there are really obvious parallels between providing assistance for care-related expenses and those that are already in place for disabled candidates. So, like the support that is available for disabled people, financial support for care-related expenses would relate to costs that really contribute in a direct and tangible way to levelling the playing field between different

²²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 240

²²⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraff 241

²²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 07 – RhCM Cymru

groups of candidates. I mean, the way that would look in practice is that candidates could get financial assistance for paying for things like a childminder or a personal assistant."

350. Cyfeiriodd RhCM Cymru hefyd at y ffaith bod treuliau yn ymwneud â gofal a'r rhai sy'n ymwneud â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amhariad neu iechyd eisoës yn cael y talu:

*"to some extent for elected Members, and that is both at the Senedd and local government level."*²²⁷

351. Dywedodd RhCM Cymru wrthym y byddent yn hapus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun.

352. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y rhesymeg dros y gwahanol ddiffiniadau rhwng adrannau 28 a 29, gan ddefnyddio gofalwyr di-dâl fel enghraifft:

*"carers' responsibilities is a really good example of why there is a different description of the recipients of the support in section 29, because, obviously, caring responsibilities isn't a protected characteristic; it wouldn't align neatly to any of the protected characteristics in the Equality Act 2010. [] The characteristics that might require financial assistance to overcome don't necessarily always align to a specific protected characteristic. [] So, that more flexible approach was with things like carers' responsibilities in mind, because that's an area where the case has been made, including to this committee, by the Women's Equality Network Wales, that carers' responsibility is something that we should be looking at in the future."*²²⁸

Ein barn ni

353. Gwnaethom ystyried mater y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn ein hadroddiad diweddar ar amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, a gwnaethom

²²⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 309

²²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Rhagfyr 2023, paragraff 135

nodi ein cefnogaeth i'r peilot a gynhaliwyd yn etholiadau llywodraeth leol 2022. Daethom i'r casgliad yn yr adroddiad hwnnw fod argaeledd y gronfa yn ddefnyddiol wrth gefnogi ymgeiswyr anabl i gael mynediad at y cymorth ymarferol sydd ei angen i sefyll mewn etholiad, a gwnaethom groesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i sicrhau bod y gronfa'n parhau i fod ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

354. Felly, rydym yn falch iawn o weld darpariaethau i roi cynllun cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl mewn etholiadau Cymreig ar sail statudol. Fel i ni nodi yn ein hadroddiad blaenorol, er gwaethaf yr adborth cadarnhaol, nododd y gwerthusiad o'r peilot feysydd lle gellid gwella'r gronfa, yn enwedig mewn perthynas â'i hamseroldeb a chodi ymwybyddiaeth. Cafodd hyn ei gydnabod ar y pryd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ac roedd ei pharodrwydd i adeiladu ar ganfyddiadau'r peilot a gwneud newidiadau cyn etholiadau'r dyfodol yn galonogol. Rydym yn cydnabod bod dechrau cynllun yn y dyfodol mewn modd amserol a dysgu gan y peilotau wedi cael eu cydnabod unwaith eto gan Lywodraeth Cymru wrth i ni graffu ar y Bil hwn.

355. Yn ein barn ni, os caiff y Bil ei ddeddfu, dylai codi ymwybyddiaeth o'r cynllun cymorth ariannol fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol wrth baratoi at etholiadau'r dyfodol. Fel rydym wedi nodi'n flaenorol, rydym yn sylweddoli na fydd gan bob ymgeisydd ymlyniad wrth bleidiau gwleidyddol ac, er y gallai codi ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr annibynnol fod yn fwy heriol, mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd posibl yn ymwybodol o'r gronfa.

356. Gwnaethom argymhell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i ganfod cyfleoedd i hyrwyddo ymhellach y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig a buddion y gronfa. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad o'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yn cael eu hystyried ymhellach, gan sicrhau bod cymorth amserol a digonol i ymgeiswyr anabl cyn etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol.

357. Rydym yn falch bod ein hargymhellion blaenorol wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru a, chan fod y Bil hwn yn cynnwys darpariaethau penodol i weithredu cynllun cymorth ariannol ar gyfer etholiadau Cymreig, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'n hargymhellion.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o gynllun cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl a sicrhau bod y cynllun yn dechrau mewn digon o amser cyn etholiad nesaf y Senedd.

358. Rydym yn cydymdeimlo â galwadau gan randdeiliaid i ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i gefnogi grwpiau eraill o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym yn cytuno bod angen pecynnau cymorth ychwanegol ar grwpiau eraill i'w galluogi i sefyll mewn etholiad, ond rydym yn cydnabod efallai na fydd y cymorth ariannol a ddarperir at ddibenion cael cymorth ymarferol yn iawn i bawb.

359. Felly, mae gennym ddiddordeb mawr yn argymhelliad RhCM Cymru i ehangu'r cynllun cymorth ariannol a nodir yn adran 29 i gynorthwyo pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl, gan ein bod yn cydnabod y byddai gofalwyr yn grŵp penodol sy'n gydnaws â'r meini prawf a nodir yn yr adran honno. Ymhellach, credwn y byddai ehangu'r cynllun fel hyn yn cael gwared ar rwystr i sefyll mewn etholiad, sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod. Rydym yn sylweddoli y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru beilota cynllun o'r fath yn gyntaf, ond hoffem weld gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cynllun ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddatblygu a pheilota cronfa cymorth ariannol i gefnogi gofalwyr di-dâl i sefyll mewn etholiad. Rydym yn cydnabod y byddai angen i hyn ystyried sut mae diffinio gofalwyr di-dâl a sut y gallai cynllun dargedu'r rhai sydd angen cymorth ariannol fwyaf.

Cyllid ymgyrchu

360. Mae adrannau 32 – 39 yn gwneud darpariaethau ynghylch rheolau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau Cymreig.

361. Mae adrannau 32 a 33 yn gwneud darpariaethau ynghylch gwariant tybiannol. Mae gwariant tybiannol yn digwydd pan roddir gwasanaethau neu nwyddau i ymgeisydd mewn etholiad am ddim neu am bris gostyngol. Mae gwariant tybiannol wedi'i gynnwys fel rhan o wariant ymgyrchu er mwyn atal ymgeiswyr rhag osgoi eu terfynau gwariant.

362. Cyflwynodd Deddf Etholiadau 2022 fesurau i ganiatáu i wariant tybiannol ddigwydd dim ond os oedd yr ymgeisydd neu asiant etholiad wedi ei awdurdodi. Byddai'r Bil yn cyflwyno ar gyfer etholiadau Cymreig yr un rheolau hyn ynghylch gwariant tybiannol ag a gynhwyswyd yn Neddf Etholiadau 2022 ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl.

363. Mae adran 32 yn diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i ddarparu na ddylid ystyried eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddefnyddir gan neu ar ran ymgeisydd ond pan fyddant wedi'u cyfarwyddo, eu hannog neu eu hawdurdodi i'w defnyddio gan yr ymgeisydd neu asiant etholiad yr ymgeisydd.

364. Mae adran 33 yn diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i gynnwys etholiadau'r Senedd yn y rheolau gwariant tybiannol hyn, pan fo gwariant tybiannol yn cael ei ddsbarthu fel traul etholiadol dim ond pan gaiff ei gyfarwyddo neu ei awdurdodi gan yr ymgyrch.

365. Mae adran 34 yn diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i egluro y gall y Comisiwn Etholiadol gyhoeddi canllawiau ar dreuliau yr â ymgeiswyr iddynt mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

366. Mae adran 35 yn diwygio Deddf 1983 i ganiatáu i berson heblaw'r asiant etholiad wneud taliadau ar ran ymgyrch ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a fyddai'n golygu bod etholiadau Cymreig yn gydnaws â newidiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau 2022 ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Bydd y newid cyfatebol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael ei wneud yn yr adolygiad o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, lle ceir y darpariaethau cyfatebol.”²²⁹

367. Mae adrannau 36 – 38 yn gwneud darpariaethau ynghylch ymgyrchwyr trydydd parti yn mynd i wariant yn ystod ymgyrchoedd etholiadol. Byddai adran 36 yn dod ag etholiadau'r Senedd o dan y drefn a sefydlwyd gan Ddeddf

²²⁹ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.92

Etholiadau 2022, sy'n nodi na chaiff trydydd parti fynd i unrhyw wariant rheoledig o fwy na £700 yn ystod cyfnod rheoleiddiedig datganoledig Cymreig, oni bai bod y trydydd parti wedi'i restru yn adran 88(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

368. Byddai adran 37 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o drydydd partion a all fynd i wariant rheoledig o fwy na £700. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai unrhyw ddiwygiadau i'r rhestr a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

369. O dan adran 38, byddai'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer ar wariant rheoledig gan drydydd partion yn ystod cyfnod rheoleiddiedig datganoledig Cymreig. Byddai'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar god drafft.

370. Nododd CLILC ei chefnogaeth i'r bwriad o wneud newidiadau i reolau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol, fel eu bod yn cyd-fynd â newidiadau a wnaed ar gyfer etholiadau'r DU yn 2022.²³⁰

371. Nododd y Comisiwn Etholiadol y byddai'r darpariaethau'n dod â sawl deddf cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau datganoledig yn unol â'r newidiadau cyfatebol ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022, ac ychwanegodd:

"Dylai cynnal cysondeb ar draws gwahanol fathau o etholiadau fel hyn ei gwneud hi'n haws i ymgyrchwyr gydymffurfio â'r gyfraith ar draws etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig."

372. Dywedodd y Comisiwn y bydd yn "parhau i ddarparu canllawiau i helpu'r gymuned reoledig i ddeall y gyfraith a chydymffurfio â hi". Dywedon nhw y byddai hyn yn cynnwys cynhyrchu cod ymarfer ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ychwanegodd y byddent hefyd yn parhau i fonitro effaith a

²³⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 16 - CLILC

goblygiadau'r newidiadau hyn, mewn etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig.²³¹

373. Dywedodd ERS Cymru eu bod yn siomedig nad oedd Deddf Etholiadau 2022 Llywodraeth y DU yn cynnwys mesurau i dynhau rheoleiddio cyllid gwleidyddol, fel yr argymhellwyd gan adroddiad 'rheoleiddio cyllid etholiadol' y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Dywedon nhw:

"It is important that there is a robust and transparent regime for political finance that applies to both parties and campaigners without stifling democratic debate and participation. To that end we support the recommendations of the CSPL and would like to see them implemented at a UK level.

*However, we also recognise that there is the potential for confusion if the regulatory framework differs for different elections. Whilst we would like to see more done at the UK level, these changes make sense in terms of ensuring consistency across elections."*²³²

374. Eglurodd ERS Cymru:

*"I think our criticism very much stems around the UK Elections Act, rather than this legislation. This legislation just seems to bring Wales in line with the Elections Act, which is fine from a devolved standpoint."*²³³

*"I think it's absolutely welcome that Welsh law around this should be brought into line with UK law; I just do think that there are limitations in what Wales could do beyond what the UK has already done."*²³⁴

²³¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 11 – Y Comisiwn Etholiadol

²³² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 09 – ERS Cymru

²³³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 15 Tachwedd 2023, paragraph 203

²³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Tachwedd 2023, paragraff 207

Ein barn ni

375. Nodwn y byddai'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyllid ymgyrchu yn dod â rheolau ar gyfer etholiadau Cymreig yn unol â'r rhai ar gyfer etholiadau'r DU a bod rhanddeiliaid wedi croesawu'r cysondeb hwn.

4. Rhan 2 – Cyrff etholedig a'u haelodau

Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch trefniadau adolygu ffiniau, diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'r drefn anghymhwys ar gyfer Aelodau o wahanol gyrff etholiadol.

Trefniadau ar gyfer llywodraeth leol

376. O dan Ddeddf 2013, mae'n ofynnol i LDBCW gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol llywodraeth leol o leiaf unwaith bob 10 mlynedd. Dechreuodd yr adolygiad diwethaf yn 2017 a daeth i ben yn 2021. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr adolygiad hwnnw, wedi ymrwymo i fyfrio ar y trefniant ar gyfer adolygu a nodir yn Neddf 2013 ac, yn seiliedig ar adborth, gwneud gwelliant lle bo angen. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod y Bil yn cynnwys cyfres o ddarpariaethau i wneud gwelliannau o'r fath i'r broses adolygu.

377. Mae adran 40 yn diwygio adran 30 o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i set ehangach o feini prawf wrth ddatblygu argymhellion ar gyfer newid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dymunoldeb bod â chymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol sydd yr un fath, neu bron yr un fath, ym mhob ward etholiadol yn y brif ardal;
- Ystyriaethau daearyddol arbennig megis maint, siâp a hygyrchedd y ward;
- Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath.

378. Mae adran 41 yn diwygio Deddf 2013 i newid hyd y cyfnod adolygu o 10 i 12 mlynedd. At hynny, mae'n cynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio hyn drwy reoliadau.

379. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol y rhesymeg dros newid y cyfnod adolygu o 10 i 12 mlynedd:

“that is because the Bill makes several other changes to the timings of electoral reviews, including increasing the time the local democracy board is not able to work on reviews in advance of local government ordinary elections from nine months to 12 months, and introducing a new requirement on Welsh Ministers not to make any electoral review orders within six months of an ordinary election.

So, basically, I think the change comes from lessons that have been learnt that there needs to be a period of stability in advance of the election to enable preparations to be made.”²³⁵

380. Mae adran 43 yn diwygio Deddf 2013 i egluro na all Gweinidogion Cymru weithredu argymhellion o adolygiad etholiadol (neu benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau) hyd nes y bydd o leiaf chwe wythnos wedi mynd heibio o'r dyddiad y daeth yr argymhellion i law. Rhaid i Weinidogion roi sylw i unrhyw sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod hwn.

381. Mae adran 44 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried y broses o enwi wardiau etholiadol fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori cyn adolygiad.

382. Mae adrannau 45-50 yn cynnwys darpariaethau technegol sy'n ymwneud â chynnal adolygiadau ffiniau, gan gynnwys:

- dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol y gellir cyflwyno sylwadau yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ar adolygiad;

²³⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraffau 186-187

- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ar bob argymhelliad gan y Comisiwn o fewn 3 mis i'w gael; ac
- y pŵer i Weinidogion Cymru oedi adolygiad, a chyfyngiad ar ddefnyddio'r pŵer hwn am gyfnod o fwy na 9 mis i gyd.

383. Mewn perthynas ag adran 46, sy'n ychwanegu cyrff ychwanegol at y rhestr o ymgylgoreion gorfodol ar gyfer adolygiadau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, nododd LDBCW eu cefnogaeth i'r newid ond gan ychwanegu, o brofiad blaenorol, nad oedd eu hymdrechion i gyfathrebu â rhai ymgylgoreion wedi cael eu cydnabod. Felly, gwnaethant awgrymu y dylid gofyn i ymgylgoreion gorfodol ddarparu manylion cyswllt ar gyfer un pwynt cyswllt a gwnaethant argymhell y dylid gwella'r Bil i nodi y byddai cyrff rhestredig yn peidio â bod yn ymgylgoreion gorfodol pe baent yn methu ag enwebu unigolyn fel pwynt cyswllt.²³⁶ Gwnaethant esbonio mai eu rhesymeg oeddd osgoi sefyllfaoedd lle nad oedd ymgynghorai gorfodol yn ymgysylltu, ond yna'n gwneud sylwadau yn nes ymlaen a allai effeithio ar ganlyniad neu linell amser adolygiad.²³⁷

384. Mewn perthynas ag adran 48, cododd LDBCW bryder ynghylch y gofyniad ar y Comisiwn i "wneud pob ymdrech" i fodloni terfynau amser penodol, gan nodi:

"Mae'r Comisiwn yn awgrymu y gallai rhwymedigaeth i "wneud pob ymdrech" i fodloni'r dyddiad cau perthnasol wrth gynnal adolygiad o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 fod yn drafferthus ac y gallai gael canlyniadau anfwriadol. Y rheswm am hyn yw efallai y bydd rhwymedigaeth i "wneud pob ymdrech" yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff adolygu ddefnyddio'r holl fesurau rhesymol sydd ar gael iddo i fodloni'r dyddiad cau, ac (os caiff ei herio) i gyfiawnhau pam nad yw wedi cymryd camau penodol a all fod

²³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 08 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

²³⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraffau 68-69

wedi cael eu hawgrymu gan eraill. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar waith y Comisiwn a chyrff adolygu eraill.”²³⁸

385. Gwnaethant egluro bod y pryderon yn ymwneud â dyrannu adnodd, gan ychwanegu:

“moving forward, because we’ve got lots of new things coming through, we want to be able to protect ourselves as a commission. [] It’ll be best endeavours from us; that’s how we function. However, it’s just protecting the commission from the challenge of, ‘You did not put in your best endeavours’, it was just, ‘You endeavoured.’”²³⁹

386. Mae adran 51 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y maent wedi’i wneud o fewn blwyddyn benodol i adolygu enwau cymunedau, newidiadau i ffiniau cymunedol, newidiadau i gynghorau cymuned a threfniadau etholiadol, a’i gyflwyno i Weinidogion Cymru. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor gynnal adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned yn ei ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu o 12 mlynedd.

387. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod adran 51 yn gwneud mân newidiadau²⁴⁰ mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol prif gynghorau yn ymwneud ag enwau cymunedau, newidiadau i ffiniau cymunedol, newidiadau i gynghorau cymuned a threfniadau etholiadol cymunedol.²⁴¹

388. Nododd CLILC eu cefnogaeth i newid y cyfnod adolygu o unwaith bob 10 mlynedd yn y man lleiaf i unwaith bob 12 mlynedd yn y man lleiaf, ac i awdurdodau lleol adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned bob 12 mlynedd.²⁴²

²³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 08 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

²³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 76

²⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 182

²⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 185

²⁴² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 16 - CLILC

389. Nododd WECB hefyd eu cefnogaeth i'r darpariaethau, ac roeddent yn croesawu'n arbennig y darpariaethau sy'n ymwneud â'r canlynol:

*"timescales for the completion of reviews, flexibility in the criteria/matters to be taken into account in determining the number of representative councillors, and the power for Ministers to make modifications to recommendations for example in response to representations."*²⁴³

390. Clywsom fod LDBCW yn cefnogi'r darpariaethau ond gwnaethant sylwadau ar amseru'r adolygiadau:

*"how we'd like it to work is that the first six years is given to local authorities to carry out community reviews, establishing the building blocks for us to carry out electoral reviews in the second six years."*²⁴⁴

Ein barn ni

391. Nodwn fod y ddarpariaeth i newid y cyfnod adolygu ar gyfer prif ardaloedd o unwaith bob 10 mlynedd i unwaith bob 12 mlynedd wedi cael ei chroesawu gan y rhanddeiliaid dan sylw.

392. Nodwn y pryderon a godwyd gan LDBCW mewn perthynas â'r gofyniad iddynt wneud pob ymdrech i fodloni terfynau amser penodol, ac rydym yn cydnabod y byddai hyn yn gosod cryn her iddynt, a allai ei gwneud yn ofynnol i ddargyfeirio adnoddau o feysydd eraill. Credwn y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion i'r Comisiwn ynghylch pam mae'r fanyleb hon wedi'i chynnwys yn y Bil.

Tâl aelodau etholedig

393. Mae adran 56 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ddileu Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (yr "IRP"), y corff annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau am lwfansau a phensiynau prif

²⁴³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

²⁴⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 88

gynghorau, cynghorau cymuned a thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol. Mae adran 57 yn mewnosod adran newydd yn Neddf 2013 i roi effaith i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fabwysiadu pwerau'r IRP ynghylch taliadau.

394. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi i Lywodraeth Cymru, yn 2021, gyhoeddi adolygiad 10 mlynedd o'r Panel, ac mae'n nodi bod un o argymhellion yr adolygiad yn ymwneud â threfniadau ysgrifenyddol y Panel.²⁴⁵ Daeth yr adolygiad i'r casgliad canlynol:

"Mae'r Panel yn gweithio gyda chymorth gweinyddol darbodus ac yn perfformio'n dda â chyllideb gweddol fach. Fodd bynnag, oherwydd ei fod yn trefnu ei waith ar hyn o bryd, mae'r Panel yn ei chael hi'n anodd cyflawni ei dasgau. Nid oes ganddo y cymorth technegol angenrheidiol i wneud ei waith yn iawn. Gwnaed hyn yn waeth gan gynllunio a recriwtio olyniaeth gwael. Mae lle i weithio'n fwy effeithlon os gallant ddod o hyd i gymorth technegol a thrwy leihau'n sylweddol nifer y cyfarfodydd y mae'n eu rheoli a newid y ffordd y mae'n ymgysylltu ac yn casglu tystiolaeth.

Argymhelliad 5 *Dylai'r Panel gael ei gynnal gan gorff hyd braich anllywodraethol a chanddo synergeddau â gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a dylai'r Adran adolygu'r ffordd orau o gyflawni hyn. Dylid trosglwyddo cyllidebau presennol gan gynnwys gwerth cymorth yr ysgrifenyddiaeth. Dylai'r Panel geisio cael cymorth cyfreithiol, polisi a thechnegol gan y corff cynhaliol newydd."*²⁴⁶

395. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod Gweinidogion Cymru yn cytuno y dylai'r cymorth ysgrifenyddol i'r Panel gael ei ddarparu gan gorff heblaw Llywodraeth Cymru, ac y byddai hyn "hefyd yn helpu i atgyfnerthu gweithrediad

²⁴⁵ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.109

²⁴⁶ Adolygiad Deng Mlynedd o'r Trefniadau ar gyfer Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

annibynnol y Panel”. Mae’n esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru dros drosglwyddo swyddogaethau’r ysgrifenyddiaeth i DBCC:

“Ystyrir mai’r Comisiwn yw’r corff mwyaf priodol i ddarparu’r cymorth hwn gan ei fod yn gorff corfforedig annibynnol sydd o dan arweiniad prif weithredwr, ac mae ganddo hefyd swyddogaeth ysgrifenyddiaeth fewnol effeithiol.”²⁴⁷

396. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud, “yn seiliedig ar y synergeddau rhwng y Panel a’r Comisiwn”, fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu diddymu’r Panel a throsglwyddo swyddogaethau’r IRP ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i DBCC, ac eithrio’r swyddogaeth sy’n ymwneud â chyflogau prif weithredwyr a fydd yn dod i ben pan ddiddymir y Panel.²⁴⁸ Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

“the purpose of moving the functions of the independent remuneration panel into the Democracy and Boundary Commission Cymru is to reinforce the independence, which, I think, is what the 10-year review called for. Previously, it was staffed by a secretariat within the Welsh Government. The idea is that it will be part of a free-standing body, which is more independent.”²⁴⁹

397. Dywedodd y Memorandwm Esboniadol hefyd y bydd yn ofynnol i’r Comisiwn “ailedrych ar ei strwythur staffio i sefydlu’r strwythur gorau posibl i gyflawni’r swyddogaethau hyn”. O ran cyllid i DBCC, mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi, “yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael:

“Disgwylir y bydd cyllideb rhedeg flynyddol gyfredol y Panel, sef £60,000, yn cael ei throsglwyddo i’r Comisiwn. Byddai hyn hefyd yn cynnwys costau eraill sy’n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, fel cynnal gwefan y Panel, cyfieithu a chostau cysylltiedig eraill. []

²⁴⁷ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.110

²⁴⁸ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.112

²⁴⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 193

Bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo £80,000 arall i'r Comisiwn, sef cost y cymorth ysgrifenyddol presennol a ddarperir gan staff Llywodraeth Cymru."

398. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru'n talu'r gost ychwanegol ac y bydd yn "parhau i weithio gyda'r Comisiwn i sicrhau adnoddau a chapasiti digonol i gyflawni'r swyddogaethau hyn".²⁵⁰ Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth Bwyllgor Cyllid y Senedd ei fod yn credu bod y cyllid a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol yn ddigonol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau.²⁵¹

399. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol resymeg Llywodraeth Cymru dros beidio â throsglwyddo cyfrifoldeb am dâl prif weithredwyr i DBCC:

"The issue of chief executive pay was one of those issues that we consulted upon in the White Paper. There was a lot of support for removing that, and, really, the logic for removing it is this: councils are democratically elected bodies; I think it's their democratic responsibility in terms of establishing but also then being accountable for chief executive pay."

400. Cawsom wybod am wahaniaeth barn ymhlith CLILC ar y newidiadau arfaethedig. Er bod cefnogaeth i drosglwyddo swyddogaethau'r IRP i DBCC, clywsom fod y grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn pryderu am ddileu goruchwyliaeth dros gyflogau prif weithredwyr. Dywedodd y Cyngorydd Andrew Parkhurst wrthym:

"I'm conscious and my group is conscious that in previous years there have been situations where there have been severe pressures on council tax budgets and consequent increases in council tax. At the same time, there has been a perception that chief executive pay in some quarters has got out of kilter. Really, for that reason, and also to try and ensure a degree of consistency where that is appropriate, it seems reasonable to

²⁵⁰ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 9.227–9.230

²⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, 15 Tachwedd 2023, paragraffau 216-219

have a second pair of eyes or independent scrutiny to ensure that what is being proposed for chief executives is realistic and appropriate.”²⁵²

401. Dywedodd CLILC y byddai trosglwyddo swyddogaethau'r IRP i DBCC yn cynnal annibyniaeth. Meddai'r Cynghorydd Huw David:

“that all-important function about assessing and identifying and making recommendations will still be made independently of local government. I think that’s the important point and the important principle that I think we’d all be supportive of— that those recommendations are not made by elected members but by a body independent of the local authority.”²⁵³

402. Ychwanegodd y Cynghorydd Llinos Medi y bydd craffu ar y system yn bwysig er mwyn dangos annibyniaeth:

“Dwi'n meddwl beth sy'n bwysig ydy craffu bod y trosglwyddiad o gyfrifoldebau yn cadw i'r un ffurf ac i'r un fformat ac yn cadw i'r un drefn, sydd yn golygu wedyn bod hynna'n rhoi hyder i ni, y rhai sy'n cael eu heffeithio, bod y broses dal yn deg a dal yn digwydd yn annibynnol ac yn digwydd yn y ffordd fwyaf teg posib yn fanna.”²⁵⁴

403. Croesawyd trosglwyddo swyddogaethau'r IRP i DBCC gan LDBCW, a ddywedodd wrthym:

“I think our board looks at quite similar evidence in terms of councillor workload. We engage in the same areas. It also means that you have a secretariat that’s independent from Welsh Government, [] so you have an extra layer of independence there are well. [] Our current chair and a member of the commission are also members of the Independent Remuneration Panel for Wales, so there is also an

²⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 15

²⁵³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 92

²⁵⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 103

element of continuity that would come through as part of the transfer of functions.”²⁵⁵

404. Roeddent yn hyderus y byddai annibyniaeth y penderfyniadau a wneir yn cael ei chynnal drwy drosglwyddo swyddogaethau:

“the independent— ‘IRPW have decided that, so we’ve got no choice.’ That is not going to change. The deliberations of the commission on remuneration functions will have the same level of requirement and status as what the IRPW are currently doing.”²⁵⁶

405. Byddai darpariaethau yn adran 57 hefyd yn rhoi swyddogaeth newydd i DBCC mewn perthynas â thaliadau ailsefydlu ar gyfer cynghorwyr sy’n sefyll i gael eu haillethol ond nad ydynt yn cael eu dychwelyd i’w sedd. Byddai Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn pennu’r cynghorwyr perthnasol sy’n gymwys ar gyfer y cynllun. Fel yr esbonia’r Memorandwm Esboniadol:

“Mae hon yn swyddogaeth y gofynnwyd amdani ac a gefnogir gan gynghorau er mwyn cefnogi ein nod cyffredin o ran amrywiaeth aelodaeth etholedig yn y cyrff hyn. Rhoddir taliadau ailsefydlu i gynrychiolwyr etholedig eraill ar draws ein democratiaeth a’u bwriad yw cefnogi amrywiaeth drwy alluogi pobl i gyflwyno eu hunain i’w haillethol gan wybod os na chânt eu dychwelyd yn aelod, y bydd ganddynt lefel gymedrol o gymorth ariannol i’w galluogi i bontio i gam nesaf eu bywydau. Ni fydd taliadau ar gael i gynghorwyr sy’n penderfynu ymddiswyddo a pheidio â cheisio cael eu haillethol.”²⁵⁷

406. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn gweld taliadau ailsefydlu i gynghorwyr fel rhyw fath o daliad diswyddo bron iawn.²⁵⁸ Dywedodd wrthym:

²⁵⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 99

²⁵⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 110

²⁵⁷ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.113

²⁵⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 197

“it is just about providing a buffer in terms of the fact that after an election there will be a number of candidates who have stood but are now basically unemployed.”²⁵⁹

407. Nododd CLILC eu cefnogaeth i gyflwyno taliadau adsefydlu i gynghorwyr, gan ddweud:

“Cynghorwyr yw'r unig swyddi cyhoeddus â thâl sydd heb amddiffyniad ariannol a heb hawl i daliad 'diswyddo' os ydynt yn colli eu swydd mewn etholiad. Mae Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Senedd y DU yn derbyn grant adsefydlu ac mae taliadau diswyddo hefyd yn hawl wedi'i diogelu i weithwyr y sector cyhoeddus. Yn benodol, mae uwch gynghorwyr yn dueddol o fod yn llawn amser ac yn aml yn gorfod rhoi'r gorau i'w gyrfa i ganolbwyntio ar eu rôl fel cynghorydd ac mae gan lawer ohonynt deulu yn ogystal ag ymrwymïadau ariannol eraill; mae'r risg personol o golled cyflog sydyn ac arwyddocaol yn anghyson ac yn annheg o gymharu â swyddi cyhoeddus eraill. Mae hefyd yn anghymhellïad i bobl amrywiol sydd â gyrfaedd neu gyfrifoldebau teuluol ystyried derbyn y rolau uchaf mewn llywodraeth leol.”²⁶⁰

408. Gwnaeth y Cynghorydd Medi sylw ar y cyfraniad y gallai taliadau ailsefydlu ei wneud o ran denu ystod fwy amrywiol o bobl i sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol, yn enwedig pobl iau â morgëisi ac ymrwymïadau ariannol eraill. Dywedodd y Cynghorydd Medi wrthym am ei phrofiad ei hun o annog pobl iau i sefyll mewn etholiad, ond ei bod yn argymell y dylent gadw eu cyflogaeth bresennol:

“dwi wedi gofyn iddyn nhw gadw eu swyddi achos fy mod i'n bryderus iddyn nhw fod mewn sefyllfa lle mae nhw'n dal efo plant yn ddibynnol arnyn nhw ac y byddan nhw efallai'n colli etholiad a bydd yna ddim sicrwydd ariannol. Ac mae'r risg y mae'n nhw'n ei gymryd er mwyn bod yn aelod etholedig dros eu hardal yn risg enfawr. Wrth i ni gynyddu nifer y bobl ifanc,

²⁵⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Hydref 2023, paragraff 195

²⁶⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 16 - CLILC

mae'n rhaid i ni feddwl mewn ffordd wahanol am sut ydyn ni'n rhoi'r sicrwydd yna. [] Rydyn ni eisiau trio eu hyrwyddo nhw i wneud hynna, ac i'w diogelu nhw os ydy hynna ddim yn gweithio allan iddyn nhw hefyd.”²⁶¹

409. Cytunodd y Cyngorydd David, gan ychwanegu na ddylai cyllid fod yn rhwystr i bobl yn cynrychioli eu cymunedau. Dywedodd wrthym:

“We need to eliminate some of those barriers. It's accepted as a principle and I support it as a principle. It's the right principle for Members of the Senedd and Members of the UK Parliament, and I think that same principle should apply to elected representatives at a local government level as well.”²⁶²

410. Mae adrannau 58-60 yn cynnwys darpariaethau technegol ynghylch trosglwyddo swyddogaethau'r Panel i'r Comisiwn.

Ein barn ni

411. Nodwn fod y rhesymeg dros drosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n ymwneud â thâl cyngorwyr yn deillio o'r argymhelliad a wnaed gan yr Adolygiad Deng Mlynedd o drefniadau'r Panel y dylai gael ei gynnal gan gorff hyd braich anllywodraethol. Rydym yn cydnabod y bydd DBCC ar ei newydd wedd yn bodloni'r gofynion hyn, a nodwn fod LDBCW fel ag y mae yn croesawu trosglwyddo swyddogaethau. Felly, credwn fod y bwriad i drosglwyddo'r swyddogaethau cynnal i DBCC yn rhesymol.

412. Rydym yn cydnabod hefyd fod yr Adolygiad Deng Mlynedd wedi dod i'r casgliad nad yw'r trefniadau presennol yn darparu'r cymorth technegol sydd ei angen ar yr IRP i wneud ei waith yn iawn ac iddo argymell y dylai gael cymorth cyfreithiol, polisi a thechnegol gan y corff cynhaliol newydd. Felly bydd yn hanfodol bod DBCC yn gallu darparu'r cymorth angenrheidiol. Rydym yn sylweddoli y bydd y staff a gyflogir gan LDBCW fel ag y mae yn gyfarwydd â'r math hwn o waith, ond rydym yn ymwybodol y bydd trosglwyddo

²⁶¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 124

²⁶² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 126

swyddogaethau yn cynyddu eu llwyth gwaith yn sylweddol. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi darparu amcangyfrif o gostau ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau a bod y Cwnsler Cyffredinol wedi cadarnhau i'r Pwyllgor Cyllid ei fod yn credu bod y swm hwn yn ddigonol.

413. Rydym yn ymwybodol, drwy ddiddymu'r IRP a throsglwyddo ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gosod lefelau tâl i DBCC, fod y darpariaethau yn y Bil yn mynd ymhellach na'r argymhelliad yn yr Adolygiad Deng Mlynedd, a oedd yn ymwneud â'r trefniadau cynnal yn unig. Rydym yn cydnabod bod synergeddau rhwng gwaith yr IRP a LDBCW fel ag y mae, felly credwn fod y cynnig i drosglwyddo swyddogaethau'r IRP i DBCC ar ei newydd wedd yn rhesymol.

414. Rydym yn nodi'r farn gymysg a leisiwyd gan CLILC ar y cynnig i ddileu'r cyfrifoldeb ar yr IRP i oruchwyllo cyflog prif weithredwyr awdurdodau lleol, ond mai barn y mwyafrif oedd y dylai awdurdodau lleol eu hunain benderfynu arno.

415. Rydym yn croesawu'r darpariaethau i gyflwyno taliadau ailsefydlu ar gyfer cynghorwyr nad ydynt yn cael eu hailethol a chredwn fod hwn yn offeryn pwysig wrth alluogi ystod ehangach o bobl, yn enwedig pobl iau, i sefyll mewn etholiad. Rydym yn deall y gall ansicrwydd ariannol fod yn rhwystr sylweddol i unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd â rôl etholedig lawn amser. Bydd y posibilrwydd o adael gyrfa am rôl y gallent orfod ei gadael o fewn pedair neu bum mlynedd yn atal llawer o bobl rhag ymuno â llywodraeth leol, yn enwedig os oes ganddynt forgais neu ymrwymadau ariannol eraill. Rydym felly'n croesawu'r bwriad i gyflwyno taliadau ailsefydlu ac yn gobeithio y byddant yn cael gwared ar rwystr sy'n rhwystr i gynyddu amrywiaeth.

Anghymhwyso a dylanwad amhriodol

Anghymhwyso ac aelodaeth ddeuol

416. Mae adrannau 61 – 63 yn gwneud darpariaethau ynghylch anghymhwyso ac aelodaeth ddeuol.

417. Mae Rhan 4 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn datgan bod aelodau o brif gynghorau yn cael eu hanghymhwyso rhag dod yn aelodau o'r Senedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i gynghorwyr tref a chymuned.

Mae adran 61 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i anghymhwysu cynghorwyr tref a chymuned rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai effaith y ddarpariaeth yw:

“gwneud newidiadau i'r gyfundrefn anghymwysu bresennol ar gyfer Aelodau o'r Senedd yng Nghymru er mwyn cefnogi tegwch, cydraddoldeb ac atebolrwydd y Senedd a llywodraeth leol.”²⁶³

418. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan:

“Bydd y newidiadau hyn yn ymdrin â phryderon y gallai unigolion sy'n Aelodau o'r Senedd ac yn gynghorwyr cymuned ar yr un pryd fod â mantais bosibl dros eu cymheiriaid drwy fod mewn sefyllfa o allu gwthio materion penodol yn eu blaen drwy eu cysylltiad â Gweinidogion Cymru yn y Senedd. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn ymdrin â phryderon ynghylch ymrwymadau amser a gwrthdaro buddiannau bosibl wrth ddal swyddi deuoI.”²⁶⁴

419. At hynny, mae adran 61 yn dileu'r cyfnodau gras a ddarperir ar hyn o bryd i Aelodau o'r Senedd sydd hefyd naill ai'n Aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu brif gyngor, fel bod rhaid iddynt ymddiswyddo ar unwaith o'r swyddi eraill hyn yn ddieithriad. Mae'r cyfnod gras ar hyn o bryd yn darparu nad oes angen i Aelod o'r Senedd ymddiswyddo o'i swydd arall ar gorff etholedig os bwriedir cynnal yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer y corff hwnnw o fewn 372 diwrnod i'r diwrnod y'i dychwelwyd yn Aelod o'r Senedd. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Mae'r sefyllfa hon yn rhoi rhai unigolion mewn sefyllfaoedd breintiedig, hyd yn oed pe baent yn dewis rhoi rhywfaint o'u cydnabyddiaeth ariannol i elusennau o'u dewis.

Bydd dileu'r cyfnodau gras felly yn sicrhau cysondeb yn ogystal ag ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol ddeuoI. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod

²⁶³ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.115

²⁶⁴ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.117

cynrychiolwyr etholedig yn gallu cyflawni eu mandad yn briodol o ran ymrwymiad amser yn ogystal ag osgoi gwrthdaro buddiannau bob amser.”²⁶⁵

420. Mae adran 61(7) yn datgan y byddai'r newid hwn yn dod i rym ar gyfer etholiadau'r Senedd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026.

421. Mae adrannau 62 a 63 yn cynnwys troseddau a gyflawnwyd mewn etholiad cyngor dosbarth Gogledd Iwerddon yn y gyfundrefn anghymhwys o'r Senedd.

422. Nododd CLILC eu cefnogaeth i'r darpariaethau:

“Mae CLILC yn cefnogi cysondeb yn y trefniadau anghymhwys ar gyfer etholiadau'r Senedd, cynghorwyr cymuned a thref a phrif gynghorwyr (h.y., sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cydymffurfio â'r rheolau presennol ar gyfer prif gynghorau). Rydym hefyd yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r 'cyfnod gras' yn dilyn ethol cynghorydd fel Aelod o'r Senedd; dylai'r cynghorydd ymddiswyddo, gyda'r sedd yn dod yn wag yn syth ar ôl yr etholiad ac is-etholiad yn cael ei gynnal.”²⁶⁶

423. Er bod CLILC yn cefnogi'r egwyddor o gael gwared ar y cyfnod gras, gwnaethant hefyd godi pryder ynghylch y posibilrwydd o orfod cynnal is-etholiad ychydig cyn etholiad llywodraeth leol a drefnwyd. Dywedodd y Cynghorydd Huw David wrthym:

“if a councillor was elected to the Senedd just a few months before, for example, general local elections, there's possibly a scenario there, isn't there, where you would want that by-election not to take place, but simply hold it when the local elections are due to take place anyway. But generally, we are supportive of the principle.”

“I think, perhaps, that that potentially could be tweaked to reflect that circumstance, because I think that is a particular

²⁶⁵ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.118-3.119

²⁶⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 16 - CLILC

*circumstance. [] And by-elections don't always attract the greatest of turnouts, do they, so I think trying to avoid by-elections where there are local elections due to take place very soon afterwards is a scenario that could be considered as that exception to the principle."*²⁶⁷

424. Mynegodd y Cyngorydd Llinos Medi bryder hefyd ynghylch y posibilrwydd o adael ardal heb gynrychiolaeth am gyfnod byr pe na bai is-etholiad yn cael ei gynnal oherwydd ei bod yn agos at etholiad a drefnwyd:

*"Ac mae angen i ni fod yn ofalus hefyd ynglŷn â gadael ardal heb lais democrataidd yn fan yma, onid oes. Felly, ydyn, rydyn ni'n cytuno efo'r egwyddor, ond dydyn ni ddim eisiau gadael ardal heb lais, achos dydyn ni ddim yn ymwybodol o rywbeth fuasai efallai yn argyfwng yn yr ardal yna, ac y byddan nhw angen llais democratiaeth leol, a bod y cyfnod at etholiad yn hir. Felly, efallai fod yna gyfle yn fan yna i chi fel pwyllgor i ofyn a oes yna ffordd o eirio hwn sy'n diogelu democratiaeth mewn ardaloedd sy'n wynebu hyn, achos dydyn ni ddim isio gwanhau llais pobl leol oherwydd yr amgylchiadau yna."*²⁶⁸

425. Nododd WECB eu cefnogaeth i'r darpariaethau er budd cysondeb a symlirwydd".²⁶⁹

Ein barn ni

426. Nodwn fod rhanddeiliaid yn cefnogi'r egwyddor o atal cynghorwyr cymuned rhag bod yn Aelodau o'r Senedd hefyd a dileu'r 'cyfnod gras' pe bai Aelod o brif gyngor neu AS yn cael ei ethol yn Aelod o'r Senedd. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan CLILC ynghylch y posibilrwydd o gynnal is-etholiad(au) i lenwi sedd(i) gwag ar y cyngor pe bai swyddi gwag yn dod ar gael yn agos at etholiad llywodraeth leol a drefnwyd ac ni fyddem am weld ardaloedd heb gynrychiolaeth o ganlyniad i'r darpariaethau. Mae'r ddarpariaeth i atal Aelod

²⁶⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraffau 134-136

²⁶⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2023, paragraff 138

²⁶⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

o'r Senedd rhag bod yn aelod o gyngor tref neu gymuned yn cael ei chefnogi gan y rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor. Rydym yn cydnabod y gall Aelodau o'r Senedd barhau i gyflawni cyfrifoldebau yn ymwneud â chynnal eu cymwysterau proffesiynol, megis yn y proffesiwn meddygol, ochr yn ochr â'u gwaith fel Aelod o'r Senedd. Mae rhai Aelodau'n credu y dylai'r egwyddor hon fod yn berthnasol i Aelodau sydd am barhau yn aelodau o gyngor tref neu gymuned.

427. Rydym yn cefnogi'r darpariaethau yn adrannau 62 a 63 mewn perthynas ag anghymhwyso am arferion llygredig neu anghyfreithlon.

Dylanwad amhriodol

428. Mae adran 64 yn gwneud newidiadau i'r drosedd o ddylanwad amhriodol.

429. Cafodd darpariaethau i egluro ystyr cyfreithiol dylanwad amhriodol eu cynnwys yn Neddf Etholiadau 2022, yn dilyn [Adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2016](#) a ddaeth i'r casgliad bod y drosedd wedi'i mynegi'n wael mewn deddfwriaeth. Gwnaeth darpariaethau newydd gryfhau pwysigrwydd niwed i enw da person (gan ei alinio â niwed corfforol). Gwnaethant hefyd egluro pwysigrwydd bwriad yn y person sy'n cyflawni'r drosedd. Yn dilyn ceisiadau gan Weinidogion Cymru, cafodd y darpariaethau hyn eu hefelychu o Ddeddf 2022 ar gyfer etholiadau Cymreig.

430. Mae adran 64 yn dod ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn unol â'r drosedd wedi'i diweddarau o ddylanwad amhriodol sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Etholiadau 2022. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

"Y bwriad yw y bydd y drosedd gyfatebol ar gyfer etholiadau'r Senedd, sydd wedi'i nodi yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, yn cael ei chryfhau yn yr un modd drwy'r Bil ac y bydd yn dod i rym cyn etholiadau nesaf y Senedd yn 2026."²⁷⁰

²⁷⁰ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.129

431. Nododd y Comisiwn Etholiadol ei gefnogaeth i'r darpariaethau i ddiweddarau'r diffiniad o'r drosedd o ddylanwad amhriodol yn unol â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022, gan ychwanegu:

“Clarifying the offence of undue influence in this way will provide voters with more meaningful protection against exploitation and make clear what is and is not acceptable behaviour. It will also make it simpler for the police to act when allegations of undue influence are made.”

432. Aeth y Comisiwn Etholiadol ymlaen i ddweud y byddai'n diweddarau ei ganllawiau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a staff gorsafoedd pleidleisio i nodi beth a ganiateir a beth na chaniateir mewn gorsafoedd pleidleisio ac y byddai hefyd yn diweddarau ei God Ymddygiad i ymgyrchwyr ar yr hyn y dylent ei ystyried wrth ymgyrchu y tu allan i orsafoedd pleidleisio. Gwnaethant gadarnhau y byddent yn parhau i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd fel bod pleidleiswyr yn deall sut i amddiffyn eu pleidlais rhag dylanwad gormodol.²⁷¹

433. Nododd CLILC eu cefnogaeth i ddiweddarau a moderneiddio'r diffiniad o ddylanwad amhriodol, gan nodi:

“Bydd yn darparu cysondeb ac yn lleihau gwahaniaethau â deddfwriaeth y DU tra hefyd yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â niwed ehangach i unigolion, yn hytrach na ffocws ar niwed corfforol.”²⁷²

434. Nododd WECB eu cefnogaeth hefyd er mwyn:

“(1) to be consistent with the provisions of UK legislation and to avoid divergence in regulation and practice between reserved and non-reserved elections and (2) to more easily enable prosecution where offences have occurred.”²⁷³

²⁷¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 11 – Y Comisiwn Etholiadol

²⁷² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 16 - CLILC

²⁷³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, EEB 04 – Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru

Ein barn ni

435. Rydym yn cydnabod bod y darpariaethau sy'n ymwneud â dylanwad amhriodol wedi derbyn cefnogaeth unfrydol gan y rhanddeiliaid a gyflwynodd dystiolaeth i ni. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth i alinio etholiadau llywodraeth leol â'r diffiniad diweddaraf o ddylanwad amhriodol, yn unol â Deddf Etholiadau 2022 a bwriad Llywodraeth Cymru i gryfhau'r diffiniad ar gyfer etholiadau'r Senedd yn yr un modd.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

436. Mae adrannau 65 a 66 yn gwneud darpariaethau ynghylch cryfhau pwyllgor archwilio'r Comisiwn, a'i bŵer i godi tâl yn sgil dyletswyddau ychwanegol a osodir ar y Comisiwn gan y Bil hwn.

437. Mae adran 65 yn ymwneud â phwyllgor archwilio DBCC. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

“Mae pwyllgor archwilio y Comisiwn yn cadw cydbwysedd pwysig ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Comisiwn. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sefydlu pwyllgor archwilio o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Yn sgil y swyddogaethau ychwanegol a roddir i'r Comisiwn, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol cryfhau rôl pwyllgor archwilio y Comisiwn o ran cwmpas ei swyddogaethau a lefel aelodaeth annibynnol y pwyllgor.

Mae'r Bil yn diwygio adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i roi swyddogaethau adolygu ac asesu pellach i bwyllgor archwilio y Comisiwn mewn perthynas â rheoli trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiwn, sut yr ymdrinnir â chwynion a sut yr adolygir adroddiadau a datganiadau ariannol.

Bydd y diwygiad hefyd yn galluogi'r Comisiwn i roi swyddogaethau addas pellach i'r pwyllgor archwilio ac mae'n pennu nifer uchaf aelodau y pwyllgor, nifer lleiaf aelodau lleyg y

pwyllgor ac yn ei gwneud yn ofynnol i gadeirydd a dirprwy gadeirydd y pwyllgor fod yn aelodau lleyg o'r pwyllgor.

Wrth fwrw ati â'r uchod, mae'r Bil yn diwygio'r ddyletswydd a roddir ar y Comisiwn i sefydlu pwyllgor archwilio i ddyletswydd i sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio.”²⁷⁴

438. Byddai adran 65 yn rhoi pŵer i DBCC godi tâl ar bersonau sy'n cael nwyddau a gwasanaethau ganddo. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

“Byddai hyn mewn perthynas â'i swyddogaethau gweinyddu etholiadol newydd (y gellir eu harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol) neu ei swyddogaethau mewn perthynas â Rhan 3 o Ddeddf 2013 (trefniadau ar gyfer llywodraeth leol). Er enghraifft, gall y Comisiwn gaffael sesiynau hyfforddi dewisol i'r gymuned etholiadol, y gallai godi tâl ar fynychwyr am hynny i adennill cost darparu'r hyfforddiant.”²⁷⁵

439. Dywedodd LDBCW wrthym y byddai'r newidiadau yn alinio'r comisiwn ar ei newydd wedd â chyrff cyhoeddus eraill, gan ychwanegu:

“with additional functions coming to the commission, having a strong governance and audit committee is really important, not just for us from a process and operations point of view, but also for public trust. So, we would welcome that.”²⁷⁶

Ein barn ni

440. Nodwn y byddai'r darpariaethau yn adrannau 66 a 65 yn alinio'r DBCC ar ei newydd wedd â chyrff cyhoeddus eraill a bod LDBCW fel y mae ar hyn o bryd wedi croesawu hyn. O ystyried y cynnydd sylweddol yng nghyfrifoldebau'r Comisiwn, credwn fod cryfhau ei drefniadau archwilio a llywodraethu a'i galluogi i godi tâl am wasanaethau yn synhwyrol.

²⁷⁴ Bil Etholiadau a Chyrff Etholiadol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.130-3.134

²⁷⁵ Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.135

²⁷⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 30 Tachwedd 2023, paragraff 113

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
26 Hydref 2023	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Michael Kay, Llywodraeth Cymru Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru
15 Tachwedd 2023	Dr Christine Huebner, Prifysgol Sheffield Jess Blair, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru Dr Nia Thomas, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru Megan Thomas, Anableded Cymru Liz Williams, RNIB Cymru Ruth Coombs, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
22 Tachwedd 2023	Y Cyngorydd Huw David, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Y Cyngorydd Llinos Medi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Y Cyngorydd Andrew Parkhurst, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Clare Sim, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	<p>Colin Everett, Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru</p> <p>Catherine Uphill, Y Comisiwn Etholiadol</p>
<p>30 Tachwedd 2023</p>	<p>Shereen Williams, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</p> <p>Tom Jenkins, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</p> <p>Malcolm Burr, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban</p> <p>Yr Athro Alistair Clark, Prifysgol Newcastle</p> <p>Jessica Laimann, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru</p>
<p>7 Rhagfyr 2023</p>	<p>Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad</p> <p>Michael Kay, Llywodraeth Cymru</p> <p>Laura Mitchell, Llywodraeth Cymru</p> <p>Angharad Thomas-Richards, Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
EEB 01	RNIB Cymru
EEB 02	Yr Athro Alistair Clark, Prifysgol Newcastle
EEB 03	Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
EEB 04	Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru
EEB 05	Ian Lucas
EEB 06	Yr Athro Toby S. James
EEB 07	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
EEB 08	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
EEB 09	Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
EEB 10	Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban
EEB 11	Y Comisiwn Etholiadol
EEB 12	Reform Political Advertising
EEB 13	Anabledd Cymru
EEB 14	Comisiynydd y Gymraeg
EEB 15	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
EEB 16	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru